sicrhau bod marchnadoedd cyfathrebiadau'n **gweithio i bawb**

Adroddiad ar y Farchnad Gyfathrebu: Cymru

Dogfen Ymchwil

Dyddiad cyhoeddi: 4ydd Awst 2016

Cyflwyniad

Dyma unfed adolygiad blynyddol ar ddeg Ofcom o'r farchnad gyfathrebu yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o farchnadoedd cyfathrebiadau'r DU, gan roi sylw i argaeledd, y nifer sy'n defnyddio'r rhyngrwyd a sut y defnyddir y rhyngrwyd, telegyfathrebiadau, darlledu a gwasanaethau post, gan gymharu'r canfyddiadau â'r gwledydd eraill a'r DU drwyddi draw.

Mae mwy o bobl yng Nghymru yn defnyddio cysylltiadau rhyngrwyd symudol cyflymach, ac mae gan bedwar o bob oedolyn yng Nghymru (44%) wasanaeth symudol 4G, twf sylweddol o 21 pwynt canran ers 2015. Mae hyn bellach yn debyg i ganran y DU drwyddi draw, sef 48%, tra oedd Cymru y llynedd yn is na chyfartaledd y DU. Mae cysylltiadau rhyngrwyd symudol cyflymach ar gael yn fwy eang hefyd, gyda darpariaeth 4G ar gael i 90% o adeiladau yng Nghymru.

Bellach, mae gan dros wyth o bob deg cartref (84%) yng Nghymru fynediad i'r rhyngrwyd, gyda 77% â mynediad i fand eang sefydlog. Mae rhaglen Cyflymu Cymru, sydd eisoes wedi cysylltu dros 582,000 o adeiladau ymhob rhan o Gymru, wedi cael ei ymestyn i 2017. Mae'n defnyddio mwy o gysylltiadau ffibr i'r adeilad (FTTP) i adeiladau sy'n rhy bell oddi wrth y cabinet agosaf i gael budd o gysylltiad ffibr i'r cabinet (FTTC) safonol. Bydd llawer o adeiladau yn y rhannau o Gymru sy'n fwy anodd eu cyrraedd nad oedd ganddynt ddarpariaeth o gwbl o'r blaen yn gallu cael cyflymder o hyd at 300Mbit yr eiliad.

Mae'r defnydd o gyfrifiaduron llechen wedi tyfu hefyd, a bellach mae defnyddwyr y rhyngrwyd yng Nghymru yn fwy tebygol na'r rheini yn y DU o ddweud mai eu cyfrifiadur llechen yw eu dyfais bwysicaf ar gyfer mynd ar-lein. Ond, fel y DU drwyddi draw, y ffôn clyfar yw'r ddyfais bwysicaf ar gyfer mynd ar-lein i bobl, gan ddisodli'r gliniadur fel y ddyfais bwysicaf yng Nghymru am y ddwy flynedd diwethaf. Serch hynny, nid yw'r nifer sy'n berchen ar ffôn clyfar wedi newid ac, erbyn hyn, mae'n is na'r DU drwyddi draw.

Mae pobl yng Nghymru yn treulio llai o amser ar-lein (sef cyfartaledd o 17.8 awr yr wythnos) nag unrhyw wlad arall yn y DU. Y gweithgareddau ar-lein mwyaf cyffredin i ddefnyddwyr y rhyngrwyd yng Nghymru yw syrffio cyffredinol a phori (80%) a derbyn negeseuon e-bost (75%).

Er hyn, mae anfon eitemau yn y post yn dal yn bwysig i oedolion yng Nghymru, gyda bron i naw o bob deg oedolyn yng Nghymru yn dweud eu bod yn anfon un eitem o bost o leiaf bob mis. Er hynny, dywedodd pobl yng Nghymru eu bod yn cael mwy o broblemau gyda phost yn hir yn cyrraedd, neu wedi mynd ar goll neu wedi'i ddifrodi nag ymatebwyr yng ngwledydd eraill y DU.

Mae gwylio'r teledu'n dal yn boblogaidd yng Nghymru. Mae canran y cartrefi â setiau teledu clyfar wedi dyblu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mae unigolion yng Nghymru yn treulio mwy o amser na chyfartaledd y DU o flaen y teledu (4 awr a 10 munud bob diwrnod). Mae gwariant ar raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion a materion cyfoes ar gyfer pobl yng Nghymru wedi gweld y cynnydd mwyaf mewn pum mlynedd o'i gymharu â gwledydd y DU; i fyny 14% ers 2015 a 28% ers 2010, a'r teledu yw prif ffynhonnell newyddion y DU a'r byd ar gyfer ymatebwyr yng Nghymru (58%).

Yn adroddiad eleni, rydym wedi parhau i ddadansoddi'r oedolion yng Nghymru sy'n gallu siarad neu ysgrifennu Cymraeg (rhugl neu heb fod yn rhugl), gan edrych ar faint ohonynt sy'n defnyddio gwasanaethau a dyfeisiau cyfathrebu allweddol. Rydym hefyd wedi diweddaru'r ymchwil a gynhaliwyd ddiwethaf yn 2014 (y Diwrnod Digidol), sy'n edrych ar sut mae pobl yn ymwneud â chyfathrebiadau a chyfryngau.

Mae ymchwil y Diwrnod Digidol yn dangos bod pobl yng Nghymru yn treulio mwy o amser yn defnyddio cyfryngau neu'n cyfathrebu nag y maent yn ei wneud yn cysgu (8 awr 33 munud bob diwrnod). Y newid mwyaf o'i gymharu â 2014 fu'r cynnydd mewn negeseua gwib, gyda bron i hanner yr holl oedolion (49%) bellach yn defnyddio'r apiau hyn bob wythnos. Erbyn hyn, mae mwy o bobl yng Nghymru yn gwylio cynnwys ar-alwad y mae'n rhaid talu amdano ac yn treulio llai o amser yn gwylio DVDs nag yn 2014.

Cynnwys

Cyflwyniad		1
Gosod y cyd-destun		4
1	Marchnad Cyfathrebiadau Cymru	5
1.1	Ffeithiau cyflym am Gymru	5
1.2	Y Diwrnod Digidol yng Nghymru	7
1.3	Ymdopi mewn cymdeithas gysylltiedig	16
1.4	Y niferoedd sy'n defnyddio dyfeisiau a gwasanaethau cyfathrebu ymysg y rheini sy'n gallu siarad neu ysgrifennu Cymraeg	20
2	Teledu a chynnwys clyweledol	22
2.1	Datblygiadau diweddar yng Nghymru	22
2.2	Y nifer sy'n defnyddio llwyfannau teledu yng Nghymru	24
2.3	Cynnwys teledu wedi'i ddarlledu	28
2.4	Rhaglenni teledu ar gyfer gwylwyr yng Nghymru	33
2.5	Rhaglenni Cymraeg	38
2.6	Cynyrchiadau teledu rhwydwaith a wneir yng Nghymru	40
3	Radio a chynnwys sain	42
3.1	Datblygiadau diweddar yng Nghymru	42
3.2	Gorsafoedd radio - argaeledd	42
3.3	Darpariaeth DAB	43
3.4	Gwrando ar gynnwys sain	44
3.5	Y nifer sy'n gwrando ac yn berchen ar setiau radio digidol	46
3.6	Y diwydiant radio	49
4	Telegyfathrebiadau a rhwydweithiau	51
4.1	Datblygiadau diweddar yng Nghymru	51
4.2	Argaeledd gwasanaethau band eang sefydlog	53
4.3	Darpariaeth rhwydweithiau symudol	54
4.4	Y nifer sy'n defnyddio gwasanaethau	59
4.5	Bodlonrwydd â gwasanaethau telegyfathrebiadau	67
5	Cynnwys ar-lein ac ar y rhyngrwyd	69
5.1	Y nifer sy'n defnyddio'r rhyngrwyd	69
5.2	Dyfeisiau sy'n gallu defnyddio'r rhyngrwyd	70
5.3	Defnyddio'r rhyngrwyd	72
6	Post	75
6.1	Datblygiadau diweddar yng Nghymru	75
6.2	Anfon a derbyn post: cwsmeriaid preswyl	75
6.3	Agweddau tuag at y Post Brenhinol: cwsmeriaid preswyl	79
6.4	Anfon a derbyn post: cwsmeriaid busnes	80
6.5	Agweddau tuag at y Post Brenhinol: cwsmeriaid busnes	83

Gosod y cyd-destun

Ffeithiau allweddol am Gymru

Ffigur	Cymru	DU
Poblogaeth	3.099 miliwn (amcangyfrif canol 2015)	65.11 miliwn (amcangyfrif canol 2015)
Proffil oed	Poblogaeth oed <16: 17.9% Poblogaeth 65 oed a hŷn: 20.2%	Poblogaeth oed <16: 18.8% Poblogaeth 65 oed a hŷn: 17.8%
Dwysedd poblogaeth	149.5 person y cilomedr sgwâr	269 person y cilomedr sgwâr
Iaith	Gall 24% o'r boblogaeth siarad Cymraeg	amh
Diweithdra	6.7% o'r boblogaeth economaidd weithgar, 16 oed a hŷn	5.1% o'r boblogaeth economaidd weithgar, 16 oed a hŷn
Incwm a Gwariant	Incwm wythnosol cartrefi: £661 Gwariant wythnosol cartrefi: £445	Incwm wythnosol cartrefi: £747 Gwariant wythnosol cartrefi: £531.3

Ffynhonnell: y Swyddfa Ystadegau Gwladol: Population Estimates for UK, England and Wales, Scotland and Northern Ireland, Canol 2015; y Swyddfa Ystadegau Gwladol: Regional Labour Market, Mehefin 2016; y Swyddfa Ystadegau Gwladol: Family Spending, rhifyn 2015; Crynodeb blynyddol o'r farchnad lafur (16 neu drosodd) yn ôl ardal leol yng Nghymru a statws gweithgarwch economaidd Mehefin 2016; Arolwg Defnydd Iaith 2013-15

Nodyn am ymchwil arolwg Traciwr Technoleg Ofcom

Cynhalion ni arolwg wyneb yn wyneb â 3,737 o ymatebwyr 16 oed a hŷn yn y DU, gan gynnal 489 o gyfweliadau yng Nghymru. Gosodwyd cwotâu a defnyddiwyd pwysiadau er mwyn sicrhau bod y sampl yn cynrychioli poblogaeth Cymru o ran oed, rhywedd, grŵp economaidd-gymdeithasol a lleoliad daearyddol. Mae data'r Traciwr Technoleg yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at 2016, gyda'r gwaith maes wedi digwydd ym mis Ionawr a mis Chwefror eleni.

Cafodd yr ymatebwyr eu diffinio fel ymatebwyr trefol os oeddent yn byw mewn anheddiad gyda phoblogaeth o 2000 neu fwy, ac yn ymatebwyr gwledig os oeddent yn byw mewn ardaloedd gyda phoblogaeth lai. Mae gan sampl yr arolwg yng Nghymru led gwall o ryw +/- 3-6% ar y lefel hyder 95%. Mewn ardaloedd trefol a gwledig, mae lled y gwall oddeutu +/-4-7%.

Yn ogystal â data'r arolwg, mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at wybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau eraill, gan gynnwys data a roddwyd i Ofcom gan randdeiliaid. Caiff tablau sy'n crynhoi'r data a gasglwyd yn ein harolwg eu cyhoeddi ar wefan Ofcom.

Nid yw'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn cynrychioli unrhyw gynnig na chasgliad gan Ofcom mewn perthynas â diffiniad o'r marchnadoedd heddiw nac yn y dyfodol. Nid yw chwaith yn cynrychioli unrhyw gynnig na chasgliad am yr asesiad o bŵer sylweddol yn y farchnad at ddibenion Deddf Cyfathrebiadau 2003, Deddf Cystadleuaeth 1998 nac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall.

Mae'r set ddata lawn a'r siartiau ar gael mewn adnodd y gellir ei chwilio, sydd ar gael yn http://www.ofcom.org.uk/cmrwales. Mae adroddiadau ategol ar gyfer y DU a phob un o'r gwledydd ar gael yn www.ofcom.org.uk/cmr.

1 Marchnad Cyfathrebiadau Cymru

1.1 Ffeithiau cyflym am Gymru

Ffigur 1.1 Ffeithiau cyflym am Gymru

Ffeithiau Cyflym am y Gwledydd: Hanner 1 2016 (%) – oni nodir fel arall, mae'r ffigurau yn gysylltiedig â'r cartrefi sy'n defnyddio'r gwasanaeth

	DU	Lloegr	Yr Alban	Cymru	Gogledd Iwerddon	DU drefol	DU wledig	Cymru drefol	Cymru wledig
Nifer â theledu digidol	96	96	98	97	98	96	97	97	96
Teledu digidol drwy dalu	61	59	69 + +11	68 +	71 + +8	62 + +3	54 -	70	62
Teledu Freeview yn unig	29	30	25 -10	22 -	23 -	28 -	35 +	20	27
Nifer â theledu clyfar (mewn cartrefi sydd â theledu)	28 +7	29 +8	21 -	33 +16	18 -	27 +7	32 +9	36 + +20	23 -
Gwasanaeth teledu HD (mewn cartrefi sydd â theledu HD)	79 +4	79 +4	79	77 +8	80	80 +6	75	78 +11	74
Yn berchen ar DAB (ymysg gwrandawyr radio)[1]	50 +7	52 +8	36 -	50	25 -	49 +7	53	52	43
Teledu dal i fyny/gwylio ffilmiau ar-lein/ ar-alwad (drwy gyfrwng unrhyw ddyfais, ymysg y rheini sy'n defnyddio'r rhyngrwyd)	58	59	60	59	44 -	58	60	61 +	49 -
Cyfanswm mynediad i'r rhyngrwyd gartref (drwy gyfrwng unrhyw ddyfais)	86	87	84	84	83	86	87	84	82
Nifer â band eang (gartref)	81	81	79	79	78 +6	80 -	85 +	80	77
Defnyddio ffôn symudol i fynd ar y rhyngrwyd	66 +5	66 +4	63	61	69 +9	66 + +4	61 -	63 +	53 -
Nifer â ffôn symudol (defnydd personol)	93	94	91	91	92	93	94	90	94
Nifer â ffôn clyfar (defnydd personol)	71 +5	71 +4	70	65 -	72 +9	71 +4	68 +9	67	59
Nifer â gwasanaeth 4G (ymysg perchnogion ffôn clyfar)	67 +22	68 +23	57 -	68 +32	77 + +37	69 + +23	55 – +20	72 + +34	49 – +21
Nifer â llinell dir sefydlog	86 +2	86	86	85	86	85 -	92 +	85	84
Nifer â chyfrifiadur bwrdd gwaith	31 -3	32 -5	23 -	33	17 – -11	30 – -4	36 +	32	36
Nifer â gliniadur	64	65	60	61	56 -	64	64	60	62
Nifer â chyfrifiadur llechen	59 +5	59 +5	56	67 +	60	58 – +4	64 + +9	69 +	59 -

	DU	Lloegr	Yr Alban	Cymru	Gogledd Iwerddon	DU drefol	DU wledig	Cymru drefol	Cymru wledig
Nifer ag e-ddarllenydd (defnydd personol)	18	19	15	22	15	18 -	25 +	23	19
Cartrefi sy'n cymryd bwndeli	68 +5	68 +4	69 +8	67	64	67 +4	72	68	64
Argaeledd teleffoni sefydlog	100	100	100	100	100				
Argaeledd band eang sefydlog[2]	99.98	100	99.86	100	100				
Argaeledd band eang LLU ADSL[3]	95	96	90	93	90				
Argaeledd gwasanaeth symudol 2G[4]	99.6	99.7	99.1	98.4	98.8				
Argaeledd gwasanaeth symudol 3G[5]	99.6	99.8	97.9	98.6	99.4				
Argaeledd gwasanaeth symudol 4G[6]	97.8	98.8	92.0	90.1	99.3				
Argaeledd DTT[7]	98.5	98.6	98.7	97.8	97.4				
Gwylio'r teledu (munudau bob dydd) [8]	216	219 **	240	250	225				
Gwrando ar y radio (munudau bob dydd)	183	183	181	190	173				

Allwedd: +Mae'r ffigur yn sylweddol uwch ar gyfer y wlad na chyfartaledd y DU neu yn sylweddol uwch ar gyfer trefol/gwledig y wlad nag ar gyfer gwledig/trefol y wlad; -Mae'r ffigur yn sylweddol is ar gyfer y wlad na chyfartaledd y DU neu yn sylweddol is ar gyfer trefol/gwledig y wlad nag ar gyfer gwledig/trefol y wlad; +xx Mae'r ffigurau wedi codi'n sylweddol o xx bwynt canran ers H1 2015; +xx Mae'r ffigurau wedi gostwng yn sylweddol o xx pwynt canran ers H1 2015;
Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom H1 2016, BARB, RAJAR, data'r diwydiant
Sylfaen: Pob oedolyn dros 16 oed (n = 3737 y DU, 2239 Lloegr, 502 yr Alban, 507 Gogledd Iwerddon, 489 Cymru, 2711 DU drefol, 1026 DU wledig, 1958 Lloegr drefol, 281 Lloegr wledig, 251 yr Alban drefol, 251 yr Alban wledig, 240 Cymru drefol, 249 Cymru wledig, 262 Gogledd Iwerddon drefol, 245 Gogledd Iwerddon wledig)

1. Mae'r ffigurau ar gyfer bod yn berchen ar DAB yn y gwledydd a'r DU a geir yma yn dod o ymchwil Ofcom. Mae Adroddiad y Farchnad Gyfathrebu ar gyfer y DU yn defnyddio data RAJAR ar gyfer bod yn berchen ar DAB
2. Canran yr adeiladau sydd wedi'u cysylltu â chyfnewidfa leol ADSL BT, yn seiliedig ar ddata BT, Rhagfyr 2015
3. Canran yr adeiladau sydd wedi'u cysylltu â chyfnewidfa leol LLU BT, yn seiliedig ar ddata BT, Rhagfyr 2015
4. Canran yr adeiladau â darpariaeth symudol 2G yn yr awyr agored oddi wrth o leiaf un cwmni, Mai 2016
5. Canran yr adeiladau â darpariaeth symudol 3G yn yr awyr agored oddi wrth o leiaf un cwmni, Mai 2016
6. Canran yr adeiladau â darpariaeth symudol 4G yn yr awyr agored oddi wrth o leiaf un cwmni, Mai 2016
7. Rhagamcan o ganran y cartrefi sy'n gallu derbyn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus (PSB) drwy DTT (darpariaeth gan y 3 aml-blecs PSB). Prosiect Cynllunio Teledu ar y cyd (Arqiva, BBC, Ofcom)
*8. Seiliedig ar flwyddyn galendr 2015. **Mae'r ffigur hwn yn adlewyrchu'r cyfartaledd ar draws rhanbarthau Lloegr, gyda'r uchaf yng Ngogledd Iwerddon (Border) (243) a'r isaf yn Llundain (197).*

1.2 Y Diwrnod Digidol yng Nghymru

Crynodeb

Mae cyfryngau a chyfathrebiadau'n rhan allweddol o'n bywydau beunyddiol ac rydym yn treulio mwy o amser yn eu defnyddio nag yn cysgu. At ei gilydd, ychydig o newid sydd wedi bod ers 2014 yn yr amser rydym yn ei dreulio yn defnyddio cyfryngau a chyfathrebiadau. Ond mae rhai newidiadau wedi bod yn yr amser y mae pobl yng Nghymru yn ei neilltuo i wahanol wasanaethau.

Mae pobl yng Nghymru yn treulio llai o amser yn gwylio teledu byw; mae'n debyg eu bod yn gwylio mwy o gynnwys ar-alw y maent yn talu amdano, gan fod yr amser a dreulir yn gwylio'r cynnwys hwn wedi cynyddu yn ôl yr un maint bron.

Ond, gwylio teledu byw sy'n dal i gymryd y rhan fwyaf o'n hamser gyda chyfryngau a chyfathrebiadau. Ac mae gwylio'r teledu[1] yn rhan greiddiol o'n min nos: rhwng 8pm a 10pm bob dydd, mae oddeutu naw o bob deg oedolyn yng Nghymru yn gwylio teledu. Mae gwasanaeth sain traddodiadol yn gwneud yn dda yng Nghymru hefyd - mae'r amser a dreulir yn gwrando ar y radio wedi cynyddu, tra mae'r amser a dreulir gyda cherddoriaeth wedi'i ffrydio ar-lein (megis Spotify neu Apple music) wedi lleihau.

O ran cyfathrebu, mae negeseua gwib wedi dod yn fwy poblogaidd ers 2014 o ran cyfran y bobl sy'n defnyddio negeseua gwib a hefyd o ran faint o amser a dreulir ar y gwasanaethau. Tra mae cyfran y bobl sy'n defnyddio rhwydweithiau cymdeithasol wedi aros yn sefydlog, mae'r amser a dreulir ar y gwasanaethau hyn wedi lleihau.

Er gwaetha'r twf yn y defnydd o ddulliau cyfathrebu anhraddodiadol, ystyrir mai galwadau ffôn yw'r gweithgaredd cyfathrebu pwysicaf.

Cefndir a methodoleg

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o ganlyniadau creiddiol ein hastudiaeth, Diwrnod Digidol 2016, gan lunio cymariaethau gyda data a gasglwyd pan gynhaliwyd yr astudiaeth ddiwethaf yn 2014. Mae rhagor o ddata ar gael ar-lein hefyd drwy'r wefan benodol http://stakeholders.ofcom.org.uk/market-data-research/other/cross-media/digital-day/2016/

Er bod Ofcom yn defnyddio amrywiaeth eang o ymchwil yn y diwydiant i ddeall sut mae pobl yn defnyddio cyfryngau darlledu a chynnwys ar-lein, nid oes llawer o wybodaeth ar gael ar hyn o bryd am sut mae pobl yn defnyddio'r holl wasanaethau cyfathrebu a chyfryngau a dyfeisiau gyda'i gilydd, a sut maent yn ffurfio rhan ganolog o ddiwrnod y defnyddiwr.

Yn Ch1 2016, cynhaliodd Ofcom astudiaeth ddyddiadur feintiol a manwl o holl weithgareddau cyfathrebu a chyfryngau oedolion a phlant yn y DU[2] er mwyn cael trosolwg o rôl y cyfryngau a chyfathrebiadau ym mywydau pobl. Y tro diwethaf i'r astudiaeth gael ei chynnal oedd ddwy flynedd yn ôl, yn 2014. Felly un o'r prif nodau oedd canfod sut mae pethau wedi newid ers hynny. Felly, cynlluniwyd yr astudiaeth i fod mor gyson â phosibl â'r un blaenorol o ran methodoleg (gyda rhai gwelliannau a newidiadau gofynnol).

Mae'r ymchwil yn rhoi cipolwg o ymddygiad pobl gyda chyfryngau a chyfathrebiadau dros gyfnod o saith niwrnod, gan edrych ar sut a phryd mae pobl yn defnyddio gwasanaethau a

[1] Mae gwylio teledu yn cynnwys gwylio teledu a ffilmiau drwy deledu byw, teledu wedi'i recordio, teledu ar-alwad (talu neu am ddim) a DVD/Blu-ray

[2] *Yn yr adroddiad hwn, rydym yn canolbwyntio ar y data o ddyddiaduron oedolion yn unig.*

dyfeisiau gydol y diwrnod, gan ddelio â defnydd personol a defnydd busnes, yn y cartref a thu allan i'r cartref.

Mae disgrifiad cynhwysfawr o'r fethodoleg ar gael yn yr atodiad technegol. Mae'n cynnwys yr holl holiaduron, gwybodaeth enghreifftiol a diffiniadau o ddadansoddiadau - http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/research/cross-media/2016/technical_appendix.pdf.

Ar y cyfan, mae oedolion yng Nghymru yn treulio mwy o amser yn defnyddio cyfryngau neu'n cyfathrebu nag y maent yn ei dreulio'n cysgu

Mae oedolion yng Nghymru yn treulio'r mwyafrif o'u horiau ar ddihun yn ymwneud â'r cyfryngau a/neu weithgaredd cyfathrebu (8awr 33m). Mae'r amser gwirioneddol a dreulir ar y cyfryngau a chyfathrebiadau bob diwrnod yn gymharol gyson ar draws gwledydd y DU.

Ffigur 1.2 Gweithgaredd yn ymwneud â'r cyfryngau a chyfathrebiadau o'i gymharu â gweithgaredd heb fod yn gysylltiedig â'r cyfryngau a chyfathrebiadau, yn ôl amser o'r dydd



Ffynhonnell: Diwrnod Digidol 2016 Ofcom

Sylfaen: Oedolion 16+ yng Nghymru (176)

Trwy 'amldasgio', mae oedolion yng Nghymru yn gwasgu 10 awr a 24 munud o weithgaredd yn ymwneud â'r cyfryngau a chyfathrebiadau i 8 awr a 33 munud ar ddiwrnod arferol.

Mae pobl yn defnyddio'r cyfryngau mewn ffyrdd gwahanol, gan un ai ganolbwyntio'n llwyr ar y dasg mewn llaw (gweithgaredd ar eich pen eich hun - solus), neu wneud dau neu fwy o bethau yr un pryd, megis gwylio'r teledu a chyfathrebu â ffrindiau drwy negeseua gwib (amldasgio gan ddefnyddio cyfryngau gwahanol). Roedd ein hymchwil yn dangos bod oedolion yng Nghymru, diolch i amldasgio, yn gwasgu 10 awr a 24 munud o weithgaredd cysylltiedig â chyfryngau i 8 awr a 33 munud o amser go iawn. Ers 2014, mae'r darlun wedi newid ymysg oedolion yng Nghymru, gan fod gostyngiad wedi bod yn y cyfanswm amser a dreulir yn defnyddio cyfryngau a chyfathrebiadau, a'r amser gwirioneddol a dreulir mewn

diwrnod arferol yn defnyddio cyfryngau a chyfathrebiadau. Oedolion yng Nghymru sy'n treulio'r amser lleiaf ar gyfryngau a chyfathrebiadau o'i gymharu â holl wledydd eraill y DU.

Ffigur 1.3 Yr amser a dreulir bob diwrnod ar gyfartaledd yn defnyddio cyfathrebiadau a chyfryngau, yn ôl gwlad



Ffynhonnell: Diwrnod Digidol 2016 Ofcom

Sylfaen: Oedolion 16+ yn y DU (1512), Lloegr (991), Yr Alban (190), Cymru (176), Gogledd Iwerddon (155).

Ymysg oedolion yng Nghymru, mae dwy ran o bump o'r holl amser a dreulir yn defnyddio cyfryngau a chyfathrebiadau yn cael ei dreulio'n gwylio cynnwys

Mae gwylio cynnwys, megis rhaglenni teledu, ffilmiau neu glipiau fideo byr yn gyfrifol am 41% o'r holl amser y mae oedolion yng Nghymru yn ei dreulio ar weithgaredd yn ymwneud â'r cyfryngau a chyfathrebiadau. Mae hyn yn cynnwys teledu byw yn bennaf, sy'n gyfrifol am 26% o'r holl amser a dreulir gyda chyfryngau a chyfathrebiadau.

Mae'r cyfartaleddau amser a dreulir ar y pum math eang o weithgaredd (gwylio, gwrando, cyfathrebu, chwarae a darllen/pori/defnyddio) yn gyson ar draws y gwledydd, ac nid oes newidiadau sylweddol wedi bod ers 2014.

Ffigur 1.4 Cyfran yr amser a briodolir i'r mathau o weithgaredd, yn ôl gwlad



Ffynhonnell: Diwrnod Digidol 2016 Ofcom

Sylfaen: Oedolion 16+ yn y DU (1512), Lloegr (991), Yr Alban (190), Cymru (176), Gogledd Iwerddon (155).

Mae oedolion yng Nghymru yn treulio llai o amser yn cyfathrebu gan ddefnyddio'u ffôn symudol na'r DU drwyddi draw

Mae oedolion yng Nghymru yn treulio mwy o amser ar gyfartaledd yn gwylio'r teledu nag yn defnyddio unrhyw ddyfais arall; mae hyn yn gyson ar draws y gwledydd. Mae eu hamser yn cyfathrebu'n cael ei dreulio'n bennaf ar gyfrifiaduron a ffonau symudol, gyda chyfrifiaduron yn cael eu defnyddio hefyd i ddarllen/pori/defnyddio.

Pan fyddwn yn rhannu'r math o weithgaredd yn ôl y ddyfais a ddefnyddir, gallwn weld bod oedolion yng Nghymru ar gyfer gweithgareddau cyfathrebu yn defnyddio llai ar ffôn symudol na'r DU drwyddi draw. Pan edrychwn ar chwarae gemau fideo, o'i gymharu â'r DU drwyddi draw, mae oedolion yng Nghymru yn llai tebygol o ddefnyddio teledu (gan gynnwys drwy gonsol gemau wedi'i gysylltu) ac yn fwy tebygol o ddefnyddio cyfrifiadur.

Ffigur 1.5 Cyfran yr amser a briodolir i ddyfeisiau, yn ôl gweithgaredd



Ffynhonnell: Diwrnod Digidol 2016 Ofcom

Sylfaen: Oedolion 16+ yng Nghymru (176)

Mae cyfran yr holl amser a dreulir yn defnyddio cyfryngau a chyfathrebiadau ar gyfer rhai gweithgareddau ymysg oedolion yng Nghymru yn unol â chyfran y DU drwyddi draw; mae chwarter (26%) yr amser yn cael ei dreulio yn gwylio teledu byw a 16% yn gwrando ar y radio.

Ffigur 1.6 Cyfran yr amser a briodolir i weithgareddau cyfun, yn ôl gwlad



Ffynhonnell: Diwrnod Digidol 2016 Ofcom

Sylfaen: Oedolion 16+ yn y DU (1512), Lloegr (991), Yr Alban (190), Cymru (176), Gogledd Iwerddon (155)

Gwylio'r teledu ar set deledu yw'r gweithgaredd mwyaf poblogaidd fin nos

Gan edrych ar gyfran yr holl weithgareddau y cyfrannir atynt sy'n ymwneud â'r cyfryngau a chyfathrebiadau, yn ôl yr amser o'r dydd (ar draws cyfnod o wythnos), ymysg pob oedolyn yng Nghymru, gwylio teledu ar set deledu sydd fwyaf poblogaidd fin nos: mae'n gyfrifol am oddeutu 60% o weithgaredd rhwng 9:15 a 10pm, yn unol â'r gyfran am yr un cyfnod amser yn 2014 ac yn unol â chyfartaledd y DU. Mae gwylio teledu byw yn gyfrifol am 64% o'r amser a dreulir ar yr holl weithgareddau 'gwylio'.

Ffigur 1.7 Cyfran y cyfryngau a chyfathrebiadau, yn ôl amser o'r dydd



Ffynhonnell: Diwrnod Digidol 2016 Ofcom

Sylfaen: Oedolion 16+ yng Nghymru (176)

Wrth wrando ar y radio ar set radio, mae'r cyrhaeddiad ar y cyfnodau brig yn uwch yng Nghymru nag yn y gwledydd eraill

Mae poblogrwydd y teledu fin nos yn cael ei adlewyrchu hefyd yn y cyrhaeddiad ar draws y diwrnod. Mae oddeutu naw o bob deg oedolyn yng Nghymru yn gwylio teledu neu ffilmiau ar set deledu rhwng 8pm a 10pm ar unrhyw bwynt yn yr wythnos. Mae hyn yn cymharu â brig o 50% ar gyfer cyfathrebiadau testun, sy'n uwch na theledu rhwng 8.15am a hanner dydd, ond sy'n mynd yn gynyddol is mewn cymhariaeth wedyn. Mae'r cyrhaeddiad ar y cyfnodau brig yng Nghymru ar gyfer gwrando ar y radio ar set radio yn uwch nag yn unrhyw wlad arall, sef 41% rhwng 8:15 ac 8:30am, a chyrhaeddiad uwch na theledu tan 9:30am.

Ffigur 1.8 Cyrhaeddiad wythnosol gweithgareddau cyfun, yn ôl amser o'r dydd



Ffynhonnell: Diwrnod Digidol 2016 Ofcom

Sylfaen: Oedolion 16+ yng Nghymru (176)

Mae'r patrymau a ddangosir uchod ar gyfer cynnwys teledu a radio ar draws y diwrnod yn cael eu hadlewyrchu'n glir yn y prif ddyfeisiau cysylltiedig, h.y. y set radio a theledu. Mae'r defnydd o set radio yn ystod y bore cynnar yn gymharol uwch yng Nghymru nag yn y gwledydd eraill.

Ffigur 1.9 Cyrhaeddiad wythnosol dyfeisiau, yn ôl amser o'r dydd



Ffynhonnell: Diwrnod Digidol 2016 Ofcom

Sylfaen: Oedolion 16+ yng Nghymru (176)

Ers 2014, mae gwylio gwasanaeth fideo ar-alwad y mae'n rhaid talu amdano wedi cynyddu

Mae Ffigur 1.10 yn dangos cyfran yr oedolion a wnaeth pob gweithgaredd o leiaf unwaith yn ystod eu hwythnos yn cadw dyddiadur. Roedd bron i naw o bob deg (88%) wedi gwylio rhywfaint o deledu byw yn ystod yr wythnos, a hwn oedd y gweithgaredd mwyaf poblogaidd, yn fwy na galwadau ffôn (79%).

Yn unol â'r gwledydd eraill, negeseua gwib oedd y gweithgaredd lle gwelwyd y cynnydd mwyaf ers 2014, i fyny 19 pwynt canran yng Nghymru o 24% i 43%. Gwelwyd cynnydd sylweddol hefyd yn y nifer sy'n gwylio cynnwys ar-alwad y telir amdano (i 30% o 13%), tra mae gwylio DVDs/ Blu-ray wedi gostwng 13 pwynt canran i 24%.

Ffigur 1.10 Cyrhaeddiad wythnosol gweithgareddau'n ymwneud â'r cyfryngau a chyfathrebiadau



Ffynhonnell: Diwrnod Digidol 2016 Ofcom

Sylfaen: Oedolion 16+ yng Nghymru (176)

Mae'r amser go iawn cyfartalog a dreulir yn gwylio teledu byw wedi gostwng 35 munud, tra mae gwylio teledu ar-alwad y mae'n rhaid talu amdano wedi cynyddu 31 munud.

Ymysg y bobl a oedd wedi gwylio unrhyw deledu byw, mae hyd cyfartalog y gweithgaredd hwn bob diwrnod 35 munud yn llai nag yn 2014, er bod nifer y bobl sy'n gwylio teledu byw wedi aros yr un fath. Ac mae gwylio cynnwys yn dal yn weithgaredd poblogaidd. Er bod yr amser a dreulir yn gwylio teledu byw wedi gostwng, mae'r amser ar gyfartaledd a dreulir yn gwylio teledu ar-alwad y mae'n rhaid talu amdano wedi cynyddu 31 munud.

Mae dau weithgaredd arall wedi gweld deg munud neu fwy o gynnydd ers 2014; gwrando ar radio byw (cynnydd o 15 munud) a chwarae gemau fideo (cynnydd o 24 munud). Yn ogystal â theledu byw, mae dau weithgaredd arall wedi gweld gostyngiad ers 2014: rhwydweithio cymdeithasol (i lawr 12 munud) a gwrando ar gerddoriaeth wedi'i ffrydio (i lawr 15 munud). Er bod yr amser a dreulir ar y gweithgareddau hyn yn disgyn, mae'r gyfran o bobl sy'n dal i'w gwneud wedi aros yr un fath.

Ffigur 1.11 Amser a dreulir ar gyfartaledd ar weithgareddau y diwrnod



Ffynhonnell: Diwrnod Digidol 2016 Ofcom
Sylfaen: Oedolion 16+ yng Nghymru (176)

Ystyrir mai galwadau ffôn yw'r gweithgaredd cyfathrebu pwysicaf

Gofynnwyd i'r rhai a gwblhaodd y dyddiadur pa weithgaredd o ran y cyfryngau, a pha ddull cyfathrebu, oedd bwysicaf iddynt hwy'n bersonol.

Dywedodd tri o bob deg oedolyn yng Nghymru mai teledu byw oedd eu gweithgaredd pwysicaf o ran y cyfryngau, tra dywedodd oddeutu dau o bob pump mai galwadau ffôn yw eu dull cyfathrebu pwysicaf; mae'r ddau ffigur yn unol â chyfartaledd y DU (27% a 39%).

Ffigur 1.12 Y gweithgareddau cyfathrebu a chyfryngau mwyaf pwysig



Ffynhonnell: Diwrnod Digidol 2016 Ofcom

Sylfaen: Oedolion 16+ yng Nghymru (176)

1.3 Ymdopi mewn cymdeithas gysylltiedig

Crynodeb

Fel y gwelsom yn ymchwil y Diwrnod Digidol yn adran 1.2 ar gyfer pobl yng Nghymru, mae cyfryngau a chyfathrebiadau'n rhan allweddol o'n bywydau beunyddiol, ac mae mwy o amser yn cael ei dreulio ar y gweithgareddau hyn nag yn cysgu. Gyda chynnydd yn y defnydd o fand eang sefydlog o 63% i 75% o gartrefi rhwng 2014 a 2016, a naw pwynt canran o gynnydd rhwng 2014 a 2016 (i fyny i 61%) yng nghanran y bobl sy'n gallu mynd ar y rhyngrwyd drwy ffôn symudol, fwyfwy mae gan bobl yng Nghymru y cysylltiadau a'r dyfeisiau y mae eu hangen arnynt i fynd ar-lein.

Comisiynodd Ofcom ymchwil i ymchwilio i sut mae pobl yn teimlo am fod yn gysylltiedig, a beth, yn eu tyb hwy, yw'r manteision a'r anfanteision. Mae'r rhyngrwyd yn ehangu gorwelion pobl ac yn ei gwneud yn haws i deuluoedd a ffrindiau gyfathrebu â'i gilydd. Ond mae defnyddio dyfeisiau cysylltiedig, fel ffonau clyfar neu gyfrifiaduron llechen, yn gallu tarfu ar ryngweithio wyneb yn wyneb - mae bron i ddwy ran o dair o bobl yng Nghymru wedi teimlo iddynt gael eu hanwybyddu oherwydd bod y sawl yn eu cwmni'n defnyddio dyfais. Mae'n gallu achosi gwrthdrawiad hefyd - mae hanner y bobl yng Nghymru wedi cael rhywun yn taro i mewn iddynt oherwydd bod y person hwnnw wedi ymgolli yn ei ffôn.

Dydy pobl ddim eisiau rhoi eu dyfeisiau i lawr, ac mae tri o bob deg yn cytuno eu bod yn treulio gormod o amser ar-lein, er bod nifer y bobl yng Nghymru sy'n cytuno â hyn yn is nag ar gyfer y DU drwyddi draw.

Mae hanner y bobl yng Nghymru yn teimlo eu bod yn gaeth i'w dyfais gysylltiedig ac mae un o bob pump yn teimlo'n nerfus heb eu ffôn symudol. Mae lleiafrif (un o bob deg) yn dweud eu bod yn teimlo'n nerfus neu'n bryderus pan nad ydynt ar-lein. Ond, o'i gymharu â'r DU drwyddi draw, mae oedolion yng Nghymru yn llai tebygol o fod yn gaeth i'w dyfais neu o deimlo'n euog am yr amser y maent yn ei dreulio ar-lein. Mae rhai pobl yng Nghymru wedi rhoi 'detox' digidol iddynt eu hunain; roedd bron i dri o bob deg (28%) wedi peidio â defnyddio'r rhyngrwyd o gwbl am gyfnod oherwydd eu bod yn teimlo eu bod yn ei ddefnyddio'n rhy aml.

Mae pobl yng Nghymru yn cofleidio'r byd digidol

Mae bod yn gysylltiedig yn ehangu gorwelion pobl; mae tri chwarter defnyddwyr y rhyngrwyd[3] (75%) yn cytuno bod mynd ar-lein yn eu galluogi i wneud pethau na fyddai'n bosibl iddynt eu gwneud fel arall. Mae ychydig dros hanner defnyddwyr y rhyngrwyd (52%) yn cytuno y byddent yn gwybod llawer llai am y byd (neu eu hardal leol) pe na fyddai ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd.

Mae pobl yng Nghymru yn gwneud y gorau o fanteision bod ar-lein; mae wyth o bob defnyddiwr y rhyngrwyd (80%) yn cytuno bod gwasanaethau cyfathrebu newydd wedi gwneud bywyd yn haws.

Yn ogystal â gwneud mwy o ddefnydd o fod ar-lein, mae pobl hefyd yn arfer mwy â bod ar-lein. Pe na fyddent yn gallu mynd ar y rhyngrwyd, byddai bron i hanner defnyddwyr y rhyngwyd yng Nghymru yn teimlo eu bod yn colli allan, ac ni fyddai oddeutu traean yn gwybod ymhle i gael gwybodaeth pe na allent fynd ar-lein.

[3] Diffinnir defnyddwyr y rhyngrwyd fel y rheini sydd wedi bod ar-lein yn ystod y mis diwethaf

Ond nid yw pawb yn teimlo'r un fath am yr amser maent yn ei dreulio ar-lein

Nid yw'r berthynas sydd gan bobl yng Nghymru â'r rhyngrwyd yn gwbl syml. Mae llawer yn cydnabod rhai o'r effeithiau mwy negyddol y gall ei gael ar eu gwaith a'u bywydau gartref.

Er bod y cyfleoedd newydd hyn yn grymuso, a chytunai traean bod mynd ar-lein yn eu galluogi i weithio'n fwy hyblyg, cytunai un o bob saith (16%) fod cysylltedd cyson yn gwneud iddynt deimlo eu bod yn y gwaith drwy'r amser. Ac mae un o bob deg yn teimlo'n euog am yr amser maent yn ei dreulio ar-lein, er bod dau o bob pump (39%) o ddefnyddwyr y rhyngrwyd yng Nghymru yn cyfaddef iddynt dreulio mwy o amser na'r bwriad ar bori drwy'r rhyngrwyd, ac mae ychydig o dan draean (30%) yn cyfaddef iddynt dreulio mwy o amser na'u bwriad ar y cyfryngau cymdeithasol. Pan fydd pobl yng Nghymru yn treulio mwy o amser na'r hyn a fwriadwyd ar-lein, gwaith tŷ a chwsg sy'n fwyaf tebyg o gael eu hesgeuluso.

I bobl yng Nghymru, roedd yr effeithiau negyddol o fod ar-lein yn llai nag ar gyfer y DU drwyddi draw; dywedodd mwy o bobl yng Nghymru nad oeddynt *erioed* wedi'u heffeithio gan effeithiau negyddol bod ar-lein (52% yng Nghymru o'i gymharu â 37% yn y DU drwyddi draw). Yn unol â hyn, roedd tri deg y cant yn cytuno eu bod yn treulio gormod o amser ar-lein, ond mae hyn yn llai cyffredin ymysg pobl yng Nghymru nag ymysg pobl y DU drwyddi draw.

Ffigur 1.13 Effeithiau negyddol a achosir wrth dreulio gormod o amser ar-lein



Ffynhonnell: Ymchwil Ofcom, 2016

Sylfaen: Pawb sy'n mynd ar-lein o leiaf unwaith y mis (Pawb: 1861, Cymru: 110)

Q.D7 A effeithiwyd yn negyddol erioed ar unrhyw rai o'r rhannau hyn o'ch gwaith neu fywyd personol drwy dreulio gormod o amser ar-lein ?

Mae'r saethau'n cynrychioli cynnydd neu ostyngiad arwyddocaol o'i gymharu â holl ddefnyddwyr y rhyngrwyd yn y DU

Er bod defnyddio ffonau clyfar yn tarfu ar sgwrs, mae pobl yn dal i'w defnyddio

Er bod y rhyngrwyd wedi gweddnewid cyfathrebu i lawer, teimlai bron i ddau o bob pump fod y rhyngrwyd yn tarfu ar sgyrsiau wyneb yn wyneb gyda ffrindiau a theulu, ac roedd ychydig

dros un o bob deg un ai wedi colli allan ar dreulio amser neu wedi bod yn hwyr yn cwrdd â ffrindiau a theulu oherwydd eu bod ar y rhyngrwyd.

Roedd pobl yng Nghymru yr un mor debygol o gadw mewn cysylltiad â ffrindiau drwy negeseuon testun ag yr oeddynt drwy gwrdd wyneb yn wyneb. Ac er i ddau o bob pump person yng Nghymru ddweud bod eu dyfeisiau'n tarfu ar sgyrsiau wyneb yn wyneb, maent yn dal yn fodlon defnyddio'u ffôn clyfar mewn cwmni; cyfaddefodd tri chwarter (76%) defnyddwyr ffôn clyfar eu bod wedi defnyddio'u ffôn clyfar mewn un sefyllfa gymdeithasol o leiaf. Pa un a ydynt yn gwylio'r teledu gyda ffrindiau, mewn bwyty gyda phobl eraill neu'n cael cinio gartref, mae pobl yn defnyddio'u dyfeisiau ac, fel y dangosir yn Ffigur 1.14, mae rhai yn defnyddio'u ffôn clyfar yn y sinema neu theatr hyd yn oed.

Ffigur 1.14 Defnyddio ffôn clyfar gydag eraill mewn sefyllfaoedd gwahanol a pha mor dderbyniol yw hynny



Ffynhonnell: Ymchwil Ofcom 2016

Sylfaen: Pob ymatebydd yng Nghymru (119), defnyddwyr ffôn clyfar yng Nghymru (82)

C: Ar gyfer pob un o'r sefyllfaoedd canlynol, nodwch a ydych chi'n bersonol wedi defnyddio ac/neu wedi bod gydag eraill pan maent hwy wedi defnyddio ffôn clyfar neu gyfrifiadur llechen ar bob achlysur? Ac ar gyfer pob achlysur, allech chi nodi i ba raddau yn eich barn chi mae defnyddio ffôn clyfar ar yr achlysur hwn yn dderbyniol?

Mae bron i ddwy ran o dair o bobl yng Nghymru yn teimlo iddynt gael eu hanwybyddu oherwydd bod pobl eraill bob amser ar eu dyfeisiau

O ystyried y defnydd eang sy'n cael ei wneud o ddyfeisiau, ac weithiau yng nghwmni eraill hyd yn oed, does dim syndod bod pobl yng Nghymru yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu. Dywedodd bron i ddwy ran o dair (63%) o bobl yng Nghymru iddynt deimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu gan ffrind neu berthynas oherwydd bod y person arall yn brysur yn defnyddio'i ffôn neu lechen. Dywedodd bron i draean (31%) eu bod yn profi hyn o leiaf unwaith yr wythnos a theimlai un o bob deg (19%) fel hyn yn ddyddiol.

Mae rhai pobl yn defnyddio'u dyfeisiau i gyfathrebu â phobl tra'u bod yn yr un lle â'r bobl hynny. Roedd chwarter y bobl yng Nghymru wedi gwneud hyn; gartref neu yng nghartref ffrind yw'r mannau lle mae pobl yn fwyaf tebygol o gyfathrebu'n electronig ag eraill tra'u bod yn yr un lle'n gorfforol.

All rhai pobl ddim rhoi eu dyfeisiau o'u gafael, a gwaith tŷ a chysgu sy'n dioddef...

Efallai fod rhai pobl yn teimlo na allant adael eu dyfeisiau ar eu pen eu hunain. Mae oddeutu hanner (46%) y bobl yng Nghymru yn teimlo eu bod yn 'gaeth' i'w dyfais, canran is na'r DU drwyddi draw (59%). Roedd un o bob deg yn cytuno y byddent yn teimlo'n bryderus o fod yn ddigysylltiad, er bod canran llawer uwch (pedwar o bob pump) yn anghytuno - canran uwch na'r DU drwyddi draw.

Un o effeithiau eraill y ffaith nad yw pobl yn gallu rhoi eu dyfeisiau i lawr yw'r perygl o daro i mewn i bobl a gwrthrychau. Mae hanner y bobl yng Nghymru wedi cael rhywun yn taro i mewn iddynt ar y stryd oherwydd bod cerddwr arall wedi ymgolli yn ei ffôn neu lechen. Ond, dim ond un o bob chwech oedd yn cyfaddef iddynt daro i mewn i rywun neu rywbeth tra oeddynt yn canolbwyntio ar eu dyfais.

Ffigur 1.15 Ffôn yn tynnu sylw: taro, cael eich taro a pha mor aml mae'r gwrthdaro wedi digwydd



Ffynhonnell: Ymchwil Ofcom 2016

Sylfaen: Pob ymatebydd yng Nghymru (110)

....er bod rhai pobl wedi ceisio datgysylltu am gyfnod

Er mwyn ceisio cael cydbwysedd gwell rhwng bywyd a thechnoleg, mae rhai pobl yng Nghymru wedi dewis rhoi 'detox' digidol iddynt eu hunain h.y. datgysylltu'n fwriadol a mynd heb y rhyngrwyd am gyfnod. Roedd bron i dri o bob deg (28%) wedi dewis peidio â defnyddio'r rhyngrwyd am gyfnod oherwydd y teimlad eu bod yn ei ddefnyddio'n ormodol. Roedd eu teimladau yn ystod y cyfnod heb y rhyngrwyd yn fwy cadarnhaol na negyddol; roeddynt yn teimlo'n fwy rhydd ac nid oedd eu sylw'n cael ei dynnu gymaint. Ni ddywedodd yr un ohonynt fod y profiad wedi achosi straen, nac ei fod wedi gwneud iddynt deimlo'n bryderus na phoeni am fethu â chadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu. Pan ofynnwyd iddynt a allent ymdopi â 'detox' digidol, teimlai bron i ddwy ran o dair (62%) ohonynt y gallent ymdopi, gyda dim ond un o bob pump (19%) yn meddwl na fyddent yn gallu ymdopi.

Hefyd, roedd mwyafrif (87%) wedi gwneud ymdrech fwriadol i leihau'r amser y maent yn ei dreulio ar-lein. Roedd ychydig dros un o bob pump wedi lleihau'r amser maent yn ei dreulio ar y cyfryngau cymdeithasol (22%), gydag un o bob dau ddeg (5%) yn cau cyfrif cyfryngau cymdeithasol yn llwyr. Er mwyn rheoleiddio'r defnydd o dechnoleg, mae bron i ddwy ran o dair (63%) o bobl yng Nghymru wedi gosod un neu fwy o reolau arnynt eu hunain ynghylch y defnydd o dechnoleg, ac roedd tri chwarter (74%) y rhieni wedi gosod rheol/au ar eu plant i leihau eu hamser ar-lein.

1.4 Y niferoedd sy'n defnyddio dyfeisiau a gwasanaethau cyfathrebu ymysg y rheini sy'n gallu siarad neu ysgrifennu Cymraeg

Cyflwyniad

Gan ddefnyddio data o arolwg Traciwr Technoleg Ofcom (Ionawr - Chwefror 2016), rydym wedi gwneud rhywfaint o waith dadansoddi yng nghyswllt oedolion yng Nghymru sy'n gallu siarad neu ysgrifennu Cymraeg (rhugl neu heb fod yn rhugl), gan edrych ar eu defnydd o ddyfeisiau a chyfathrebiadau allweddol.

Mae Ffigur 1.166 yn dangos proffil demograffig y rheini sy'n gallu siarad neu ysgrifennu Cymraeg ac yn cymharu hwn â'r holl sampl o Gymru. Mae Ffigur 1.17 yn dangos y defnydd o ddyfeisiau a chyfathrebiadau allweddol ymysg oedolion yn yr is-grŵp hwn.

Nodyn am ein hymchwil arolwg

Cofiwch, oherwydd bod maint y seiliau'n isel, dangosol yw'r holl ganfyddiadau ac felly dylid eu trin â gofal. Bwriad sampl y Traciwr Technoleg yng Nghymru oedd cynrychioli poblogaeth Cymru drwyddi draw, ac felly nid yw'n gynrychioliadol o'r rheini sy'n siarad a/neu'n ysgrifennu Cymraeg.

Yn 2016, mae modd cymharu incwm cartref blynyddol, grŵp economaidd-gymdeithasol ac wrbaniaeth y rheini sy'n siarad neu'n ysgrifennu Cymraeg â phob oedolyn yng Nghymru. Mae siaradwyr/ysgrifenwyr Cymraeg yn fwy tebygol o fod yn y grŵp oedran 55+ nag yn y grŵp oedran 35-54 (42% yn y grŵp 55+ oed o'i gymharu â 29% yn y grŵp 35-54 oed).

Ffigur 1.16 Proffil demograffig y rheini sy'n gallu siarad neu ysgrifennu Cymraeg



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, H1 2016
Sylfaen: Pob oedolyn 16 oed a hŷn: 489 Cymru, 135 yn gallu siarad neu ysgrifennu Cymraeg (rhugl neu heb fod yn rhugl)
Nodyn: Nid yw'r ffigurau ar gyfer incwm cartref blynyddol yn dod i 100% gan i gyfran ddewis peidio ag ateb y cwestiwn neu ddweud nad oeddynt yn gwybod

Y niferoedd ymysg y rheini sy'n gallu siarad neu ysgrifennu Cymraeg sy'n defnyddio dyfeisiau a chyfathrebiadau

Mae Ffigur 1.17 yn dangos bod y rheini sy'n siarad neu'n ysgrifennu Cymraeg yn 2016 yn llai tebygol na'r holl oedolion yng Nghymru o fod â mynediad at unrhyw fath o ryngrwyd yn y cartref (74% o'i gymharu â 84%). Does dim gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol eraill.

Ffigur 1.17 Y nifer sy'n defnyddio dyfeisiau a gwasanaethau cyfathrebu yng Nghymru

	Cymru (cyfanswm)	Ymatebwyr sy'n siarad Cymraeg neu'n ysgrifennu yn Gymraeg
Llinell sefydlog	85%	90%
Ffôn symudol (defnydd personol)	91%	84%
Ffôn clyfar (defnydd personol)	65%	59%
Cyfrifiadur (unrhyw fath)	85%	76%
Cyfrifiadur llechen yn y cartref	67%	64%
Cyfanswm - rhyngrwyd	84%	74% ↓
Band Eang (sefydlog a symudol)	79%	71%
Band eang sefydlog	77%	70%
Rhyngrwyd symudol	61%	52%
Mynediad i'r rhyngrwyd gyda ffôn clyfar yn unig	4%	1%
Radio DAB	42%	53%
Teledu drwy Dalu ar y brif set	68%	64%
Bwndel	67%	60%

Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, H1 2016
Sylfaen: Pob oedolyn 16 oed a hŷn: 489 Cymru, 135 yn gallu siarad neu ysgrifennu Cymraeg (rhugl neu heb fod yn rhugl)
↑↓ - mae'r rhain yn dangos cynnydd/gostyngiad arwyddocaol wrth gymharu â Chymru drwyddi draw ar y lefel hyder 95%.
Nodyn: Rhyngrwyd symudol yw mynediad i'r we/data gan ddefnyddio ffôn symudol neu ffôn clyfar.

2 Teledu a chynnwys clyweledol

2.1 Datblygiadau diweddar yng Nghymru

ITV Cymru Wales

Lansiodd ITV sianel HD newydd, ITV Cymru Wales HD, mewn pryd i Gwpan Rygbi'r Byd 2015. Defnyddiodd ITV Cymru Wales yr hawliau darlledu a brynwyd gan ITV i roi sylw helaeth i gynnydd tîm Cymru yng Nghwpan y Byd. Mae symud i HD wedi cael effaith gadarnhaol ar y ffigurau cynulleidfa, a gan ITV Cymru Wales bellach mae'r bedwaredd gyfran uchaf o ran ffigurau gwylio o holl ranbarthau ITV. Ers symud i'r ganolfan ddarlledu newydd ym Mae Caerdydd ym mis Mehefin 2016 sy'n gallu ymdopi â gwasanaethau HD, mae cael y buddsoddiad gofynnol ar gyfer trawsyriadau HD ar draws Freeview, lloeren a chebl wedi bod yn flaenoriaeth bwysig i ITV Cymru Wales.

Mae ITV Cymru Wales wedi bod yn gweithredu o dan drwydded annibynnol i Gymru. Mae'n rhaid i'r cwmni gynhyrchu pedair awr o raglenni newyddion a 90 munud o raglenni heb fod yn newyddion bob wythnos.

Ar ôl i ITV brynu'r cwmni cynhyrchu Cymreig Boom Cymru yn 2015, sy'n darparu cynnwys i S4C, BBC ac ITV Cymru Wales, mae sylfaen rhaglenni ITV Plc wedi cryfhau'n arw yng Nghymru.

Rhaglenni

Roedd uchafbwyntiau arlwy ITV Cymru Wales yn ystod y flwyddyn yn cynnwys Cwpan Rygbi'r Byd 2015, ac roedd y ffaith i ITV sicrhau'r hawliau i ddarlledu Pencampwriaeth Rygbi'r Chwe Gwlad am y chwe blynedd nesaf yn fodd i gyfoethogi darpariaeth newyddon chwaraeon ITV Cymru Wales gyda dwy raglen arbennig cyn y gemau.

Cafwyd darpariaeth helaeth gan ITV Cymru Wales yn ystod Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2016, gan ddarparu rhaglenni penodol yn dwyn y teitl *Wales Decides 2016*. Roedd yr amserlen yn cynnwys rhaglen saith awr a hanner dros nos yn trafod canlyniadau'r etholiad, gyda gohebwyr ar gael mewn 16 lleoliad ledled Cymru.

Mae ITV Cymru Wales wedi cyhoeddi y bydd yn cynhyrchu rhaglenni arbennig i gofféu trychineb Aberfan hanner can mlynedd yn ôl. Byddant yn cael eu dangos yn ystod tymor yr hydref 2016. Mae'r rhain yn ychwanegol at gyfres wyth rhan yn edrych ar sut y llwyddodd yr heddlu i ddatrys troseddau anfad a gafodd eu cyflawni yng Nghymru.

BBC Cymru Wales

Parhaodd Ymddiriedolaeth y BBC i ganiatáu i S4C aros ar iPlayer tan ddiwedd cyfnod nesaf ffi'r drwydded yn 2021/22. Mae hyn yn dilyn cyfnod peilot llwyddiannus a ddechreuodd ym mis Rhagfyr 2014. Mae'r BBC hefyd yn parhau i ddarparu cynnwys yn y Gymraeg ar wefan Cymru Fyw y BBC. Ochr yn ochr â'r cynnwys teledu ar-alwad ar iPlayer a'r cynnwys yn y Gymraeg ar y wefan, cyhoeddodd BBC Radio Cymru ei fwriad i dreialu gwasanaeth dros-dro (pop-up) digidol i ehangu'r dewis y gall ei gynnig i gynulleidfaoedd, yn enwedig pobl iau.

Dechreuodd y gwaith adeiladu ar adeilad newydd BBC Cymru Wales yn y Sgwâr Canolog, Caerdydd. Roedd adroddiad annibynnol gan BOP Consulting yn awgrymu y byddai hyn yn dod â budd economaidd gwerth £1bn i'r rhanbarth dros y ddeng mlynedd nesaf, gan y byddai'n helpu i adfywio rhagor ar y safle proffil-uchel hwn yng nghanol y ddinas.

Rhaglenni

Arhosodd cyfran rhaglenni ‘optio allan’ BBC One a Two Cymru Wales yn gryf: ychwanegodd rhaglenni am Gymru 1.5 pwynt ar gyfartaledd at y gyfran o raglenni rhwydwaith cyfatebol a oedd yn cael eu disodli. Roedd rhaglenni ‘optio allan’ BBC Cymru Wales yn cyrraedd oddeutu un rhan o dair o’r bobl yng Nghymru bob wythnos - ffigur ychydig yn is na'r llynedd. Roedd y rhaglenni hyn yn cynnwys newyddion, chwaraeon byw, materion cyfoes ac amrywiaeth o raglenni dogfen ffeithiol a chyfresi yn cynnwys Real North Wales a Live Longer Wales.

Roedd uchafbwyntiau’r flwyddyn sydd wedi mynd heibio’n cynnwys rhaglenni ar y teledu, ar y radio ar ar-lein am etholiad y Cynulliad Cenedlaethol, ac arlwy cynhwysfawr ar Radio Cymru a Radio Wales am lwyddiant tîm pêl-droed Cymru yn cyrraedd rowndiau terfynol pencampwriaeth Euro 2016.

Roedd yr uchafbwyntiau ym myd y ddrama’n cynnwys *Hinterland* ar gyfer BBC One Wales a *Pobol y Cwm* ar gyfer S4C.

Ceisiodd BBC Cymru Wales hefyd bortreadu Cymru fwy cyfoes ac amrywiol gyda rhaglenni fel *Young, Welsh and Pretty Skint* a *Body Matters,* tra canolbwyntiai’r prosiect Tower ar fywydau pobl sy’n byw yn, ac o amgylch, y blociau tŵr yn Butetown, a elwid unwaith yn Tiger Bay.

Roedd cynyrchiadau teledu gan BBC Cymru Wales ar gyfer y rhwydwaith yn cynnwys *War and Peace* ac *A Midsummer Night’s Dream*.

Cwota cynhyrchu Channel 4 y tu allan i Loegr

Mae cwota Channel 4 ar gyfer rhaglenni y tu allan i Loegr (yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon gyda’i gilydd) wedi’i osod ar 3% ar hyn o bryd yn ôl capasiti (*volume*) a gwariant, yn codi i 9% o 2020 ymlaen. Enillodd y sianel rywfaint o dir yn 2015 gyda llwyddiant *Educating Cardiff*. Perfformiodd y gyfres yn dda iawn ar gyfer plant 10-14 oed, pobl ifanc 16 i 24 oed ac ar gyfer gwylio yng Nghymru, gyda ffigurau’r cyfrannau’n llawer uwch na chyfartaledd y slot.

Mae Channel 4 yn darparu adroddiad i Bwyllgor Ymgynghori Cymru bob blwyddyn. Gwnaethom groesawu Channel 4 i gyfarfod Pwyllgor Ymgynghori Cymru Ofcom ym mis Tachwedd 2015. Yn y cyfarfod cafodd aelodau'r pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Channel 4 yn cyrraedd y cwota ychwanegol a fydd yn berthnasol o 2020 ymlaen.

Teledu lleol i gael mwy o amlygrwydd ar Freeview

Cyhoeddodd Digital UK ei benderfyniad i roi rhagor o amlygrwydd i deledu lleol Cymru ar restr rhaglenni teledu Freeview. Mae’r newidiadau’n dilyn symud BBC Three ar-lein, a bydd yn galluogi'r sianeli Cymreig presennol a rhai’r dyfodol i symud o sianel 23, lle maent wedi’u lleoli ar hyn o bryd ar y Cyfeirydd Rhaglenni Electronig (EPG), i sianel 8 ar Freeview.

Mae gorsaf teledu lleol Caerdydd, Made in Cardiff, yn cael ei reoli erbyn hyn gan swyddfa Bryste Made TV Group, ar ôl i reolwr gorsaf Caerdydd ymddiswyddo ym mis Ionawr 2016. Ym mis Medi 2015, cytunodd Ofcom i gais Made in Cardiff i gadw ei oriau wythnosol o raglenni lleol a ddarlledir am y tro cyntaf, a rhaglenni lleol a ddarlledir am y tro cyntaf yn ystod yr oriau brig, ar y lefelau ymrwymiad a oedd wedi’u nodi ar gyfer Blwyddyn 1. Penderfynodd Ofcom na fyddai’r newidiadau hyn yn effeithio ar gymeriad cyffredinol yr orsaf.

Bydd dau wasanaeth teledu lleol arall yn cael eu lansio maes o law yng Nghymru. Mae Ofcom wedi caniatáu i ddyddiadau lansio'r ddau gwmni, Bay TV Clwyd a Bay TV Abertawe, gael eu hymestyn. Y dyddiad targed cychwynnol oedd mis Ionawr 2016.

2.2 Y nifer sy'n defnyddio llwyfannau teledu yng Nghymru

Mae dros hanner cartrefi Cymru yn derbyn teledu lloeren drwy eu prif set; mae hyn yn dal yn uwch nag yn y DU drwyddi draw

Mae Ffigur 2.1 yn dangos, yn 2016, nad oedd dim newid yn nhreiddiad teledu lloeren yng Nghymru ers 2015 (53%). Yn ystadegol, doedd dim newid ychwaith yn y nifer sy'n derbyn teledu cebl a Freeview. Mae treiddiad teledu digidol drwy gysylltiad band eang wedi codi o 5% i 9% ers 2015.

Does dim gwahaniaeth o ran lleoliad yn 2016 yn y nifer sy'n derbyn teledu lloeren yng Nghymru (54% mewn ardaloedd trefol o'i gymharu â 51% mewn ardaloedd gwledig). Ond, mae'r nifer sy'n defnyddio Freeview mewn ardaloedd gwledig yn uwch (37% o'i gymharu â 25% trefol), tra mae'r nifer sy'n defnyddio gwasanaethau cebl yn uwch mewn ardaloedd trefol (7% o'i gymharu ag 1%). O'i gymharu â'r DU drwyddi draw, mae treiddiad teledu lloeren yn uwch yng Nghymru (53% o'i gymharu â 40%), tra mae cartrefi yng Nghymru yn llai tebygol na'r DU drwyddi draw o fod â Freeview (28% o'i gymharu â 34%) neu deledu cebl (6% o'i gymharu â 16%).

Ffigur 2.1 Cyfran y brif set deledu, yn ôl llwyfan



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, H1 2016

Sylfaen: Pob oedolyn 16+ (n = 3737 y DU, 489 Cymru, 2239 Lloegr, 502 Yr Alban, 507 Gogledd Iwerddon, 240 Cymru drefol, 249 Cymru wledig, 1075 Cymru 2010, 493 Cymru 2011, 513 Cymru 2012, 492 Cymru 2013, 491 Cymru 2014, 496 Cymru 2015, 489 Cymru 2016)

Profion arwyddocâd: Mae'r saethau'n dangos unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng Cymru a'r DU yn 2016, rhwng Cymru drefol a Chymru wledig yn 2016 a rhwng Cymru 2015 a 2016

QH1A: Pa rai, os o gwbl, o'r mathau hyn o deledu sy'n cael eu defnyddio yn eich cartref chi ar hyn o bryd?

Mae cartrefi yng Nghymru yn fwy tebygol na'r DU drwyddi draw o fod â theledu drwy dalu

Yn 2016, roedd gan saith ym mhob deg cartref yng Nghymru (gyda set deledu) deledu drwy dalu[4] (71%); nid yw hyn wedi newid ers 2015. Fel yn 2015, mae cartrefi yng Nghymru yn fwy tebygol na'r DU drwyddi draw o fod â theledu drwy dalu (64%).

Nid yw'r nifer â theledu drwy dalu yn amrywio'n fawr yn ôl lleoliad trefol/gwledig.

Ffigur 2.2 Canran y cartrefi sydd â theledu gwylio am ddim a theledu drwy dalu



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, H1 2016

Sylfaen: Pob oedolyn 16 oed a hŷn sydd â theledu yn y cartref (n = 3606 y DU, 471 Cymru, 2148 Lloegr, 491 yr Alban, 496 Gogledd Iwerddon, 231 Cymru drefol, 240 Cymru wledig, 1060 Cymru 2010, 483 Cymru 2011, 508 Cymru 2012, 485 Cymru 2013, 480 Cymru 2014, 485 Cymru 2015, 471 Cymru 2016)

Profion arwyddocâd: Mae'r saethau'n dangos unrhyw wahaniaethau arwyddocaol ar y lefel hyder 95% rhwng Cymru a'r DU yn 2016, rhwng Cymru drefol a Chymru wledig yn 2016 a rhwng Cymru 2015 a 2016. Mae cylchoedd o gwmpas y ffigurau +/- uwchben y siart yn dangos unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng 2015 a 2016 ar gyfer Cymru, trefol a gwledig.

QH1A: Pa rai, os o gwbl, o'r mathau hyn o deledu sy'n cael eu defnyddio yn eich cartref chi ar hyn o bryd?

Mae gan dri chwarter cartrefi Cymru (sydd â theledu yn y cartref) set deledu HD, yn unol â'r DU drwyddi draw

Ymysg y cartrefi yng Nghymru sydd â set deledu, roedd 73% yn dweud eu bod naill ai'n derbyn gwasanaethau teledu HD neu â set deledu sy'n barod ar gyfer HD. Mae dros hanner y cartrefi yng Nghymru sy'n berchen ar set deledu (56%) yn derbyn gwasanaethau teledu HD, gyda 14% arall yn dweud bod ganddynt set deledu sy'n barod ar gyfer HD ond heb fod yn derbyn gwasanaethau HD. Mae'r ffigurau hyn yn unol â ffigurau'r DU drwyddi draw.

[4] Mae 'Teledu Am Ddim' yn cyfeirio at gartrefi nad ydynt ond yn cael Freeview gyda'r sianeli sy'n dod am ddim (heb unrhyw danysgrifiadau ychwanegol i wasanaethau fel Netflix neu Top Up TV ayb.) neu nad ydynt ond yn cael teledu lloeren Freesat. Mae Teledu drwy Dalu yn cyfeirio at yr holl fathau eraill o wasanaeth teledu.

Yng Nghymru, nid yw'r nifer sy'n berchen ar setiau teledu sy'n barod ar gyfer HD yn amrywio rhwng lleoliadau trefol a gwledig.

Ffigur 2.3 Canran y cartrefi sydd â theledu HD



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, H1 2016

Sylfaen: Pob oedolyn 16 oed a hŷn gyda theledu yn y cartref (n = 3606 y DU, 471 Cymru, 2148 Lloegr, 491 yr Alban, 496 Gogledd Iwerddon, 231 Cymru drefol, 240 Cymru wledig)

Profion arwyddocâd: Mae'r saethau'n dangos unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng Cymru a'r DU yn 2016, rhwng Cymru drefol a Chymru wledig yn 2016

QH53: A yw'r prif deledu yn eich cartref yn set deledu HD neu'n barod ar gyfer HD?/ QH54: Er bod gennych set sy'n barod ar gyfer HD, er mwyn gwylio sianeli a rhaglenni teledu sy'n cael eu darlledu mewn HD, mae angen bocs pen-set HD arnoch neu deledu sydd â derbynnydd teledu HD ynddi. Ar gyfer y brif set deledu, oes gan eich cartref wasanaeth teledu HD?

Mae canran y cartrefi yng Nghymru (sydd â theledu yn y cartref) sydd â theledu clyfar wedi dyblu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

Ymysg y rheini yng Nghymru sydd â theledu yn y cartref, dywedodd 33% fod ganddynt deledu clyfar, yn unol â'r DU drwyddi draw, 16 pwynt canran o gynnydd ers 2014.

Ers 2015, mae'r nifer sy'n berchen ar deledu clyfar yn ardaloedd trefol Cymru wedi cynyddu (36% o'i gymharu â 16%) ac mae'r nifer yn yr ardaloedd trefol yn 2016 yn uwch nag yn yr ardaloedd gwledig (36% o'i gymharu â 23% yn 2015).

Dim ond un ffordd o gysylltu teledu â'r rhyngrwyd yw defnyddio'r swyddogaeth rhyngrwyd a geir mewn teledu clyfar. Gellir defnyddio blychau pen-set, consolau gemau a donglau hefyd i wneud teledu yn deledu sy'n cysylltu â'r rhyngrwyd. Mae'n debyg y bydd canran y cartrefi yng Nghymru sydd â theledu wedi'i chysylltu yn uwch na'r ffigur ar gyfer y nifer â theledu clyfar, sef 33%.

Ffigur 2.4 Y nifer â theledu clyfar



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, H1 2016

Sylfaen: Pob oedolyn 16 oed a hŷn gyda theledu yn y cartref (n = 3606 y DU, 471 Cymru, 2148 Lloegr, 491 yr Alban, 496 Gogledd Iwerddon, 231 Cymru drefol, 240 Cymru wledig)

Profion arwyddocâd: Mae'r saethau'n dangos unrhyw newidiadau arwyddocaol ar y lefel hyder 95% rhwng Cymru a'r DU yn 2016 a rhwng Cymru drefol a gwledig yn 2016. Mae cylchoedd o gwmpas y ffigurau +/- uwchben y siart yn dangos unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng 2015 a 2016 ar gyfer Cymru, trefol a gwledig.

QH62: A oes unrhyw rai o'ch setiau teledu yn 'setiau teledu clyfar'? Mae'r rhain yn fathau newydd o deledu sydd wedi'u cysylltu â'r rhyngrwyd ac sy'n gallu ffrydio fideo yn uniongyrchol i'ch sgrin deledu, heb fod angen cyfrifiadur, blwch ar ben y teledu na chonsol gemau.

Gwasanaethau dal-i-fyny yw'r ffordd fwyaf poblogaidd o wylio rhaglenni teledu a ffilmiau ar-lein ymysg defnyddwyr y rhyngrwyd yng Nghymru

Ymysg y rheini yng Nghymru sy'n defnyddio'r rhyngrwyd gartref neu yn rhywle arall (e.e. ar ffôn clyfar, dyfais llechen neu liniadur), dywedodd tri ym mhob pump eu bod rywdro wedi gwylio rhaglenni teledu neu ffilmiau ar wasanaeth dal-i-fyny (e.e. BBC iPlayer, All 4, Demand 5, Sky On Demand). Roedd dros un ym mhob tri o ddefnyddwyr y rhyngrwyd yn dweud eu bod wedi gwylio'r gwasanaethau hyn yn ystod yr wythnos diwethaf.

Nid oedd gwasanaethau tanysgrifio i gael fideos (e.e. Netflix, Amazon Prime) mor boblogaidd, gydag oddeutu un ym mhob pump o ddefnyddwyr y rhyngrwyd yng Nghymru yn dweud eu bod wedi'u defnyddio rywdro. Roedd canran debyg o ddefnyddwyr y rhyngrwyd rywdro wedi gwylio rhaglenni teledu neu ffilmiau o ffynonellau proffesiynol di-dâl (e.e. Sianeli YouTube swyddogol, gwefannau cynhyrchwyr) a dywedodd llai nag un ym mhob deg eu bod wedi gwylio rhaglenni teledu neu ffilmiau wedi'u prynu neu'u rhentu'n ddigidol.

Ffigur 2.5 Rhaglenni teledu, ffilmiau ac ar-alwad ar unrhyw ddyfais



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, H1 2016
Sylfaen: Pob oedolyn yng Nghymru sy'n 16 oed neu hŷn sy'n defnyddio'r rhyngrwyd gartref neu yn rhywle arall (n = 401)
Profion arwyddocâd: Mae'r saethau'n dangos unrhyw wahaniaethau arwyddocaol ar y lefel hyder 95% rhwng Cymru yn 2015 a 2016.
QH46: Gan feddwl am eich defnydd personol chi o raglenni teledu a ffilmiau ar-lein ac am y gwasanaethau ar-alwad yr ydych efallai yn eu defnyddio ar unrhyw ddyfais (e.e. ffôn clyfar, set deledu, dyfais llechen neu liniadur) yn unrhyw le, pa rai o'r canlynol, os o gwbl, ydych chi wedi'u defnyddio'n bersonol? / QH47: A pha rai, os o gwbl, o'r canlynol rydych chi wedi'u defnyddio yn yr wythnos diwethaf?

2.3 Cynnwys teledu wedi'i ddarlledu

Diffiniadau

Gwylio teledu wedi'i ddarlledu

Mae dadansoddiad BARB yn seiliedig ar y rhaglenni teledu wedi'u hamserlennu sy'n cael eu gwylio, megis rhaglenni sydd wedi'u rhestru yng nghylchgronau rhestru rhaglenni teledu neu ar gyfeiryddion rhaglenni electronig (EPGs) ar setiau teledu. Mae gwylio teledu wedi'i ddarlledu yn cyfeirio at raglenni teledu sy'n cael eu gwylio'n fyw adeg eu darlledu neu recordiadau o'r rhaglenni hyn, neu wylio'r rhaglenni hyn drwy wasanaethau dal-i-fyny (recordio rhaglenni i'w gwylio'n ddiweddarach), hyd at saith niwrnod ar ôl iddynt ymddangos ar y teledu.

Cyfeirir at grwpiau sianeli fel y 'pum prif sianel PSB', 'sianeli portffolio PSB' a sianeli 'teulu PSB' neu 'darlledwyr PSB'. Diffinnir y rhain fel a ganlyn:

Y Pum Prif Sianel PSB:

BBC One, BBC Two, Channel3/ITV (gan gynnwys ITV Breakfast), Channel 4 a Channel 5. Mae hyn yn cynnwys yr amrywiadau HD ond nid y sianeli +1.

Sianeli portffolio PSB:

BBC: BBC Three, BBC Four, BBC News, BBC Parliament, CBBC, CBeebies, sianeli botwm coch y BBC

ITV: Channel3/ITV+1 , ITV2, ITV3, ITV4, CITV, ITVBeITV Encore

Channel 4: Channel 4+1, E4, More4, Film4, 4Music, 4seven,

Channel 5: Channel 5+1, Channel 5+24, 5*, 5USA, Spike.

Mae amrywiadau'r sianeli HD a +1 wedi'u cynnwys pan mae hynny'n briodol.

Sianeli teulu PSB neu sianeli darlledwyr PSB:

Y pum prif sianel PSB a'r holl sianeli portffolio PSB gyda'i gilydd.

Mae'r holl ddata gwylio'n seiliedig ar unigolion 4 oed a hŷn.

Ar gyfartaledd, mae pobl Cymru yn treulio 4 awr a 10 munud yn gwylio'r teledu bob dydd

Yn 2015, treuliodd pobl yng Nghymru 4 awr a 10 munud y dydd ar gyfartaledd yn gwylio'r teledu, sy'n uwch nag yn yr Alban (4 awr), Gogledd Iwerddon (3 awr 45 munud) a'r DU ar gyfartaledd (3 awr 36 munud). O'r holl amser a dreuliwyd yn gwylio'r teledu, treuliwyd 2 awr a 10 munud yn gwylio'r pum prif sianel PSB. Roedd hyn yn uwch nag ym mhob un o'r gwledydd eraill a'r DU drwyddi draw. Wrth ichi gynnwys y sianeli portffolio PSB, roedd gwylwyr Cymru yn treulio 3 awr y dydd yn gwylio'r teulu o sianeli PSB.

Ffigur 2.6 Munudau o deledu sy'n cael eu gwylio bob dydd ar gyfartaledd, fesul gwlad: 2015



Ffynhonnell: BARB, Unigolion (4+). Gweler y diffiniadau am restr o'r sianeli PSB
**Nodyn: Mae'r ffigur hwn yn adlewyrchu'r cyfartaledd ar draws rhanbarthau Lloegr gyda'r uchaf yn ardal Gororau'r Alban (Border) (4 awr 10 munud) a'r isaf yn ardal Gorllewin Lloegr (West) ar 3 awr 17 munud.*

Treulir dros hanner yr holl amser gwylio yn gwylio'r pum prif sianel PSB

Yn 2015, cafodd y pum prif sianel PSB gyfran gyfun o 51.9% o gyfanswm yr amser gwylio yng Nghymru, sydd ychydig yn uwch na'r gyfran gyfun yn yr Alban a Gogledd Iwerddon ac 1.4 pwynt canran yn uwch na'r ganran 50.5% gyfartalog ledled y DU. Yng Nghymru, mae dosbarthiad y gyfran wylio ar draws y pum prif sianel PSB yn debyg i'r DU drwyddi draw. Ond, roedd lefelau gwylio Channel 4 yn is yng Nghymru (3.4%) nag yn y DU drwyddi draw (4.8%) ac yn is nag yn holl wledydd a rhanbarthau eraill y DU.

Ffigur 2.7 Cyfran y pum prif sianel PSB ym mhob cartref, yn ôl gwledydd a rhanbarthau'r DU: 2015



Ffynhonnell: BARB, unigolion (4+). Nodyn: Mae'r siart yn dangos y ffigurau wedi'u talgrynnu i un lle degol. Efallai na fydd y rhifau'n rhoi'r cyfanswm oherwydd talgrynnu.

Mae cyfran gyfun y pum prif sianel PSB wedi gostwng ers 2010

Rhwng 2010 a 2015 bu gostyngiad bychan (0.3 pwynt canran) yng nghyfran gyfun y pum prif sianel PSB yng Nghymru. Roedd y gostyngiad bychan hwn yn debyg i ranbarth Gorllewin Lloegr (-0.2 pwynt canran). Rhanbarth Gororau'r Alban (Border) oedd yr unig ranbarth lle cafwyd cynnydd yng nghyfran y gynulleidfa PSB (+0.4 pwynt canran).[5] Sbardunwyd y twf gan 4 pwynt canran o gynnydd yn y nifer yn gwylio BBC One o'i gymharu â 2010, a dim ond gostyngiadau bychan iawn yn y nifer yn gwylio'r prif sianeli PSB eraill. Roedd y lleihad hwn yn is na'r gostyngiadau a welwyd yng Ngogledd Iwerddon (4.2 pwynt canran) a'r Alban (3.2 pwynt canran) yn ogystal â'r DU drwyddi draw (4.9 pwynt canran).

[5] Efallai fod proffil rhanbarth ITV Border yn egluro hyn; o holl ranbarthau ITV BARB, yn y fan hon mae'r gyfran uchaf o oedolion 65 oed a hŷn yn byw, a'r gyfran uchaf o bobl 45 oed a hŷn yn gyffredinol (54% o'i gymharu â 46% ar gyfer cyfartaledd y DU).

Ffigur 2.8 Newid yng nghyfran gyfun y pum prif sianel PSB, pob cartref: 2010 a 2015



Ffynhonnell: BARB, unigolion 4+.

Cynyddodd cyfanswm cyfran pob un o'r pum prif PSB a'u teuluoedd o sianeli rhwng 2010 a 2015 yng Nghymru

Er i gyfran wylio'r pum prif sianel PSB ostwng 0.3 pwynt canran yng Nghymru, llwyddodd y sianeli portffolio PSB i gynyddu eu cyfran o'r gwylio yng Nghymru 2.1 pwynt canran rhwng 2010 a 2015. Arweiniodd hyn at gynnydd net o 1.8 pwynt canran yn y gyfran ar gyfer y pum prif sianel PSB a'u teuluoedd o sianeli, i 72.0%. Dim ond ardal gororau'r Alban (Border) gafodd gynnydd uwch (+4.3 pwynt canran) yn y gyfran net o'r gynulleidfa: ymhob rhanbarth arall (heblaw am Ogledd Iwerddon, a arhosodd yn gyson) ac yn y DU drwyddi draw cafwyd gostyngiad.

Ffigur 2.9 Y newid net yng nghyfran cynulleidfa'r pum prif sianel PSB a'u sianeli portffolio, pob cartref: 2010 a 2015



Ffynhonnell: BARB, unigolion 4+.

Newyddion rhanbarthol a sianeli HD

Channel 3/ITV

Ar hyn o bryd, nid yw ITV yn darlledu amrywiadau HD rhanbarthol ar gyfer ei holl ranbarthau. Ar gyfer rhai ardaloedd, mae hyn yn golygu mai fersiwn HD y tu allan i'r rhanbarth sy'n cael

ei ddangos ar sianel HD ITV. Mae London, Meridian, Cymru/Wales, Central, Granada, Anglia*, Yorkshire*, Tyne Tees* ac STV ar hyn o bryd yn cynnig y gwasanaeth HD. Felly, yn yr ardaloedd eraill, nid y newyddion lleol a ddangosir ar yr amrywiad HD yw'r newyddion lleol ar gyfer y rhanbarth hwnnw (e.e. yn rhanbarth Border, ffrwd newyddion Granada sy'n cael ei ddangos). Mae'r siart isod yn cynnwys yr holl wylio i unrhyw raglen newyddion yn gynnar fin nos, hyd yn oed os nad y rhaglen honno yw'r rhaglen leol berthnasol i'r ardal. Nid oedd y dadansoddiad o gyfran y bwletinau newyddion yn gynnar fin nos ar gyfer ITV yn Adroddiad y Farchnad Gyfathrebu 2014 yn cynnwys amrywiadau HD ITV - edrychai ar y gyfran SD yn unig. Nodyn: Nid yw ITV HD yn cael ei gynnwys o dan banel ITV Ulster.

BBC One

Mae gan BBC One sianeli HD ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon sy'n dangos newyddion lleol mewn HD. Ar hyn o bryd, nid yw BBC One HD yn rhanbarthau Lloegr yn gallu dangos newyddion lleol (mae neges yn dweud wrth y gwylwyr am droi i BBC One yn ystod y slot newyddion rhanbarthol). Mae'r siart isod yn adlewyrchu'r gwylio a wneir i raglenni newyddion yn gynnar fin nos ar BBC One HD, lle y mae ar gael.

Nid yw'r ffigurau ar gyfer BBC One wedi newid ers Adroddiad y Farchnad Gyfathrebu yn 2014.

*Ar 31 Mawrth 2016, lansiodd ITV y rhanbarthau hyn mewn HD ar Sky a Freesat (Freeview a Virgin Media i ddod).

Mae bwletinau newyddion lleol BBC One ac ITV yn gynnar fin nos yn denu cyfran uwch o wylwyr yng Nghymru na chyfartaledd y DU ar gyfer yr un slot yn ystod yr wythnos.

Llwyddodd *Wales Today,* bwletin newyddion BBC One yn gynnar fin nos, i gael 30.7% ar gyfartaledd o'r gwylio yng Nghymru rhwng 6.30pm a 7.00pm yn 2015, sy'n uwch na chyfartaledd y DU ar gyfer BBC One am yr un cyfnod amser (29.6%). Cafodd *ITV News at Six,* bwletin cyfatebol ITV, gyfran is na *Wales Today* BBC One, er bod y gyfran honno, 20.1%, yn dal uwch na chyfartaledd y DU ar gyfer Channel 3 (18.5%).

Ffigur 2.10 Cyfrannau bwletinau newyddion BBC One ac ITV/STV/UTV/ITV Cymru Wales yn gynnar fin nos, pob cartref: 2015



Ffynhonnell: BARB, unigolion (4+). Mae BBC One yn cynnwys amrywiad HD. Mae ITV yn cynnwys amrywiad HD ond nid sianeli +1 Mae ffigurau bwletinau newyddion ('lleol') yn gynnar fin nos ar sail rhaglenni genre 'newyddion rhanbarthol', yn dechrau rhwng 17:55 ac 18:35 ac yn para 10 munud neu fwy, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae ffigurau'r DU yn seiliedig ar y gyfran i slotiau amser bwletinau

newyddion penodol yn gynnar fin nos. O ran y bwletinau newyddion a ddarlledir yn gynnar fin nos, mae newyddion BBC One yn cael ei ddarlledu rhwng 18:30 a 19:00, a newyddion ITV/STV/UTV/ITV Cymru Wales yn cael ei ddarlledu rhwng 18:00 ac 18:30.

Mae bron i chwech ymhob deg oedolyn yng Nghymru yn defnyddio'r teledu fel eu prif ffynhonnell ar gyfer cael newyddion y DU a newyddion y byd

Yng Nghymru yn 2015, dywedodd bron i chwech ymhob deg (58%) o oedolion 16 oed a hŷn mai'r teledu yw eu prif ffynhonnell ar gyfer cael newyddion y DU a newyddion y byd. Defnyddiwyd gwefannau neu apiau[6] gan ddau ymhob deg oedolyn fel ffynhonnell newyddion, mwy nag unrhyw wlad arall yn y DU a'r DU drwyddi draw. Defnyddiwyd y radio a phapurau newydd ar gyfer cael newyddion y DU a newyddion y byd gan gyfran debyg o oedolion yng Nghymru (9% ac 8%).

Ffigur 2.11 Prif ffynonellau ymatebwyr ar gyfer newyddion y DU a newyddion y byd, yn ôl gwlad: 2015



Ffynhonnell: Traciwr Cyfryngau Ofcom 2015.

Sylfaen: Pawb (2,107); Lloegr (1,607); yr Alban (180); Cymru (164); Gogledd Iwerddon (156). Atebion ≥ 3% wedi'u labelu. Mae'r profion arwyddocâd yn dangos unrhyw wahaniaeth yn y brif ffynhonnell newyddion rhwng unrhyw wlad a phob oedolyn yn 2015.

2.4 Rhaglenni teledu ar gyfer gwylwyr yng Nghymru

Mae'r adran ganlynol yn amlinellu gwariant a nifer yr oriau o raglenni ar gyfer gwylwyr yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a rhanbarthau Lloegr, a ddarperir gan y BBC ac ITV/ STV/ UTV. Nid yw'r ffigurau'n cynnwys rhaglenni iaith Gymraeg a Gaeleg ond maent yn cynnwys rhywfaint o wariant ar raglenni Gwyddeleg gan y BBC. Gweler adran 2.5 am fanylion am S4C.

Cyflwynir ffigurau ariannol hanesyddol mewn termau nominal ac nid ydynt yn cael eu haddasu ar gyfer chwyddiant. Gwneir hyn er mwyn cysoni'r gyfres o adroddiadau ar y

[6] Mae'r rhain yn cynnwys gwefannau neu apiau yr aethpwyd atynt wrth ddefnyddio cyfrifiadur, gliniadur, cyfrifiadur gwe neu lechen ac wrth ddefnyddio ffôn symudol.

Farchnad Gyfathrebu (CMR) ac i roi golwg 'sylfaenol' ar y farchnad yn gyffredinol fel sail i waith dadansoddi pellach.

Diffiniadau

Rhaglenni gwreiddiol i'w dangos am y tro cyntaf – Rhaglenni a gomisiynir gan sianel gwasanaeth cyhoeddus drwyddedig, neu ar ei chyfer, gyda'r bwriad o'u dangos am y tro cyntaf ar deledu yn y Deyrnas Unedig yn y flwyddyn gyfeirio.

Rhaglenni a brynir i'w dangos am y tro cyntaf – Rhaglen barod a brynir gan ddarlledwr oddi wrth ddeiliad hawliau arall ac a ddarlledir am y tro cyntaf yn y DU yn ystod y flwyddyn gyfeirio.

Ailddarllediadau – Pob rhaglen nad yw'n cyfateb i'r un o'r ddau ddiffiniad uchod.

Gwariant ar gynnyrch - mae'n cynnwys yr holl gostau a wynebir gan y darlledwr ar gynnwys; mae'r rhain fel arfer yn cynnwys costau cynhyrchu ar gyfer cynyrchiadau mewnol a chostau trwyddedu ar gyfer rhaglenni a gomisiynir ac a brynir.

Roedd gwariant trwyddedeion y BBC a Channel 3 ar gynnwys gwreiddiol i'w ddarlledu am y tro cyntaf ar gyfer gwylwyr yng Nghymru wedi cynyddu 4.5% yn 2015

Gwariwyd £270m gan y BBC ac ITV/STV/UTV ar gynhyrchu rhaglenni gwreiddiol i'w ddarlledu am y tro cyntaf yn benodol ar gyfer gwylwyr yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a rhanbarthau Lloegr yn 2015, i lawr £7m mewn termau nominal o un flwyddyn i'r llall. Ers 2010, mae'r gwariant ar gynnyrch gwreiddiol i'w ddarlledu am y tro cyntaf o'r gwledydd a'r rhanbarthau gan y BBC ac ITV/STV/UTV wedi codi £9m.

Yn rhannol, gellir rhoi cyfrif am y gostyngiad o un flwyddyn i'r llall ledled y DU yn y gwariant ar ddigwyddiadau eithriadol yn 2014, a oedd yn cynnwys cynnydd mewn gwariant yn yr Alban oherwydd y refferendwm ar annibyniaeth yr Alban a Gemau'r Gymanwlad, a gynhaliwyd yn Glasgow rhwng mis Gorffennaf a mis Awst.

Mewn termau nominal, mae'r gwariant o un flwyddyn i'r llall gan y BBC ac ITV Cymru Wales ar raglenni gwreiddiol i'w darlledu am y tro cyntaf ar gyfer gwylwyr yng Nghymru wedi cynyddu o £27m yn 2014 i £28m yn 2015, sy'n 4.5% o gynnydd.

Ffigur 2.12 Gwariant ar gynnyrch gwreiddiol i'w ddarlledu am y tro cyntaf o'r gwledydd a'r rhanbarthau gan y BBC/ITV/STV/UTV



Ffynhonnell: Darlledwyr. Mae'r holl ffigurau wedi cael eu mynegi mewn termau nominal.

Nodyn: Data ar wariant ar raglenni gwreiddiol i'w darlledu am y tro cyntaf yn unig. Nid yw'r ffigurau'n cynnwys gwariant ar gynnyrch BBC Alba ac S4C ond maent yn cynnwys rhywfaint o wariant ar raglenni yn y Wyddeleg gan y BBC. Mae gwariant ar gynnwys a ddarlledwyd yn y rhan o'r Alban sydd yn rhanbarth ITV Border wedi'i gynnwys o dan Lloegr rhwng 2006 a 2013 ond yn yr Alban wedi hynny. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys gwariant ar gynnwys rhwydwaith. I gael rhagor o wybodaeth am S4C, edrychwch yn Adran 2.5.

Gwelwyd 14% o gynnydd o un flwyddyn i'r llall yng nghyfanswm y gwariant ar raglenni heb fod yn rhai materion cyfoes/newyddion ar gyfer pobl yng Nghymru

Gan droi at gyfanswm y gwariant yn ôl genre, gan gynnwys ailddarllediadau a rhaglenni a brynwyd, roedd gwariant y BBC ac ITV Cymru Wales ar gynnyrch o'r gwledydd a'r rhanbarthau yng Nghymru wedi codi 5% mewn termau nominal ers 2014 a 15% ers 2010.

Cafwyd 14% o gynnydd yn y gwariant ar raglenni heb fod yn rhai materion cyfoes/newyddion ar gyfer pobl Cymru yn 2015, ac mae wedi cynyddu 28% ers 2010; dyma'r cynnydd uchaf dros bum mlynedd mewn rhaglenni heb fod yn rhai materion cyfoes/newyddion o blith unrhyw wlad yn y DU.

Gostyngodd y gwariant ar newyddion 3% tra gostyngodd y gwariant ar faterion cyfoes 7%, y ddau wedi codi'n sylweddol yn 2014.

Ffigur 2.13 Newid yng nghyfanswm y gwariant ar gynnyrch y gwledydd a rhanbarthau, yn ôl genre a gwlad: 2010-2015

	DU		Lloegr		Gogledd Iwerddon		Yr Alban		Cymru	
	1 fl.(%)	5 ml. (%)	1 fl. (%)	5 ml. (%)	1 fl. (%)	5 ml. (%)	1 fl. (%)	5 ml. (%)	1 fl. (%)	5 ml. (%)
Materion Cyfoes	-10%	-1%	-1%	-28%	11%	68%	-19%	34%	-7%	11%
Newyddion	0%	2%	-1%	-1%	4%	17%	1%	16%	-3%	0%
Rhaglenni heb fod yn newyddion/materion cyfoes	-14%	1%	0%	-25%	1%	-4%	-28%	-4%	14%	28%
Cyfanswm Gwariant yn 2015	£271m		£159m		£27m		£56m		£29m	

	DU		Lloegr		Gogledd Iwerddon		Yr Alban		Cymru	
	1fl	5ml	1fl	5ml	1fl	5ml	1fl	5ml	1fl	5ml
Newid mewn gwariant	-5%	1%	-2%	-4%	3%	12%	-20%	6%	5%	15%

Ffynhonnell: Darlledwyr. Mae'r holl ffigurau wedi cael eu mynegi mewn termau nominal.

Nodyn: Nid yw'r ffigurau'n cynnwys gwariant ar gynnyrch BBC Alba ac S4C ond maent yn cynnwys rhywfaint o wariant ar raglenni Gwyddeleg gan y BBC. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys gwariant ar gynnwys rhwydwaith. Roedd y gwariant ar raglenni ar gyfer rhanbarth ITV Border wedi'i rannu rhwng Lloegr a'r Alban yn 2014-2015 ac wedi'i briodoli i Loegr yn unig cyn 2014.

Roedd gwariant y BBC ac ITV ar raglenni ar gyfer gwylwyr yng Nghymru wedi codi 5% o un flwyddyn i'r llall

Yn 2015, cynyddodd y gwariant ar gynnwys y rhanbarthau a'r gwledydd a ddarlledwyd gan y BBC ac ITV ar gyfer pobl Cymru 5% mewn termau nominal i £29m.

Roedd gwariant ar raglenni heb fod yn newyddion nac yn faterion cyfoes yn gyfrifol am dros hanner cyfanswm y gwariant; roedd newyddion yn gyfrifol am 34% yn rhagor, gyda materion cyfoes yn gyfrifol am y 12% oedd yn weddill.

Yn ogystal â hyn, gwariodd y BBC £28m ar ddarparu mathau eraill o gynnwys i S4C o dan delerau'r cytundeb gweithredu, a chyfrannodd £5m at BBC Alba yn yr Alban.

Ffigur 2.14 Cyfanswm gwariant BBC/ITV/STV/UTV ar gynnyrch y gwledydd/rhanbarthau ar gyfer y prif sianeli PSB (BBC1 a Channel 3): 2015



Ffynhonnell: Darlledwyr.

Nodyn: Nid yw'r ffigurau'n cynnwys gwariant ar gynnyrch BBC Alba ac S4C ond maent yn cynnwys rhywfaint o wariant ar raglenni Gwyddeleg gan y BBC. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys gwariant ar gynnwys rhwydwaith. Mae ffigurau'r Alban yn cynnwys rhaglenni i wylwyr ITV Border yn yr Alban. Roedd hyn yn 73 awr o faterion cyfoes yn 2015.

Cynyddodd nifer yr oriau gwreiddiol i'w darlledu am y tro cyntaf yng Nghymru 3% o un flwyddyn i'r llall

Roedd y BBC ac ITV/STV/UTV wedi cynhyrchu cyfanswm o 11,076 awr o gynnwys gwreiddiol i'w ddarlledu am y tro cyntaf ar gyfer Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a rhanbarthau Lloegr yn 2015, i lawr 123 awr (-1%) o un flwyddyn i'r llall. Ers 2010, mae nifer yr oriau o gynnyrch gwreiddiol a ddarlledir am y tro cyntaf o'r rhanbarthau/gwledydd wedi aros fwy neu lai yn sefydlog o ran canran (0%).

Yng Nghymru y cafwyd y cynnydd uchaf yn nifer yr oriau o raglenni gwreiddiol i'w darlledu am y tro cyntaf yn 2015, i fyny 3%. Ond, mae gostyngiad 4% wedi bod yn nifer yr oriau gwreiddiol i'w darlledu am y tro cyntaf yng Nghymru ers 2010.

Ffigur 2.15 Oriau cynnyrch gwreiddiol y gwledydd/rhanbarthau i'w darlledu am y tro cyntaf, yn ôl genre a darlledwr: 2015



Ffynhonnell: Darlledwyr.
Nodyn: Data ar oriau'r rhaglenni gwreiddiol i'w darlledu am y tro cyntaf yn unig. Nid yw'r oriau yn cynnwys cynnyrch BBC Alba ac S4C ond maent yn cynnwys rhywfaint o oriau o raglenni Gwyddeleg gan y BBC. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys oriau cynnwys rhwydwaith. Mae ffigurau'r Alban yn cynnwys rhaglenni i wylwyr ITV Border yn yr Alban. Roedd hyn yn 73 awr o faterion cyfoes yn 2015.

Mae cyfanswm cost yr awr ar gyfer rhaglenni'r gwledydd wedi cynyddu 23% ers 2010 ar gyfer Cymru

Wrth ddadansoddi cost gwneud rhaglenni i'r gwledydd, Cymru oedd â'r gost fesul awr uchaf ar gyfartaledd yn 2015, sef £28,000. Mae hyn £5,000 yn fwy na chyfartaledd y DU.

Mewn termau nominal, dros y cyfnod pum mlynedd, roedd y gost yr awr wedi cynyddu 23% yng Nghymru, o'i gymharu â chynnydd cyfartalog y DU o 5%. Gellid priodoli'r cynnydd hwn yn y gost yr awr i'r ffaith bod cynnyrch drutach wedi'i gynhyrchu ar gyfer gwylwyr yng Nghymru ers 2010[7].

[7] Mae rhaglenni drama (fel Y Gwyll/Hinterland S4C/BBC) yn draddodiadol yn costio mwy i'w gwneud na genres eraill.

Ffigur 2.16 Cost yr awr cyfanswm cynnyrch y gwledydd a'r rhanbarthau, yn ôl gwlad: 2010-2015



Ffynhonnell: Darlledwyr. Mae'r holl ffigurau wedi cael eu mynegi mewn termau nominal.
Nodyn: Nid yw'r ffigurau'n cynnwys gwariant ar gynnyrch BBC Alba ac S4C ond maent yn cynnwys rhywfaint o wariant ar raglenni yn y Wyddeleg gan y BBC. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys gwariant ar gynnwys rhwydwaith. Mae ffigurau'r Alban yn cynnwys rhaglenni i wylwyr ITV Border yn yr Alban. Roedd hyn yn 73 awr o faterion cyfoes yn 2015.

2.5 Rhaglenni Cymraeg

Gwariant a chynnyrch yn yr iaith Gymraeg

Yn 2013, cytunodd S4C ag Ymddiriedolaeth y BBC y byddai S4C yn cael ei chyllido'n rhannol gan ffi'r drwydded deledu. Fel rhan o delerau'r cytundeb, byddai S4C yn cael £76.3m ym mlwyddyn ariannol 2013/2014, a fyddai'n gostwng o un flwyddyn i'r llall i £74.5m yn 2016/2017[8]. Cyhoeddwyd y byddai'r arian y mae S4C yn ei gael o ffi'r drwydded yn aros yn £74.5m ar gyfer 2017/18[9]. Bydd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon hefyd yn parhau i roi £6.8m o gyllid i S4C tan fis Ebrill 2017. Mae'r 2% o gyllid sy'n weddill yn dod o weithgareddau masnachol a refeniw hysbysebu S4C.

Mae gan y BBC hefyd ddyletswydd statudol i ddarparu deg awr o gynnwys yr wythnos am ddim i S4C, gan gynnwys y gwasanaeth (newyddion) *Newyddion*, yr opera sebon *Pobol y Cwm* a rhai rhaglenni chwaraeon a digwyddiadau arbennig. Cytunwyd mai gwerth hyn fyddai £19.4m y flwyddyn. Ond, yn 2015/16, aeth y BBC dros y gyllideb hon, gan wario £28.0m ar gostau cynhyrchu a chostau cysylltiedig ar gyfer cynnwys S4C.

Y gwariant cyffredinol ar raglenni ar S4C yw £94.8m

Roedd gwariant S4C a'r BBC gyda'i gilydd ar raglenni ar gyfer S4C yn £94.8m ym mlwyddyn ariannol 2015/16. Roedd hyn yn cynnwys y £28.0m a wariwyd gan y BBC ar ddarparu rhaglenni y tu allan i gyllideb S4C o dan delerau'r cytundeb gweithredu, a chostau comisiynu a phrynu rhaglenni ac ailddarllediadau o £66.8m a wynebwyd yn uniongyrchol gan S4C.

[8] http://www.s4c.co.uk/e_press_level2.shtml?id=726
[9] http://www.s4c.cymru/e_press_level2.shtml?id=3180

Ffigur 2.17 Gwariant arall ar raglenni eraill yn y gwledydd datganoledig: 2015



Ffynhonnell: Darlledwyr.

Nodyn: Mae 'BBC S4C Statudol' yn cyfeirio at y gost i'r BBC o raglenni a ddarparwyd ar gyfer S4C gan y BBC fel rhan o'u cytundeb statudol. Mae ILBF / USBF yn cyfeirio at gyfraniadau cynhyrchu ychwanegol i Gronfa Gyllid yr Iaith Wyddeleg a Chronfa Ddarlledu Gaeleg Ulster. Mae ffigurau S4C a BBC S4C Statudol yn berthnasol i flwyddyn ariannol 2015/2016, a mae ffigurau ILBF/ USBF a BBC Alba yn berthnasol i flwyddyn galendr 2015.

Arhosodd gwariant S4C (heb gynnwys gwariant y BBC ar gynhyrchu y soniwyd amdano eisoes) ar raglenni a gomisiynwyd i'w dangos am y tro cyntaf yn 2015 yn sefydlog o un flwyddyn i'r llall mewn termau nominal, sef £63m yn 2015; sy'n cynrychioli cyfran fawr o wariant S4C yn 2015, sef £66.8m.

Ffigur 2.18 Gwariant gan S4C ar raglenni Cymraeg i'w darlledu am y tro cyntaf



Ffynhonnell: S4C. Mae'r holl ffigurau wedi cael eu mynegi mewn termau nominal. Nodyn: Nid yw hyn yn cynnwys rhaglenni a ddarparwyd gan y BBC o dan y ddyletswydd statudol.

Roedd cyfanswm nifer yr oriau a ddarlledwyd gan S4C yn 2015 wedi gostwng 66 awr i 6,722 awr. Ailddarllediadau o hyd oedd y rhan fwyaf o allbwn y sianel, sef 58% o'r holl raglenni yn ystod y flwyddyn.

Roedd yr oriau a ailddarlledwyd i fyny 5%, o 3,876 awr yn 2014 i 3,919 awr yn 2015. Gostyngodd rhaglenni wedi'u comisiynu i'w dangos am y tro cyntaf oddi wrth gwmnïau annibynnol 4% o un flwyddyn i'r llall, gan ddod â'r cyfanswm i 1,838 awr yn y categori hwn.

Gostyngodd nifer y rhaglenni a brynwyd i'w darlledu am y tro cyntaf 8% yn 2015. Mae oriau rhaglenni statudol y BBC wedi aros yn gyson, gyda chynnydd bychan o 3 awr. Cafwyd 534 awr yn 2015, a oedd yn dal yn uwch na'r rhwymedigaeth i ddarparu 520 awr y flwyddyn. Roedd rhaglenni wedi'u comisiynu i'w darlledu am y tro cyntaf gan y BBC yn dal yn 13 awr yn 2015.

Ffigur 2.19 Math o gynnyrch Cymraeg ar S4C, yn ôl oriau



Ffynhonnell: S4C

2.6 Cynyrchiadau teledu rhwydwaith a wneir yng Nghymru

Mae Ffigur 2.20 a Ffigur 2.21 isod yn dangos y gyfran o raglenni rhwydwaith PSB y DU a gynhyrchwyd yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn ystod y pum mlynedd diwethaf, yn ôl gwariant a chapasiti (volume).

Yn 2015, roedd 3.5% o wariant rhwydwaith ar gynnwys gwreiddiol, heb gynnwys newyddion, wedi'i roi i Gymru, i fyny o 3% yn 2014. Darparodd hyn 2.7% o'r holl oriau darlledu, hefyd i fyny o 1.8% yn 2014. Mae hyn yn dangos bod cost gyfartalog pob awr o gynhyrchu yng Nghymru yn dal yn uwch na chyfartaledd y DU.

Fel yn y blynyddoedd a fu, roedd y rhan fwyaf o'r gwariant yn Llundain. Roedd 54.4% o wariant ar gynnwys gwreiddiol wedi darparu 50.8% o'r holl oriau rhwydwaith.

Ffigur 2.20 Gwariant ar gynyrchiadau rhwydwaith gwreiddiol: 2011-2015



Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr

Nodyn: Nid yw'r gwariant hwn yn cynnwys cynyrchiadau newyddion rhwydwaith. Mae'r categori 'arall' yn cyfeirio at raglenni wedi'u gwneud gan gynhyrchwyr o fewn dalgylch yr M25, sy'n cyfrif fel cynyrchiadau rhanbarthol ar y sail bod 70% o gyfanswm y gwariant a 50% o'r gwariant ar dalent oddi ar y sgrin y tu allan i'r M25, ond ddim i gyd mewn un is-ranbarth, ac felly nid oes modd eu priodoli i un rhanbarth. Ewch i http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/guidance/programme-guidance/reg_prod/ ar wefan Ofcom i gael rhagor o fanylion.

Ffigur 2.21 Capasiti (*volume*) y cynyrchiadau rhwydwaith gwreiddiol: 2011-2015



Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr

Nodyn: Nid yw'r oriau hyn yn cynnwys cynyrchiadau newyddion rhwydwaith. Mae'r categori 'arall' yn cyfeirio at raglenni wedi'u gwneud gan gynhyrchwyr o fewn dalgylch yr M25, sy'n cyfrif fel cynyrchiadau rhanbarthol ar y sail bod 70% o gyfanswm y gwariant a 50% o'r gwariant ar dalent oddi ar y sgrin y tu allan i'r M25, ond ddim i gyd mewn un isranbarth, ac felly nid oes modd eu priodoli i un rhanbarth. Ewch i http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/guidance/programme-guidance/reg_prod/ ar wefan Ofcom i gael rhagor o fanylion.

3 Radio a chynnwys sain

3.1 Datblygiadau diweddar yng Nghymru

Darlledu Sain Digidol (DAB) - argaeledd yng Nghymru

Gyda lansio amlblecs gogledd orllewin Cymru ddiwedd 2014, cynyddodd y gwasanaethau radio digidol DAB lleol sydd ar gael i bobl yng Nghymru ac, ym mis Mawrth 2016, lansiwyd ail amlblecs radio digidol masnachol ledled y DU, yn darlledu 18 o orsafoedd digidol (gan gynnwys 14 newydd).

Mae'r amlblecs radio digidol newydd ledled y DU yn cael ei redeg gan Sound Digital, consortiwm yn cynnwys Arqiva, Bauer, a Wireless Group (UTV Media GB yn flaenorol). Mae'r amlblecs (sef y seilwaith trawsyrru a ddefnyddir i gyflenwi'r gwasanaethau hyn) yn cludo gorsafoedd newydd gan gynnwys Virgin Radio, talkRADIO, talkSPORT 2 a Share Radio. Mae'r ddarpariaeth drwy'r amlblecs newydd yn fwy cyfyngedig nag amlblecsau eraill y DU, sy'n cynnwys BBC National a Digital One. Mae'r ddarpariaeth o dan do ar draws y DU ar hyn o bryd yn 76.5% o gartrefi'r DU. Yng Nghymru, 51.5% fydd y ffigur. Ymdrinnir â darpariaeth DAB gan bob cwmni yn adran 3.3 y ddogfen hon. Mae'r mwyafrif yng Nghymru yn dal i wrando ar FM.

Ailfrandio a gorsaf newydd i Town and Country Broadcasting

Fel rhan o'r broses o ailfrandio, mae Town and Country Broadcasting Ltd wedi cael ei ailenwi, sef Nation Broadcasting. Cyhoeddodd y cwmni cyfryngau y byddai Nation Hits yn cael ei ailfrandio, gan ddychwelyd i'w hen enw, Swansea Bay Radio, ar 1 Mawrth 2016, ac fe lansiodd orsaf DAB genedlaethol newydd, Nation Gold, ym mis Rhagfyr 2015, sy'n chwarae amrywiaeth o gerddoriaeth y 70au, yr 80au a'r 90au. Mae Nation Broadcasting yn ymestyn ei rwydwaith trosglwyddyddion i wella'r ddarpariaeth DAB yng Nghymru.

3.2 Gorsafoedd radio - argaeledd

Bellach, mae 68 gorsaf yn darlledu ar DAB yng Nghymru

Ar ôl lansio amlblecs Sound Digital ym mis Mawrth 2016, bellach mae 68 gorsaf ar gael ar DAB yng Nghymru. Mae'r ail amlblecs ar gyfer y DU yn ychwanegu 18 gorsaf ddigidol arall i'r rheini sydd eisoes ar gael: 13 gan y BBC, 12 gorsaf ar amlblecs Digital One a 25 gorsaf fasnachol ar amlblecsau DAB lleol.

Ond, ni fydd yr holl orsafoedd digidol hyn ar gael ar DAB i wrandawyr ledled Cymru. Fel y dengys Ffigur 3.2, mae canran y cartrefi o fewn yr ardal ddarpariaeth ar gyfer yr holl fathau o orsaf yn amrywio, ac mae gwasanaethau gwahanol ar bob un o'r amlblecsau DAB lleol sy'n gwasanaethu rhannau gwahanol o Gymru.

Ar hyn o bryd, mae deg gorsaf radio cymunedol ar yr awyr yng Nghymru– Calon FM, Tudno FM, BRfm, Radio Tircoed, Radio Glan Clwyd, Môn FM, Radio Cardiff, Radio Tircoed, Bro Radio a GTFM.

Mae 35 o orsafoedd analog hefyd ar gael yng Nghymru. Mae llawer o'r rhain yn cael eu darlledu ar yr un pryd ar orsafoedd DAB. Ond mae'r deg gwasanaeth radio cymunedol a rhai o'r gwasanaethau radio masnachol lleol ar gael ar analog yn unig yn eu hardaloedd darparu lleol.

Ffigur 3.1 Gorsafoedd radio - argaeledd



Ffynhonnell: Ofcom, Mai 2016

Nodyn: Mae'r siart hwn yn dangos y nifer fwyaf o orsafoedd sydd ar gael; mae amrywiadau lleol a materion yn ymwneud â derbyniad yn golygu na fydd gwrandawyr o reidrwydd yn gallu cael gafael arnynt i gyd.

3.3 Darpariaeth DAB

Mae pob darparwr wedi cynyddu ei ddarpariaeth DAB i gartrefi yng Nghymru

Mae gwasanaethau DAB gan y BBC ar gael bellach i 92% o aelwydydd yng Nghymru, tri phwynt canran o gynnydd mewn blwyddyn. Mae'r ddarpariaeth gan Digital One, un o'r amlblecsau masnachol sy'n gwasanaethu'r DU i gyd, hefyd wedi cynyddu tri phwynt canran; mae'n cyrraedd 67% o aelwydydd yng Nghymru erbyn hyn.

Mae'r ddarpariaeth gan amlblecsau DAB lleol yng Nghymru, yn ogystal ag ar draws y DU, yn cael ei hymestyn ar hyn o bryd wrth i safleoedd trosglwyddyddion newydd gael eu hychwanegu. Erbyn tymor yr Hydref 2016, y disgwyl yw y bydd y ddarpariaeth DAB lleol yng Nghymru ar gael i 86% o aelwydydd. Bydd hyn yn 23 pwynt canran o gynnydd o'i gymharu â'r ddarpariaeth yn 2015.

Ffigur 3.2 Darpariaeth DAB i aelwydydd



Ffynhonnell: BBC, Arqiva, Ofcom, Mai 2016.

Mae'r ffigurau ar gyfer DAB lleol yn amcanestyniadau o'r ddarpariaeth ddisgwyliedig ar gyfer Hydref 2016 ar sail rhestr gynlluniedig o safleoedd trosglwyddyddion. Mae'r cynllun yn cael ei fireinio ar hyn o bryd ac efallai y bydd y gwir ddarpariaeth ychydig yn wahanol i'r ffigurau hynny pan fydd y rhaglen ehangu bresennol yn dod i ben.

3.4 Gwrando ar gynnwys sain

Mae mwy o bobl yng Nghymru yn gwrando ar y radio, ac yn gwrando am fwy o amser, nag yn y DU drwyddi draw

Yn 2015, cyrhaeddodd gwasanaethau radio 93.6% o'r boblogaeth oedolion yng Nghymru. Mae hyn 4 pwynt canran yn uwch na chyfartaledd y DU, a'r cyrhaeddiad uchaf ymysg holl wledydd y DU. Hefyd, gwrandawyr yng Nghymru oedd yn gwrando ar y radio am y cyfnod hwyaf o'i gymharu â'r DU drwyddi draw, sef 22.1 awr yr wythnos ar gyfartaledd. Mae hyn yn ostyngiad bychan o'r 22.4 awr yr wythnos yn 2014.

Ffigur 3.3 Oriau gwrando a chyrhaeddiad wythnosol cyfartalog: 2015

	Lloegr	Yr Alban	Cymru	Gogledd Iwerddon	CYFANSWM Y DU
Oriau gwrando wythnosol ar gyfartaledd	21.4 awr	21.1 awr	22.1 awr	20.2 awr	21.4 awr
Cyrhaeddiad	89.6%	87.9%	93.6%	86.6%	89.6%

Ffynhonnell: RAJAR, Pob oedolyn (15+), y flwyddyn a ddaeth i ben Ch4 2015. Caiff cyrhaeddiad ei ddiffinio fel canran poblogaeth oedolion yr ardal sy'n gwrando ar orsaf am o leiaf bum munud mewn wythnos arferol.

Mae dros hanner y gwrando yng Nghymru yn cael ei wneud ar wasanaethau rhwydwaith y BBC

Roedd gwasanaethau rhwydwaith y BBC ar draws y DU yn gyfrifol am 51% o'r holl oriau gwrando yng Nghymru, 5 pwynt canran yn uwch na chyfartaledd y DU. Cymru oedd yr unig wlad yn y DU lle roedd dros hanner yr holl wrando yn digwydd ar y gwasanaethau hyn.

Gorsafoedd masnachol lleol yng Nghymru sydd â'r gyfran isaf o'r holl oriau gwrando ar gyfer y mathau hyn o wasanaeth ymysg holl wledydd y DU, sef 25%, 4 pwynt canran yn is na chyfartaledd y DU. Yn yr un modd, yng Nghymru y ceir y gyfran isaf o bobl sy'n gwrando ar orsafoedd masnachol yn gyffredinol (h.y. lleol ac ar draws y DU) o blith holl wledydd y DU, sef 38%. Mae hyn 5 pwynt canran yn is na chyfartaledd y DU.

Gwasanaethau'r BBC i'r gwledydd (BBC Radio Wales a BBC Radio Cymru) gafodd 9% o'r gwrando, 2 bwynt canran yn uwch na chyfartaledd y DU ar gyfer gwasanaethau lleol y BBC neu wasanaethau'r BBC i'r gwledydd.

Ffigur 3.4 Cyfran o'r oriau gwrando yn ôl gwlad: 2015



Ffynhonnell: RAJAR, Pob oedolyn (15 oed a hŷn), y flwyddyn a ddaeth i ben yn Ch4 2015

Ychydig o dan un o bob pump o oedolion yng Nghymru a fu'n gwrando ar BBC Radio Wales neu BBC Radio Cymru mewn wythnos arferol yn 2015

Roedd cyrhaeddiad cyfun dau wasanaeth y BBC i'r gwledydd yng Nghymru yn 19% yn 2015, ychydig yn is na chyrhaeddiad BBC Radio Scotland, ond yn uwch na chyrhaeddiad wythnosol cyfun gwasanaethau lleol y BBC yn Lloegr.

Gostyngodd y cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog ar gyfer BBC Radio Wales a BBC Radio Cymru o un flwyddyn i'r llall, gan arwain at 1.4 pwynt canran o ostyngiad ar gyfer cyrhaeddiad cyfun y gwasanaethau hyn.

Ffigur 3.5 Cyrhaeddiad wythnosol ar gyfer gwasanaethau lleol/ gwledydd y BBC: 2015



Ffynhonnell: RAJAR, Pob oedolyn (15 oed a hŷn), y flwyddyn a ddaeth i ben yn Ch4 2015

3.5 Y nifer sy'n gwrando ac yn berchen ar setiau radio digidol

Mae gan hanner yr oedolion yng Nghymru sy'n gwrando ar y radio set radio ddigidol

Mae pedwar o bob pump (82%) oedolyn yng Nghymru yn gwrando ar y radio, a dywed hanner y rhain (50%) fod ganddynt o leiaf un set radio DAB gartref, ffigur sydd heb newid ers 2015. Nid yw'r nifer sy'n berchen ar radio digidol DAB yng Nghymru, o blith y rhai sy'n gwrando ar y radio, yn wahanol i'r ffigur ar gyfer y DU drwyddi draw. Does dim gwahaniaeth arwyddocaol yn y nifer sy'n berchen ar setiau radio DAB ymysg gwrandawyr yng Nghymru yn ôl lleoliad (52% mewn ardaloedd trefol o'i gymharu â 43% mewn ardaloedd gwledig).

Ffigur 3.6 Setiau radio digidol DAB - perchnogaeth



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, H1 2016

Sylfaen: Oedolion 16 oed a hŷn sy'n gwrando ar y radio (n = 2832 y DU, 399 Cymru, 1693 Lloegr, 384 yr Alban, 356 Gogledd Iwerddon, 192 Cymru drefol, 207 Cymru wledig, 854 Cymru 2010, 397 Cymru 2011, 405 Cymru 2012, 383 Cymru 2013, 403 Cymru 2014, 406 Cymru 2015, 399 Cymru 2016)

DS. Roedd y data yn 2011 yn seiliedig ar y rheini sy'n gwrando ar y radio ac sydd ag unrhyw setiau radio yn y cartref y mae rhywun yn gwrando arnynt bob wythnos gan amlaf.

QP9: Sawl set DAB sydd gennych yn eich cartref?

Dywed ychydig dros un o bob deg o'r bobl sy'n gwrando ar y radio yng Nghymru nad oes ganddynt set radio DAB y byddant fwy na thebyg yn prynu un yn ystod y flwyddyn nesaf

Dywed ychydig dros un o bob deg (11%) oedolyn yng Nghymru sy'n gwrando ar y radio a heb fod yn berchen ar set DAB y byddant fwy na thebyg yn cael un yn ystod y 12 mis nesaf. Nid yw'r ffigur hwn yn wahanol i ffigur y DU drwyddi draw (13%) ac nid yw'n amrywio'n arwyddocaol yn ôl lleoliad yng Nghymru.

Does dim newid wedi bod yn y tebygolrwydd y bydd pobl yn prynu set DAB ers 2015.

Ffigur 3.7 Y tebygolrwydd y prynir set radio DAB o fewn y flwyddyn nesaf

Canran yr ymatebwyr



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, H1 2016

*Sylfaen: Oedolion 16 oed a hŷn sy'n gwrando ar y radio nad ydynt yn berchen ar radio DAB (n = 1593 y DU, 212 Cymru, 870 Lloegr, 236 yr Alban, 275 Gogledd Iwerddon, 94 Cymru drefol, 118 Cymru wledig, 594 Cymru 2010, 207 Cymru 2011, 273 Cymru 2012, 269 Cymru 2013, 246 Cymru 2014, 228 Cymru 2015, 212 Cymru 2016). *Rhybudd: Sylfaen isel*

QP12: Pa mor debygol yw hi y gwnaiff eich cartref brynu radio DAB yn y 12 mis nesaf?

DS. Roedd y data yn 2011 yn seiliedig ar y rheini sy'n gwrando ar y radio, ond heb set DAB ac sydd ag unrhyw setiau radio yn y cartref y mae rhywun yn gwrando arnynt bob wythnos gan amlaf.

Dywed tri o bob pump o'r bobl sy'n gwrando ar y radio yng Nghymru nad oes ganddynt set radio DAB nad ydynt yn debygol o brynu un yn ystod y flwyddyn nesaf oherwydd nad oes angen un arnynt

Gofynnwyd i'r bobl sy'n gwrando ar y radio (ac a ddywedodd nad yw'n debygol y byddant yn cael radio DAB yn ystod y 12 mis nesaf) ddweud - yn ddigymell - pam nad yw hynny'n debygol. Dywedodd chwech o bob deg (62%) nad oeddynt ei angen, tra dywedodd mwy nag un o bob tri (38%) eu bod yn hapus yn defnyddio'r gwasanaeth presennol. Dywedodd oddeutu un o bob deg na fyddent byth yn gwrando arno (12%).

Ers 2015, mae gostyngiad wedi bod yn y gyfran o bobl sy'n dweud ei bod yn annhebygol y byddant yn cael radio DAB oherwydd eu bod yn gallu derbyn radio digidol drwy eu gwasanaeth teledu (2% o'i gymharu â 12% yn 2015).

Ffigur 3.8 Rhesymau pam nad yw'n debygol y prynir radio DAB yn ystod y flwyddyn nesaf



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, H1 2016

Sylfaen: Pob oedolyn 16+ sy'n gwrando ar y radio nad ydynt yn debygol o gael radio DAB yn ystod y 12 mis nesaf (Cymru 2014 = 182; Cymru 2015 = 166; Cymru 2016 = 167)

Dangosir ymatebion ar gyfer crybwyll yn ddigymell yn ôl 5% neu fwy ar lefel y DU

Profion Arwyddocâd: Mae'r saethau'n dangos unrhyw wahaniaethau arwyddocaol ar y lefel hyder 95% rhwng Cymru yn 2015 a 2016

QJ14: Pam nad ydych yn debygol o gael radio digidol yn y 12 mis nesaf?

Roedd ychydig dros un traean o'r gwrando yn cael ei wneud drwy lwyfannau digidol[10] yn 2015

Roedd y gyfran o'r bobl yn gwrando drwy lwyfannau digidol yng Nghymru yn 34% yn 2015, 7 pwynt canran yn is na chyfartaledd y DU. Mae chwech o bob deg o'r holl oriau gwrando yn dal i ddigwydd ar y llwyfan analog; ac eithrio gogledd Iwerddon, dyma'r uchaf ar draws holl wledydd y DU. Roedd y twf o un flwyddyn i'r llall yn y nifer yn gwrando drwy lwyfannau digidol isaf hefyd yng Nghymru yn 2015. Roedd y twf hwn yn 1.6 pwynt canran tra oedd cyfartaledd y DU yn 3.4 pwynt canran, a thros 3 phwynt canran yn y gwledydd eraill.

[10] DAB, teledu digidol a'r rhyngrwyd.

Ffigur 3.9 Y gyfran o oriau gwrando drwy lwyfannau digidol ac analog: 2015



Ffynhonnell: RAJAR, Pob oedolyn (15 oed a hŷn), y flwyddyn a ddaeth i ben yn Ch4 2015

Mae'r twf yn y gyfran o oriau gwrando drwy lwyfannau digidol wedi bod yn gyson ers 2011

Mae'r gyfran o oriau gwrando drwy lwyfannau digidol wedi cynyddu 9 pwynt canran ers 2011. Gwelwyd y twf uwch yn ystod y blynyddoedd hyn yn 2014 (3.0 pwynt canran). Mae'r gostyngiad mwyaf yn yr oriau gwrando ar analog wedi bod yn ystod y ddwy flynedd diwethaf: gostyngodd 4 pwynt canran yn 2014 a 3 phwynt canran yn 2015.

Ffigur 3.10 Y gyfran o oriau gwrando drwy lwyfannau digidol ac analog yng Nghymru: 2011-2015



Ffynhonnell: RAJAR, pob oedolyn, blynyddoedd calendr 2011-2015

3.6 Y diwydiant radio

Cynyddodd refeniw radio masnachol lleol 9.4% yn 2015

Yng Nghymru y cafwyd y twf mwyaf mewn refeniw radio masnachol lleol yn 2015. Cynyddodd y refeniw £1.32 fesul pen o'r boblogaeth. Er gwaetha'r twf uchel hwn, gan Gymru y mae'r refeniw masnachol lleol isaf fesul pen o'r boblogaeth o blith unrhyw wlad yn y DU, a'r unig wlad heblaw am Loegr lle mae'r refeniw y pen yn is na chyfartaledd y DU.

Yng Nghymru y cafwyd y cynnydd mwyaf o un flwyddyn i'r llall mewn gwariant ar gynnwys gan y BBC ar radio lleol/y gwledydd. Cynyddodd y gwariant ar gynnwys BBC Radio Wales 7.1% a gwariwyd 10.9% yn fwy ar BBC Radio Cymru. Fesul pen o'r boblogaeth, gan Gymru y mae'r ail lefel uchaf o wariant gan y BBC, a chynyddodd 78c y pen o'r boblogaeth yn 2015-16.

Ffigur 3.11 Gwariant a refeniw radio lleol/y gwledydd y pen o'r boblogaeth: 2015



Ffynhonnell: Darlledwyr

Nodyn: Mae cyfanswm y DU yn dangos y cyfartaledd ar gyfer radio masnachol lleol ar draws y pedair gwlad ac felly nid yw'n cynnwys gwasanaethau sy'n cael eu darlledu ar draws y DU

4 Telegyfathrebiadau a rhwydweithiau

4.1 Datblygiadau diweddar yng Nghymru

Cyflymu Cymru

Mae Cyflymu Cymru, rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a BT yn dod â band eang cyflym iawn i gartrefi a busnesau yng Nghymru, mewn ardaloedd lle nad oes cynlluniau ar hyn o bryd i'w gyflwyno'n fasnachol. Roedd y rhaglen wedi darparu band eang cyflym iawn i 610,875[11] o adeiladau erbyn diwedd mis Mehefin 2016. Yn adroddiad *Cysylltu'r Gwledydd 2015* Ofcom, nodwyd bod argaeledd band eang cyflym iawn[11] yng Nghymru wedi cynyddu o 55% o adeiladau ym mis Mehefin 2014 i 79% o adeiladau ym mis Mehefin 2015.

Ym mis Gorffennaf 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru estyniad i brosiect Cyflymu Cymru er mwyn cysylltu 42,000 yn ychwanegol o adeiladau yng Nghymru. Oherwydd £19m yn ychwanegol o fuddsoddiad gan BDUK, Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a BT, bydd y rhaglen yn parhau tan haf 2017. Fel rhan o'r estyniad i'r prosiect, llofnododd Llywodraeth Cymru gontract gyda'r arbenigwyr band eang di-wifr cyflymder uchel Airband ym mis Gorffennaf 2015 i gysylltu bron i 2,000 o adeiladau ychwanegol mewn parciau busnes ledled Cymru.

Hefyd, cyhoeddodd y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth, Julie James AC, ym mis Ionawr 2016 bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ymestyn dau o'i chynlluniau i wella argaeledd band eang. Bydd cynllun Allwedd Band Eang Cymru a'r cynllun Taleb Gwibgyswllt yn rhedeg yn awr am ddwy flynedd arall tan fis Mawrth 2018.

Allwedd Band Eang Cymru

Mae Cynllun Allwedd Band Eang Cymru (ABC Cymru) yn cynnig cymorthdaliadau i gefnogi aelwydydd a busnesau i gael cysylltiad band eang cyson. Mae dwy lefel o gyllido ar gael yn dibynnu ar y cyflymder y mae angen ei gael - £400 ar gyfer cyflymderau lawrlwytho o 10Mbps a mwy ac £800 ar gyfer 30Mbps a mwy. Bydd nifer o dechnolegau'n cael eu defnyddio i ddarparu cyflymderau cyflym iawn gan gynnwys lloeren, di-wifr a 4G. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Satellite Internet, darparwr gwasanaeth rhyngrwyd (ISP) lloeren arbenigol y byddai'n cefnogi'r cynllun fel cyflenwr cofrestredig. Mae gan Gymru hefyd nifer o gwmnïau sy'n darparu band eang di-wifr pwynt i bwynt gan gynnwys TFL, ResQ a Bluewave.

Y Cynllun Taleb Gwibgyswllt

Ym mis Ionawr 2016, cyhoeddwyd y byddai'r Cynllun Taleb Gwibgyswllt yn cael ei ehangu i bob busnes yng Nghymru, nid dim ond y rheini sydd wedi'u lleoli yn yr Ardaloedd Twf Lleol a'r Ardaloedd Menter. Lansiwyd y cynllun hwn ym mis Tachwedd 2014 i helpu busnesau â'r costau cyfalaf sy'n gysylltiedig â gosod gwasanaethau band eang tra chyflym.[12] Mae'n cynnig hyd at £10k o grant.

[11] Nifer yr adeiladau wedi eu profi a'u gwirio gan Llywodraeth Cymru
[12] Cysylltiadau â chyflymderau gwirioneddol o 30Mbit yr eiliad neu uwch.
[13] Cysylltiadau sy'n gallu darparu cyflymder lawrlwytho o 100 bit yr eiliad a chyflymder llwytho i fyny o 30 Mbit yr eiliad o leiaf.

Treialon G.fast yn Abertawe

Mae dros 100 o gartrefi yn Abertawe ar hyn o bryd yn gysylltiedig â threialon technegol o'r dechnoleg G.fast, sy'n cael eu cynnal gan BT ac Alcatel-Lucent. Mae G.fast yn addo darparu cyflymderau o dros 300 Mbit yr eiliad dros wifren gopr ac fe'i disgrifir fel cam rhwng ffibr i'r cabinet (FTTC) a ffibr i'r adeilad (FTTP). Mae'r treialon yn helpu i ganfod sut mae'r dechnoleg yn perfformio a sut y gallai gael ei chyflwyno yng Nghymru a'r DU yn y dyfodol.

Rhaglen Datblygu Band Eang Cyflym Iawn

Mae'r rhaglen bum mlynedd hon ledled Cymru sy'n werth £12.5m yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau Lleol, ERDF (£7m) yn ogystal â ffynonellau academaidd a phreifat. Nod y rhaglen yw cefnogi mentrau bach a chanolig yn bennaf i ddeall y seilwaith cyflym iawn a manteisio ar y dechnoleg ddiweddaraf. Mae gan y rhaglen gynlluniau cyflawni ar lefel rhanbarth a gwlad, ac mae'n darparu gwybodaeth wedi'i thargedu, cymorth gyda thelefarchnata, cyfarpar ar-lein, mynediad i weithdai a chymorth un i un i fusnesau.

Spectrum Internet

Mae Spectrum Internet wedi ymestyn y defnydd o'i ffibr tywyll i ddod â gwasanaethau FTTP i adeiladau swyddfa sy'n cynnwys sawl tenant ar draws de Cymru; bellach mae dros 200 o fusnesau'n derbyn cysylltiadau band eang cydamseredig o 100Mbit yr eiliad a 1Gbit yr eiliad mewn ardaloedd sy'n cynnwys Caerdydd a Threfforest yn ogystal â Phen-y-bont ar Ogwr a Chaerfyrddin. Mae'r cwmni hefyd yn gosod FTTP yn Ardal Fenter Sain Tathan, y lleoliad a ddewiswyd gan Aston Martin ar gyfer cynhyrchu'r DBX. Yn ogystal, mae wedi datblygu ei rwydwaith ymhellach yn Sir Fynwy wledig gan ddefnyddio'r dull micro-ffosio i ddefnyddio ffibr tywyll.

Prosiect Seilwaith Symudol Llywodraeth y DU

Cyhoeddwyd ym mis Hydref 2015 y byddai Prosiect Seilwaith Symudol gwerth £150m Llywodraeth y DU yn dod i ben. Sefydlwyd y prosiect hwn i ddod â darpariaeth symudol i fannau digyswllt ar draws y DU ac roedd i redeg tan fis Mawrth 2016, gan adeiladu 600 mast ledled y DU, a 132 ohonynt yng Nghymru. Roedd y prosiect wedi'i ddyfarnu i Arqiva, yn gweithio gyda'r pedwar cwmni rhwydwaith symudol (MNOs).

O'r safleoedd yng Nghymru, nodwyd bod 63 ohonynt yn rhy anodd neu'n rhy gostus i'w cwblhau, ac o'r 69 safle arall lle roedd ateb trawsyrru'n bosibl, dim ond naw a gwblhawyd. Abernant yn Sir Gaerfyrddin a Felindre Abertawe oedd yr unig ddau safle a gwblhawyd lle roedd y pedwar MNO wedi gosod cyfarpar rhwydwaith; cwblhawyd Llangwyryfon, Hwlffordd a Llanfynydd gyda chyfarpar o leiaf un MNO yn bresennol, ac mae Caerfyrddin, Ystrad Meurig a Kington yn dal heb ddod yn weithredol.

4.2 Argaeledd gwasanaethau band eang sefydlog

Mae gwasanaethau band eang sylfaenol ar gael i bob adeilad bron yng Nghymru

Defnyddir tri phrif fath o dechnoleg i ddarparu gwasanaethau band eang sefydlog yn y DU: ADSL ar sail cyfnewidfa, cebl (dros rwydwaith ffibr-cyfechelog hybrid), a ffibr i'r cabinet (gan ddefnyddio VDSL o'r cabinet yn y stryd).[13] O'r tair dechnoleg hon, ADSL yw'r un sydd ar gael fwyaf, yn rhannol oherwydd dyma'r rhataf gan ei bod yn defnyddio'r rhwydwaith copr presennol i drosglwyddo data i'r defnyddiwr. Yn y rhan fwyaf o achosion, does dim angen uwchraddio i'r rhwydwaith mynediad copr presennol, a'r unig gostau yw'r rheini sy'n gysylltiedig â gosod y cyfarpar newydd yn y gyfnewidfa leol ac yn adeilad y defnyddiwr. O ran y technolegau cebl a ffibr, rhaid defnyddio seilwaith newydd i gysylltu'r cygnau/cyfnewidfeydd lleol â'r defnyddiwr.

Mae gan BT oddeutu 5,600 o gyfnewidfeydd lleol ledled y DU (a 400 ohonynt yng Nghymru), ac mae'r cyfan bron o'r rhain wedi cael eu huwchraddio i gynnig gwasanaethau band eang ASDL. Ar draws y DU drwyddi draw, roedd 99.98% o adeiladau (h.y. cartrefi a swyddfeydd) wedi'u cysylltu â chyfnewidfa ADSL erbyn diwedd 2015 (Ffigur 4.1). Yng Ngogledd Iwerddon a Chymru, roedd holl gyfnewidfeydd lleol BT wedi cael eu huwchraddio i gynnig gwasanaethau band eang ADSL, tra mae nifer bach o gyfnewidfeydd yn Lloegr a'r Alban yn dal heb eu newid i gynnig gwasanaethau ADSL.

Mae'n bwysig nodi ei bod yn bosibl nad yw rhai adeiladau mewn ardaloedd ADSL yn gallu derbyn gwasanaethau band eang, neu dim ond ar gyflymderau isel iawn. Y rhesymau posibl am hyn yw pellter neu ansawdd gwael y llinell ffôn o'r adeilad i'r gyfnewidfa leol.

Beth ydy dadfwndelu dolenni lleol (LLU)?

Mae cwmnïau LLU (dadfwndelu dolenni lleol) yn gallu darparu gwasanaethau band eang sefydlog drwy osod eu cyfarpar eu hunain yng nghyfnewidfa leol y gweithredwr presennol. Mae'r cyfarpar hwn wedyn yn cael ei gysylltu â rhwydwaith ôl-gludo'r darparwr LLU a bydd gwasanaethau band eang ADSL yn cael eu darparu i'r cwsmer dros y llinellau copr o'r gyfnewidfa; mae'r llinellau hyn yn cael eu prydlesu oddi wrth y gweithredwr presennol. Mae cwmnïau LLU yn gallu manteisio ar arbedion maint nad ydynt ar gael wrth brynu gwasanaethau cyfanwerthu fesul uned, ac maent yn gallu dangos yn well y gwahaniaethau yn eu gwasanaethau hwy a'r rheini sy'n cael eu cynnig gan eu cystadleuwyr. Yn yr un modd, mae gan ddefnyddwyr sy'n byw mewn ardaloedd â chyfnewidfa LLU ddewis gwell o wasanaethau band eang ADSL ac, fel rheol, gallant gael gafael ar wasanaethau band eang rhatach (yn enwedig mewn bwndel).

Erbyn diwedd 2015, roedd 95% o adeiladau'r DU yn cael eu gwasanaethu gan gyfnewidfeydd lleol wedi'u dadfwndelu (cynnydd bychan ers y flwyddyn flaenorol). Gan fod mwy o adeiladau i'w gwasanaethu mewn ardaloedd gwledig, mae cyflwyno unrhyw rwydwaith telegyfathrebu sefydlog yn tueddu i ddigwydd yno, o leiaf i ddechrau. Adlewyrchir hyn gan y ffaith bod y rhan fwyaf o adeiladau mewn ardaloedd trefol (dros 99%) wedi'u cysylltu â chyfnewidfa leol wedi'i dadfwndelu erbyn diwedd 2015. Yn yr ardaloedd gwledig, roedd 77% o adeiladau wedi'u cysylltu â chyfnewidfa leol wedi'i dadfwndelu erbyn diwedd 2015. Yn Lloegr yr oedd y ganran uchaf o adeiladau wedi'u cysylltu â chyfnewidfa leol wedi'i dadfwndelu ar ddiwedd 2015, sef 96%, wedyn Cymru ar 93% ac yna yr Alban a Gogledd Iwerddon ar 90%.

[13] Mae cyfran fach o'r adeiladau hefyd yn cael eu gwasanaethu gan ffibr i'r adeilad (FTTP).

Ffigur 4.1 Canran yr adeiladau sydd â chysylltiad â chyfnewidfeydd ADSL a chyfnewidfeydd wedi'u dadfwndelu



Ffynhonnell: Ofcom / BT, data Rhagfyr 2015

Roedd naw deg ac un y cant o adeiladau yng Nghymru yn gallu derbyn gwasanaethau band eang gyda chyflymderau o 10Mbit yr eiliad neu uwch ym mis Mehefin 2016

Yn 2015, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bwriad i sefydlu rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol (USO) o 10Mbit yr eiliad ar gyfer gwasanaethau band eang sefydlog. Dengys data a roddwyd i Ofcom gan ddarparwyr band eang sefydlog bod 95% o adeiladau'r DU erbyn mis Mehefin 2016 [14] yn gallu derbyn cyflymderau band eang o 10Mbit yr eiliad neu fwy, i fyny o 92% flwyddyn ynghynt. Fel gyda gwasanaethau band eang sylfaenol, roedd mwy yn gallu cael y gwasanaeth yn yr ardaloedd trefol, gyda 98% o adeiladau trefol yn gallu derbyn cyflymderau o 10Mbit yr eiliad ac uwch, o'i gymharu â 76% mewn ardaloedd gwledig.

Ym mis Mehefin 2016, yng Nghymru a Gogledd Iwerddon yr oedd y gyfran isaf o adeiladau a oedd yn gallu derbyn cyflymderau band eang o 10Mbit yr eiliad neu fwy, ymysg gwledydd y DU, sef 91%. Roedd argaeledd yng Nghymru wedi cynyddu ddau bwynt canran o'i gymharu â blwyddyn ynghynt.

[14] Asesiad rhagarweiniol yw'r dadansoddiad hwn o'r ddarpariaeth, ac mae'n seiliedig ar ddata oddi wrth nifer bychan o ddarparwyr cenedlaethol a rhanbarthol mwy. Rydym yn parhau i ddadansoddi'r data rydym wedi'u derbyn, gan gynnwys integreiddio data oddi wrth ddarparwyr llai, ychwanegol. Bydd ein hasesiad terfynol o'r ddarpariaeth yn cael ei gyhoeddi yn yr adroddiad *Cysylltu'r Gwledydd* yn ddiweddarach eleni.

Ffigur 4.2 Canran yr adeiladau sy'n gallu derbyn cyflymderau o dros 10Mbit yr eiliad gan eu gwasanaethau band eang



Ffynhonnell: Ofcom / gweithredwyr, data Mehefin 2016

Noder: Nid oes modd cymharu ffigurau trefol a gwledig y DU â'r rheini a gyhoeddwyd yn adroddiad 2015 oherwydd newid yn y dosbarthiadau trefol/gwledig.

Yng Nghymru yr oedd yr ail gyfran uchaf o adeiladau a allai gael gwasanaethau band eang cyflym iawn neu uwch, o blith gwledydd y DU, ym mis Mehefin 2016

Wrth gasglu data i gyfrannu at ei waith yn monitro seilwaith marchnad cyfathrebiadau'r DU yn 2016, gofynnodd Ofcom i gwmnïau ddarparu data am gyfran yr adeiladau a allai gael gwasanaethau band eang sefydlog cyflym iawn, neu uwch [15] h.y. gwasanaeth band eang sefydlog gyda chyflymder go iawn o 30Mbit yr eiliad neu uwch.

Mae'n bwysig nodi nad yw pob cysylltiad band eang ffibr a chebl yn gallu darparu gwasanaethau band eang cyflym iawn. Er enghraifft, bydd y cyflymder mae modd ei gael ar linell ffibr i'r cabinet (FTTC) yn dibynnu ar hyd ac ansawdd y cysylltiad copr o gabinet y stryd i eiddo'r defnyddiwr (fel sy'n digwydd gydag ADSL).

Fel y dangosir yn Ffigur 1.3 isod, roedd canran yr adeiladau a allai dderbyn gwasanaethau band eang cyflym iawn neu uwch yn y DU yn 88% ym mis Mehefin 2016. Roedd hyn yn bum pwynt canran o gynnydd ers y flwyddyn flaenorol. Roedd yr argaeledd yn llawer uwch yn yr ardaloedd trefol, gyda 93% o adeiladau trefol yn gallu derbyn band eang cyflym iawn neu uwch, o'i gymharu â 58% mewn ardaloedd gwledig. Yng Nghymru, gallai 85% o adeiladau dderbyn band eang cyflym iawn neu uwch erbyn mis Mehefin 2016, yr ail gyfran uchaf ymysg gwledydd y DU, i fyny o 79% ym mis Mehefin 2015.

Mae Llywodraeth y DU yn diffinio band eang cyflym iawn fel band eang sydd â chyflymder llwytho i lawr o 24Mbit yr eiliad neu fwy. Byddem yn disgwyl y byddai darpariaeth y gwasanaethau ar y cyflymder hwn yn uwch na'r 88% o eiddo yn y DU sy'n gallu derbyn cyflymder o 30Mbit yr eiliad neu fwy.

[15] Asesiad rhagarweiniol yw'r dadansoddiad hwn o'r ddarpariaeth, ac mae'n seiliedig ar ddata oddi wrth nifer bychan o ddarparwyr cenedlaethol a rhanbarthol mwy. Rydym yn parhau i ddadansoddi'r data rydym wedi'u derbyn, gan gynnwys integreiddio data oddi wrth ddarparwyr llai, ychwanegol. Bydd ein hasesiad terfynol o'r ddarpariaeth yn cael ei gyhoeddi yn yr adroddiad *Cysylltu'r Gwledydd* yn ddiweddarach eleni.

Ffigur 4.3 Canran yr adeiladau sy'n gallu cael gwasanaethau band eang cyflym iawn



Ffynhonnell: Ofcom / gweithredwyr, data Mehefin 2016

Noder: Nid oes modd cymharu ffigurau trefol a gwledig y DU â'r rheini a gyhoeddwyd yn adroddiad 2015 oherwydd newid yn y dosbarthiadau trefol/gwledig.

4.3 Darpariaeth rhwydweithiau symudol

Trosolwg

Mae argaeledd rhwydweithiau symudol yn amrywio ledled y DU, gyda rhai ardaloedd (sef mannau digyswllt symudol) heb unrhyw ddarpariaeth symudol. Yn aml, mae'r ardaloedd hyn yn ardaloedd heb lawer o boblogaeth a/neu yn dir bryniog, sy'n golygu rhwystrau ffisegol ac economaidd ac sy'n atal cwmnïau rhwydweithiau symudol (MNOs) rhag cyflwyno seilwaith rhwydwaith symudol. Mae gan ardaloedd eraill (sef mannau digyswllt rhannol) ddarpariaeth symudol ond dim ond gan ambell un o bedwar cwmni'r DU.

Sut rydym yn mesur argaeledd teleffoni symudol ar gyfer yr adroddiad hwn

Mae Ofcom yn casglu'r wybodaeth am ddarpariaeth a gyflwynir yn yr *Adroddiadau ar y Farchnad Gyfathrebu* ac adroddiad *Cysylltu'r Gwledydd* Ofcom oddi wrth y pedwar cwmni rhwydwaith symudol (MNOs) yn y DU. Mae pob cwmni'n darparu gwybodaeth am ddarpariaeth ar gyfer pob 'picsel' 100m x100m o dirfas ar draws y DU. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chyfatebu wedyn â mapiau adeiladau i roi ffigurau'r darpariaeth ar gyfer adeiladau.

Mae'r trothwyon ar gyfer cryfder signalau a ddefnyddir gan Ofcom i bennu lle mae gwasanaethau symudol 2G, 3G a 4G ar gael yn wahanol i'r rheini a ddefnyddiwyd yn adroddiadau y llynedd. O'r herwydd, nid oes modd cymharu data'r ddarpariaeth symudol yn yr adroddiad hwn gyda'r data a gyhoeddwyd y llynedd. Efallai fod y trothwyon hyn hefyd yn wahanol i'r rheini a ddefnyddiwyd gan yr MNOs yn eu hadroddiadau. Hefyd, nid oes modd cymharu ffigurau trefol a gwledig y DU â'r rheini a gyhoeddwyd yn adroddiad 2015 oherwydd newid yn y dosbarthiadau trefol/gwledig.

Mae'r ffigurau ar argaeledd yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at ddarpariaeth yn yr awyr agored. Mae'n debyg y bydd y ffigurau ar gyfer derbyniad dan do yn is, oherwydd bod signalau radio yn gwanhau wrth iddynt basio drwy ffabrig adeiladau. Mae derbyniad o dan do yn ddibynnol iawn ar yr adeilad, yn ogystal â lleoliad y defnyddiwr yn yr adeilad, gan ei wneud yn anodd cael ffigurau hollol gywir ar gyfer y ddarpariaeth o dan do.

Mae Ffigur 4.4, Ffigur 4.5 a Ffigur 4.6 yn dangos lefelau'r ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau symudol 2G, 3G a 4G.[16] Ystyrir bod 2G yn ddigon ar gyfer ffonio ac anfon negeseuon testun, tra ystyrir bod yn rhaid cael o leiaf 3G i gael gwasanaethau data symudol. At ei gilydd, mae 4G yn rhoi profiad gwell i'r defnyddiwr na 3G wrth gael gafael ar ddata symudol, gan ei fod yn cynnig cyflymderau llwytho i lawr a llwytho i fyny cyflymach.

Yng Nghymru yr oedd y gyfran isaf o adeiladau â darpariaeth 2G yn yr awyr agored ym mis Mehefin 2016

Mae'r data y mae tri chwmni rhwydwaith symudol 2G cenedlaethol y DU (Vodafone, O2 ac EE) wedi'u rhoi i Ofcom yn dangos bod 99.6% o adeiladau yn y DU, erbyn mis Mai 2016, mewn ardaloedd a oedd â darpariaeth 2G gan o leiaf un rhwydwaith, ac roedd oddeutu 0.4% o adeiladau'r DU mewn ardaloedd heb unrhyw ddarpariaeth 2G. Dengys y data fod y rhan fwyaf o adeiladau'r DU (93.6% o'r cyfanswm) mewn ardaloedd lle roedd darpariaeth 2G yn yr awyr agored ar gael gan y tri darparwr. Roedd canran adeiladau'r DU mewn ardaloedd â darpariaeth symudol 2G yn yr awyr agored ym mis Mai 2016 yn uwch mewn lleoliadau trefol (100.0%) nag mewn ardaloedd gwledig (96.9%).

Yng Nghymru, roedd canran yr adeiladau mewn ardaloedd â darpariaeth 2G yn yr awyr agored gan o leiaf un rhwydwaith ym mis Mai 2016 yn 98.4%, y ganran isaf o blith gwledydd y DU. Cymru hefyd oedd â'r ganran isaf o adeiladau â darpariaeth yn yr awyr agored gan y tri rhwydwaith 2G cenedlaethol, ar 83.2%. Un o'r rhesymau tebygol am y ddarpariaeth 2G is na'r cyfartaledd yng Nghymru yw ei thir bryniog, sy'n rhwystr i signalau symudol.

Ffigur 4.4 Darpariaeth symudol 2G yn yr awyr agored i adeiladau, yn ôl nifer y cwmnïau



Ffynhonnell: Ofcom / cwmnïau, data Mai 2016 Nodiadau: Mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar bicseli 100m² ar draws y DU; nid oes modd cymharu ffigurau DU wledig a DU drefol â'r rheini a gyhoeddwyd yn adroddiad 2015 oherwydd newid yn y dosbarthiadau trefol/gwledig a ddefnyddiwyd i'w cyfrifyddu.

Yng Nghymru, roedd 98.6% o adeiladau mewn ardaloedd â darpariaeth 3G yn yr awyr agored ym mis Mai 2016

Dengys y data a roddwyd i Ofcom gan bedwar cwmni rhwydwaith symudol 3G cenedlaethol y DU (y tri chwmni 2G cenedlaethol ynghyd â Three) fod 99.6% o adeiladau'r DU yn cael darpariaeth yn yr awyr agored gan o leiaf un rhwydwaith 3G ym mis Mai 2016, tra oedd gan 92.5% ddarpariaeth yn yr awyr agored gan y pedwar darparwr 3G. Roedd canan adeiladau'r

[16] Codwyd y data argaeledd a ddarparwyd gan yr MNOs o offer cynllunio rhwydwaith, sy'n agored i gyfyngau gwall. Gall ffactorau lleol hefyd fel coed neu adeiladau tal effeithio ar gryfder y signal.

DU mewn ardaloedd â darpariaeth symudol 3G yn yr awyr agored yn uwch yn ardaloedd trefol y DU (100%) nag yn yr ardaloedd gwledig (96.9%).

Yng Nghymru, roedd gan 98.6% o gartrefi ddarpariaeth 3G gan o leiaf un darparwr ym mis Mai 2016. Yng Nghymru, roedd canran yr adeiladau â darpariaeth yn yr awyr agored gan y pedwar rhwydwaith 3G yn 74.9%, y ganran isaf o blith gwledydd y DU.

Ffigur 4.5 Darpariaeth symudol 3G yn yr awyr agored i adeiladau, yn ôl nifer y cwmnïau



Ffynhonnell: Ofcom / cwmnïau, data Mai 2016 Nodyn: Mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar bicseli 100m² ar draws y DU; nid oes modd cymharu ffigurau DU wledig a DU drefol â'r rheini a gyhoeddwyd yn adroddiad 2015 oherwydd newid yn y dosbarthiadau trefol/gwledig a ddefnyddiwyd i'w cyfrifyddu.

Roedd dros 90% o adeiladau Cymru mewn ardaloedd â darpariaeth 4G yn yr awyr agored ym mis Mai 2016

Mae'r defnydd o wasanaethau symudol 4G wedi symud ymlaen yn gyflym mewn blynyddoedd diweddar, ac roedd 97.8% o adeiladau'r DU mewn ardaloedd a oedd yn cael darpariaeth symudol 4G yn yr awyr agored gan o leiaf un cwmni rhwydwaith symudol cenedlaethol ym mis Mai 2016. Yn yr un modd, roedd canran adeiladau'r DU a oedd yn gallu cael signal yn yr awyr agored gan y pedwar MNO cenedlaethol yn 71.3%. Roedd y gwahaniaeth rhwng y ddarpariaeth 4G trefol a gwledig yn fwy amlwg o lawer ar gyfer gwasanaethau 4G nag ar gyfer 2G a 3G, gyda 99.2% o adeiladau trefol yn cael darpariaeth 4G yn yr awyr agored, o'i gymharu â 88.9% o'r rheini mewn ardaloedd gwledig.

Cymru oedd â'r ganran isaf o adeiladau a oedd yn cael darpariaeth 4G yn yr awyr agored gan un neu fwy o rwydweithiau symudol ym mis Mai 2016, sef 90.1%. Yng Nghymru, roedd canran yr adeiladau â darpariaeth yn yr awyr agored gan y pedwar rhwydwaith 4G yn 43.9%, 23.9 pwynt canran o gynnydd ers y flwyddyn flaenorol.

Ffigur 4.6 Darpariaeth symudol 4G yn yr awyr agored i adeiladau, yn ôl nifer y cwmnïau



Ffynhonnell: Ofcom / cwmnïau, data Mai 2016 Nodyn: Mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar bicseli 100m² ar draws y DU; nid oes modd cymharu ffigurau DU wledig a DU drefol â'r rheini a gyhoeddwyd yn adroddiad 2015 oherwydd newid yn y dosbarthiadau trefol/gwledig a ddefnyddiwyd i'w cyfrifyddu.

4.4 Y nifer sy'n defnyddio gwasanaethau

Roedd y nifer sy'n defnyddio gwasanaethau cyfathrebu yng Nghymru yn debyg i'r cyfartaleddau yn y DU yn 2016

Roedd y nifer sy'n defnyddio gwasanaethau llinell dir a band eang yng Nghymru yn gyson fwy neu lai â lefelau'r DU drwyddi draw yn 2016. Fel yn 2015, roedd oedolion yng Nghymru yn fwy tebygol na chyfartaledd y DU o fod â chyfrifiadur llechen ar yr aelwyd (67% o'i gymharu â 59%). Er bod y nifer sy'n defnyddio ffôn symudol yng Nghymru yn debyg i ganran y DU (91% yng Nghymru o'i gymharu â 93% yn y DU), roedd y nifer sy'n berchen ar ffôn clyfar yng Nghymru yn is (65% o'i gymharu â 71%).

Roedd rhai gwahaniaethau arwyddocaol yn y nifer sy'n defnyddio gwasanaethau a dyfeisiau rhwng ardaloedd trefol a gwledig Cymru. Roedd oedolion mewn ardaloedd trefol yn fwy tebygol na'r rheini mewn ardaloedd gwledig o fod â chyfrifiadur llechen gartref (69% o'i gymharu â 59%) ac i fynd ar-lein gan ddefnyddio ffôn symudol (63% o'i gymharu â 53%). Roedd y nifer sy'n defnyddio gwasanaeth 4G hefyd yn is mewn ardaloedd gwledig, ar 28% o'i gymharu â 49% mewn ardaloedd trefol.

Ffigur 4.7 Defnyddio gwasanaethau cyfathrebiadau: 2016

		DU	Cymru	Lloegr	Yr Alban	G Iwerddon	Cymru drefol	Cymru wledig
Unigol								
Teleffoni llais	Llinell Sefydlog	**86%**	85%	86%	86%	86%	85%	84%
	Ffôn symudol	**93%**	91%	94%	91%	92%	90%	94%
	Ffôn clyfar	**71%**	65% ↓	71%	70%	72%	67%	59%
Rhyngrwyd	Cyfrifiadur (unrhyw fath)	**84%**	85%	85%	79%	80%	86% ↑	80%
	Cyfrifiadur llechen	**59%**	67%	59% ↑	56%	60%	69%	59%
	Cyfanswm Rhyngrwyd[1]	**86%**	84%	87%	84%	83%	84%	82%
	Band eang (sefydlog a symudol)[2]	**81%**	79%	81%	79%	78%	80%	77%
	Band Eang Sefydlog	**79%**	77%	79%	78%	77%	78%	76%
	Band eang symudol (drwy dongl/SIM)[3]	**4%**	4%	5%	3%	3%	3%	5%
	Mynediad i'r we ar ffôn symudol[4]	**66%**	61%	66%	63%	69%	63% ↑	53%
	Gwasanaeth 4G	**48%**	44%	48%	40%	54%	49%	28% ↓

Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, H1 2016

Nodiadau: [1]Cartrefi â chysylltiad â'r rhyngrwyd o unrhyw fath; [2]Cartrefi â band eang sefydlog a/neu gysylltiad data band eang symudol arbennig (dongl/SIM) (nid yw'n cynnwys cartrefi sydd ond yn defnyddio setiau ffonau symudol i fynd ar y rhyngrwyd); [3]cartrefi sy'n defnyddio cysylltiad data band eang symudol arbennig (dongl/SIM) i fynd ar y rhyngrwyd (nid yw'n cynnwys cartrefi sydd ond yn defnyddio setiau ffonau symudol i fynd ar y rhyngrwyd); [4]cartrefi sy'n defnyddio setiau ffonau symudol i fynd ar y rhyngrwyd (efallai fod ganddyn nhw fath arall o fynediad i'r rhyngrwyd hefyd).

Sylfaen: Pob oedolyn dros 16 oed (n = 3737 y DU, 489 Cymru, 2239 Lloegr, 502 yr Alban, 507 Gogledd Iwerddon, 240 Cymru drefol, 249 Cymru wledig)

Profion Arwyddocâd: Mae'r saethau'n dangos unrhyw newidiadau arwyddocaol ar y lefel hyder 95% rhwng Cymru a'r DU yn 2016 a rhwng Cymru drefol a gwledig yn 2016.

QC1: A oes ffôn llinell dir yn eich cartref y gellir ei ddefnyddio i wneud a derbyn galwadau?/ QD2: Ydych chi'n bersonol yn defnyddio ffôn symudol?/ QD4: Ydych chi'n bersonol yn defnyddio ffôn clyfar?/ QD6: Oes gennych chi wasanaeth 4G? QE1: Oes gan eich cartref gyfrifiadur personol neu liniadur?/ QE2: Oes gennych chi neu rywun yn eich cartref fynediad i'r rhyngrwyd gartref?/ QE9: Pa rai o'r dulliau hyn y mae'ch cartref yn eu defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd gartref?/ QD28A: Ar gyfer pa rai o'r gweithgareddau canlynol, os o gwbl, ar wahân i wneud a derbyn galwadau, ydych chi'n defnyddio'ch ffôn symudol?

Mae treiddiad band eang wedi aros heb newid yng Nghymru ers y llynedd

Fel y gwelir yn Ffigur 4.8, roedd treiddiad band eang ar gyfer cartrefi Cymru (79%) yn gyson â'r ffigur ar gyfer y DU drwyddi draw, gyda dim newid yn y nifer sy'n defnyddio band eang yng Nghymru ers 2015. Roedd canran y cartrefi yng Nghymru a oedd yn defnyddio gwasanaeth band eang sefydlog yn unig yn 2016 hefyd yn debyg i weddill y DU (75% a 76% y naill a'r llall). Does dim newid arwyddocaol wedi bod yn y ffigurau hyn ymysg cartrefi yng Nghymru ers 2015, yn dilyn cynnydd 11 pwynt canran rhwng 2014 a 2015. Hefyd, doedd dim gwahaniaeth arwyddocaol rhwng ardaloedd trefol a gwledig o ran y nifer sy'n defnyddio band eang yn ôl y math o gysylltiad.

Ffigur 4.8 Y defnydd o fand eang mewn cartrefi, yn ôl y math o gysylltiad



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, H1 2016

Sylfaen: Pob oedolyn 16+ (n = 3737 y DU, 489 Cymru, 2239 Lloegr, 502 Yr Alban, 507 Gogledd Iwerddon, 240 Cymru drefol, 249 Cymru wledig, 1075 Cymru 2010, 493 Cymru 2011, 513 Cymru 2012, 492 Cymru 2013, 491 Cymru 2014, 496 Cymru 2015, 489 Cymru 2016)

Profion Arwyddocâd: Mae'r saethau'n dangos unrhyw wahaniaethau arwyddocaol ar y lefel hyder 95% rhwng Cymru a'r DU yn 2016, rhwng Cymru drefol a Chymru wledig yn 2016 a rhwng Cymru 2015 a 2016.

QE9: Pa rai o'r dulliau hyn y mae'ch cartref yn eu defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd gartref?

Mae'r defnydd o fand eang yng Nghymru yn unol â'r DU drwyddi draw

Fel y dangosir yn Ffigur 4.9 nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol yn y defnydd o fand eang[17] yng Nghymru ac yn y DU drwyddi draw yn 2016 (79% a 81%). Doedd dim gwahaniaethau arwyddocaol ychwaith rhwng Cymru a'r DU yng nghyswllt y grwpiau demograffig gwahanol a ddangosir ar y siart.

Ond, roedd gwahaniaethau yng Nghymru yn y defnydd o fand eang yn ôl oed, grŵp economaidd-gymdeithasol ac incwm y cartref. Roedd oedolion 65 oed a hŷn yn llai tebygol na'r grwpiau oedran iau o fod â band eang. Roedd y defnydd o fand eang yn uwch ymysg oedolion ABC1 (91%) o'i gymharu â'r rheini yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol C2DE (67%), ac roedd 29 pwynt canran o wahaniaeth yn lefelau'r defnydd o fand eang rhwng yr oedolion a oedd ag incwm cartref o dan £17.5k (63%) a'r rheini ag incwm cartref dros £17.5k (92%).

[17] Mae'r ffigur hwn yn cynnwys mynediad band eang sefydlog a symudol arbennig (drwy dongl/SIM) ond nid yw'n cynnwys mynediad ar ffonau symudol.

Ffigur 4.9 Y defnydd o fand eang yng Nghymru, yn ôl demograffeg



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, H1 2016

Sylfaen: Pob oedolyn 16+oed (n = 489 Cymru, 134 16-34 oed, 226 35-64 oed, 129 65+, 261 ABC1, 227 C2DE, 134 <£17.5k incwm, 109 £17.5k+, 157 plant yn y cartref, 332 dim plant yn y cartref)

Profion Arwyddocâd: Mae'r saethau'n dangos unrhyw wahaniaethau arwyddocaol ar y lefel hyder 95% rhwng Cymru a'r DU yn 2016 ar gyfer pob mesur.

QE9: Pa rai o'r dulliau hyn y mae'ch cartref yn eu defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd gartref?

Roedd chwech o bob deg oedolyn yng Nghymru wedi bod ar-lein drwy ddefnyddio eu ffôn symudol yn yr wythnos flaenorol

Dywedodd chwe oedolyn o bob deg yng Nghymru eu bod wedi defnyddio eu ffôn symudol i fynd ar y rhyngrwyd yn 2016, gyda'r cyfan bron o'r ymatebwyr yn dweud eu bod wedi gwneud hynny'r wythnos flaenorol. Roedd y ffigurau hyn yn cyd-fynd â'r rheini ar gyfer y DU drwyddi draw, ac nid oeddent wedi newid llawer ers 2015. Yn 2016, roedd oedolion yn y Gymru drefol yn fwy tebygol na'r rheini mewn ardaloedd gwledig o ddweud eu bod wedi defnyddio'u ffôn symudol i fynd ar-lein (63% o'i gymharu â 53%).

Ffigur 4.10 Canran yr oedolion sydd wedi defnyddio ffôn symudol i fynd ar y rhyngrwyd



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, H1 2016

Sylfaen: Pob oedolyn 16+ (n = 3737 y DU, 489 Cymru, 2239 Lloegr, 502 Yr Alban, 507 Gogledd Iwerddon, 249 Cymru drefol, 247 Cymru wledig, 1075 Cymru 2010, 493 Cymru 2011, 513 Cymru 2012, 492 Cymru 2013, 491 Cymru 2014, 496 Cymru 2015, 489 Cymru 2016)

CD28A-B Pa rai o'r gweithgareddau canlynol, os o gwbl, ar wahân i wneud a derbyn galwadau, ydych chi'n defnyddio'ch ffôn symudol ar eu cyfer?/ Pa rai o'r gweithgareddau hyn ydych chi wedi defnyddio eich ffôn symudol ar eu cyfer yn yr wythnos ddiwethaf?

Mae canran y defnyddwyr 4G yng Nghymru wedi codi 21 pwynt canran ers 2015

Dywedodd dros bedwar o bob deg oedolyn yng Nghymru (44%) eu bod wedi defnyddio gwasanaeth symudol 4G yn 2016, sy'n debyg i ffigur y DU drwyddi draw o 48%. Yn y flwyddyn hyd at 2016 roedd canran yr oedolion yng Nghymru â gwasanaeth 4G wedi cynyddu 21 pwynt canran, o 23% yn 2015. Y rheswm am hyn mae'n debyg yw'r ffaith bod mwy o wasanaethau 4G ar gael (gweler Ffigwr 4.4).

Ffigur 4.11 Y defnydd o 4G, fesul gwlad



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, H1 2016

Sylfaen: Pob oedolyn dros 16 oed (n = 3737 y DU, 489 Cymru, 2239 Lloegr, 502 yr Alban, 507 Gogledd Iwerddon).

Profion Arwyddocâd: Mae'r saethau'n dangos unrhyw wahaniaethau arwyddocaol ar y lefel hyder 95% rhwng Cymru a'r DU yn 2016. Mae cylch o gwmpas y ffigur +/- uwchben y siart yn dangos unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng 2015 a 2016 ar gyfer Cymru.

QD41. Oes gennych chi wasanaeth 4G? Mae hwn yn wasanaeth sy'n rhoi mynediad cyflymach i'r rhyngrwyd symudol

O'i gymharu â 2015, mae oedolion yng Nghymru sydd â ffôn symudol yn fwy tebygol o fod ar gontract SIM-yn-unig

Yn 2016, roedd dros hanner (56%) defnyddwyr ffôn symudol yng Nghymru wedi dweud eu bod yn defnyddio pecyn contract talu'n fisol (gyda ffôn) yn 'fwyaf aml', tra oedd tri o bob deg yn defnyddio ffôn talu ymlaen llaw, y ddau ffigur yn unol â chyfartaleddau'r DU. Ymysg defnyddwyr ffôn symudol yng Nghymru, cafwyd cynnydd ers 2015 yn y nifer â phecyn SIM-yn-unig (11% o'i gymharu â 5%).

Yn 2016, roedd defnyddwyr gwasanaeth symudol mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol na'r rheini mewn ardaloedd trefol o ddweud eu bod yn defnyddio ffôn talu ymlaen llaw (40% o'i gymharu â 28%) gan amlaf, gyda dim gwahaniaethau arwyddocaol eraill yn y math o becyn ffôn symudol yn ôl lleoliad.

Ffigur 4.12 Math o danysgrifiad ffôn symudol



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, H1 2016

Sylfaen: Oedolion 16+ oed sy'n defnyddio ffôn symudol yn bersonol (n = 3425 y DU, 445 Cymru, 2083 Lloegr, 451 Yr Alban, 446 Gogledd Iwerddon, 216 Cymru drefol, 229 Cymru wledig 923 Cymru 2010, 416 Cymru 2011, 456 Cymru 2012, 440 Cymru 2013, 438 Cymru 2014, 439 Cymru 2015, 445 Cymru 2016)
Profion Arwyddocâd: Mae'r saethau'n dangos unrhyw wahaniaethau arwyddocaol ar y lefel hyder 95% rhwng Cymru a'r DU yn 2016, rhwng Cymru drefol a Chymru wledig yn 2016 a rhwng Cymru 2015 a 2016. Mae cylchoedd o gwmpas y ffigurau +/- uwchben y siart yn dangos unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng 2015 and 2016 ar gyfer Cymru, trefol a gwledig.
QD11: Pa un o'r rhain sy'n disgrifio orau y pecyn ffôn symudol yr ydych chi'n bersonol yn ei ddefnyddio'n fwyaf aml?

Dywed ymatebwyr yng Nghymru mai EE yw'r darparwr rhwydwaith symudol y maent yn ei ddefnyddio fwyaf aml

Dywedodd 29 y cant o ddefnyddwyr ffonau symudol yng Nghymru mai EE oedd y rhwydwaith maent yn ei ddefnyddio'n fwyaf aml, o'i gymharu ag ychydig o dan chwarter ar draws y DU drwyddi draw. Yng Nghymru, Vodafone oedd yn dod wedyn (16%) ac yna O2 (13%), er bod defnyddwyr ffonau symudol yng Nghymru yn llai tebygol na holl ddefnyddwyr ffonau symudol y DU o ddefnyddio O2 (13% o'i gymharu â 22%).

Ffigur 4.13 Y darparwr rhwydwaith symudol a ddefnyddiwyd fwyaf aml



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, H1 2016
Sylfaen: Oedolion 16 oed a hŷn sy'n defnyddio ffôn symudol yn bersonol (n = 3425 y DU, 445 Cymru, 2083 Lloegr, 451 Yr Alban, 446 Gogledd Iwerddon, 216 Cymru drefol, 229 Cymru wledig)
Profion Arwyddocâd: Mae'r saethau'n dangos unrhyw newidiadau arwyddocaol ar y lefel hyder 95% rhwng Cymru a'r DU yn 2016 a rhwng Cymru drefol a gwledig yn 2016.
QD10: Pa rwydwaith symudol rydych yn ei ddefnyddio fwyaf aml?

Mae nifer y cartrefi symudol-yn-unig yng Nghymru wedi aros yr un fath ers 2015

Roedd gan bedwar o bob pump o gartrefi Cymru wasanaethau ffôn symudol a sefydlog yn 2016. Roedd gan bump y cant o gartrefi fynediad at linell sefydlog yn unig, ac roedd gan 15% fynediad at ffôn symudol yn unig. Doedd dim gwahaniaethau arwyddocaol yn unrhyw rai o'r ffigurau hyn ers 2015.

Ffigur 4.14 Trawsberchenogaeth gwasanaethau teleffoni yn y cartref



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, H1 2016
Sylfaen: Pob oedolyn 16+ (n = 3737 y DU, 489 Cymru, 2239 Lloegr, 502 Yr Alban, 507 Gogledd Iwerddon, 240 Cymru drefol, 249 Cymru wledig, 1075 Cymru 2010, 493 Cymru 2011, 513 Cymru 2012, 492 Cymru 2013, 491 Cymru 2014, 496 Cymru 2015, 489 Cymru 2016)
Profion Arwyddocâd: Mae'r saethau'n dangos unrhyw wahaniaethau arwyddocaol ar y lefel hyder 95% rhwng Cymru a'r DU yn 2016, rhwng Cymru drefol a Chymru wledig yn 2016 a rhwng Cymru

2015 a 2016. Mae cylchoedd o gwmpas y ffigurau +/- uwchben y siart yn dangos unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng 2015 a 2016 ar gyfer Cymru, trefol a gwledig.
QC1: A oes ffôn llinell dir yn eich cartref y gellir ei ddefnyddio i wneud a derbyn galwadau?/ QD1: Sawl ffôn symudol yr ydych chi ac aelodau o'ch cartref yn eu defnyddio i gyd?

4.5 Bodlonrwydd â gwasanaethau telegyfathrebiadau

Mae defnyddwyr rhyngrwyd mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru yn llai tebygol na'r rheini mewn ardaloedd trefol o fod yn fodlon â chyflymder eu band eang sefydlog

Roedd dros wyth o bob deg defnyddiwr band eang yng Nghymru (83%) naill ai'n eithaf bodlon neu'n fodlon iawn â'u gwasanaeth band eang cyffredinol yn 2016. Mae hyn yn debyg i ffigur y DU drwyddi draw (87%). Ar y llaw arall, roedd canran sylweddol is o ddefnyddwyr ffonau symudol naill ai'n eithaf anfodlon neu'n anfodlon iawn â'r gwasanaeth cyffredinol yng Nghymru, sydd hefyd yn debyg i ffigur y DU drwyddi draw (9% o'i gymharu â 7% yn y DU). O'i gymharu â blwyddyn yn ôl, doedd dim newid sylweddol yn y lefelau bodlonrwydd cyffredinol â gwasanaethau band eang sefydlog yng Nghymru, nac yn y DU drwyddi draw.

Roedd bodlonrwydd â chyflymderau band eang sefydlog yng Nghymru hefyd yn debyg i'r DU drwyddi draw, ac nid oedd newid arwyddocaol yn y mesur hwn yng Nghymru nac yn y DU drwyddi draw rhwng 2015 a 2016.

Er nad oedd gwahaniaeth arwyddocaol yn y bodlonrwydd cyffredinol â gwasanaethau band eang yn ardaloedd trefol a gwledig Cymru, roedd defnyddwyr trefol yng Nghymru yn fwy tebygol na defnyddwyr gwledig o ddweud eu bod yn fodlon â'u cyflymder band eang (80% o'i gymharu â 66%). Gwelwyd y gwahaniaeth hwn yn 2015 hefyd. Mewn cymhariaeth, roedd defnyddwyr gwledig yn fwy tebygol o fod yn niwtral pan ofynnwyd iddynt am eu bodlonrwydd â chyflymderau band eang (15% o'i gymharu â 7%).

Ffigur 4.15 Bodlonrwydd â'r gwasanaeth yn gyffredinol a chyflymder y cysylltiad band eang sefydlog



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, H1 2016

Sylfaen: Oedolion 16+ oed gyda chysylltiad band eang sefydlog gartref (n = 2774 DU, 363 Cymru, 183 Cymru drefol, 180 Cymru wledig)

Profion Arwyddocâd: Mae'r saethau'n dangos unrhyw newidiadau arwyddocaol ar y lefel hyder 95% rhwng Cymru a'r DU yn 2016 a rhwng Cymru drefol a gwledig yn 2016.

QE8A/B: Gan feddwl am eich gwasanaeth rhyngrwyd band eang sefydlog, pa mor fodlon ydych chi â (prif gyflenwr) o ran y gwasanaeth yn gyffredinol/ o ran cyflymder eich gwasanaeth tra ydych ar-lein (nid dim ond y cysylltiad)?

Mae bodlonrwydd â derbyniad ffôn symudol yn is ymysg defnyddwyr ffonau symudol yn ardaloedd gwledig Cymru

Roedd bron i naw o bob deg (86%) defnyddiwr ffôn symudol yng Nghymru yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon â'u derbyniad yn 2016, a dim ond 8% o ddefnyddwyr a ddywedodd eu bod yn eithaf anfodlon neu'n anfodlon iawn. Yn gyffredinol, roedd lefelau bodlonrwydd yng Nghymru yn debyg i lefelau'r DU drwyddi draw (87%) ac nid oedd dim newid ers 2015.

Fel yn 2015, roedd defnyddwyr yn yr ardaloedd trefol yn fwy tebygol na'r rheini mewn ardaloedd gwledig o ddweud eu bod yn fodlon â derbyniad eu ffôn symudol (89% o'i gymharu â 73%). Ar y llaw arall, roedd defnyddwyr yn yr ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o fod yn anfodlon (18% o'i gymharu â 5%).

Ffigur 4.16 Bodlonrwydd â derbyniad gwasanaeth symudol



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, H1 2016

Sylfaen: Oedolion 16 oed a hŷn sy'n defnyddio ffôn symudol yn bersonol (n= 3425 y DU, 445 Cymru, 216 Cymru drefol, 229 Cymru wledig)

Profion arwyddocâd: Mae'r saethau'n dangos unrhyw newidiadau arwyddocaol ar y lefel hyder 95% rhwng Cymru a'r DU yn 2016 rhwng Cymru drefol a gwledig yn 2016.

QD21J: Gan feddwl am eich gwasanaeth ffôn symudol yn unig, pa mor fodlon ydych chi â (y prif gyflenwr) o ran derbyniad/cael mynediad i'r rhwydwaith?

5 Cynnwys ar-lein ac ar y rhyngrwyd

5.1 Y nifer sy'n defnyddio'r rhyngrwyd

Mae gan dros wyth o bob deg aelwyd yng Nghymru fynediad at y rhyngrwyd

Yn 2016, roedd gan dros wyth o bob deg aelwyd yng Nghymru fynediad at y rhyngrwyd.[18] Yn ystadegol, does dim newid wedi bod yn y nifer sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yng Nghymru ers 2015.

Roedd gan bron i wyth o bob deg aelwyd yng Nghymru (77%) fynediad i fand eang sefydlog gartref, ac roedd gan chwech o bob deg (61%) oedolyn yng Nghymru fynediad ar-lein drwy ffôn symudol, y ddau ffigur heb newid ers 2015. Mae canran yr oedolion yng Nghymru sy'n mynd ar y rhyngrwyd dim ond drwy ffôn symudol neu ffôn clyfar wedi aros yn sefydlog ar 5%.

Ffigur 5.1 Y defnydd o'r rhyngrwyd yng Nghymru: 2010-2016



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom. Data o Ch1 o bob blwyddyn 2010-2014, yna H1 2015 a 2016
Sylfaen: Pob oedolyn 16 oed a hŷn (n = 1075 Cymru 2010, 493 Cymru 2011, 513 Cymru 2012, 492 Cymru 2013, 491 Cymru 2014, 496 Cymru 2015, 489 Cymru 2016).
Profion Arwyddocâd: Mae'r saethau'n dangos unrhyw wahaniaethau arwyddocaol ar y lefel hyder 95% rhwng Cymru yn 2015 a 2016.
Nodyn 1: Mae 'rhyngrwyd' yn cynnwys mynediad i'r rhyngrwyd yn y cartref (drwy unrhyw ddyfais, e.e. cyfrifiadur personol, ffôn symudol, cyfrifiadur llechen ac ati).
Nodyn 2: Mae 'Band eang cyflawn' yn cynnwys y dulliau canlynol o gysylltu â'r rhyngrwyd yn y cartref - band eang sefydlog (drwy linell ffôn neu wasanaeth cebl), band eang symudol (drwy ffon USB neu ddongl, neu gysylltiad parod mewn gliniadur/cyfrifiadur gwe/cyfrifiadur llechen gyda SIM), clymu (drwy gysylltiad rhyngrwyd ar ffôn symudol ar liniadur/cyfrifiadur llechen), a llwybrydd band eang symudol diwifr (drwy rwydwaith ffôn 3G neu 4G, y mae modd ei rannu rhwng dyfeisiau).
Nodyn 3: Mae 'band eang sefydlog' yn cynnwys gwasanaethau ADSL, ffibr a chebl – gan ddefnyddio llwybrydd Wi-Fi efallai. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau band eang cyflym iawn.
Nodyn 4: Mae 'band eang symudol' yn golygu cysylltu dyfais gan ddefnyddio ffon USB neu ddongl, neu gysylltiad parod mewn gliniadur neu gyfrifiadur gwe neu gyfrifiadur llechen gyda cherdyn SIM.
Nodyn 5: 'Y rhyngrwyd ar ddyfais symudol' yw cyfran yr oedolion sy'n defnyddio ffôn symudol ar gyfer unrhyw un o'r gweithgareddau canlynol: negeseua gwib, llwytho rhaglenni neu apiau i lawr, e-bost, mynediad i'r rhyngrwyd, llwytho fideos i lawr, ffrydio fideos, ymweld â safleoedd rhwydweithio cymdeithasol.

[18]Mae hyn yn cynnwys mynediad i'r rhyngrwyd drwy fand eang a ffôn symudol. Mae'r nifer â band cul yn rhy isel i'w ddynodi ond byddai'n dal yn cyfrif fel 'mynediad i'r rhyngrwyd'.

5.2 Dyfeisiau sy'n gallu defnyddio'r rhyngrwyd

Roedd y nifer sy'n berchen ar ffôn clyfar yng Nghymru yn is nag yn y DU drwyddi draw

Roedd y nifer â ffôn clyfar ymysg oedolion yng Nghymru yn is na'r DU drwyddi draw yn 2016 (65% o'i gymharu â 71%). Mae hyn wedi newid ers 2015, pan oedd y nifer â ffôn clyfar yng Nghymru a'r DU drwyddi draw yn debyg; y rheswm am y newid hwn yw'r pum pwynt canran o gynnydd yn ffigur y DU.

Nid yw bod yn berchen ar ffôn clyfar yn amrywio'n arwyddocaol rhwng lleoliad trefol neu wledig yng Nghymru.

Ffigur 5.2 Y nifer sy'n defnyddio ffonau clyfar yng Nghymru



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, H1 2016
Sylfaen: Pob oedolyn 16+ (n = 3737 y DU, 489 Cymru, 2239 Lloegr, 502 Yr Alban, 507 Gogledd Iwerddon, 240 Cymru drefol, 249 Cymru wledig, 493 Cymru 2011, 513 Cymru 2012, 492 Cymru 2013, 491 Cymru 2014, 496 Cymru 2015, 489 Cymru 2016)
Profion Arwyddocâd: Mae'r saethau'n dangos unrhyw wahaniaethau arwyddocaol ar y lefel hyder 95% rhwng Cymru a'r DU yn 2016, rhwng Cymru drefol a Chymru wledig yn 2016 a rhwng Cymru 2015 a 2016. Mae cylchoedd o gwmpas y ffigurau +/- uwchben y siart yn dangos unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng 2015 a 2016 ar gyfer Cymru, trefol a gwledig.
QD24B: Ydych chi'n bersonol yn defnyddio ffôn clyfar? Mae ffôn clyfar yn golygu ffôn mae modd ei ddefnyddio'n hawdd i gael gafael ar negeseuon e-bost, i lwytho ffeiliau a rhaglenni i lawr, yn ogystal ag edrych ar wefannau a chwilio ar y we yn gyffredinol. Mae brandiau ffonau clyfar poblogaidd yn cynnwys BlackBerry, iPhone a ffonau Android megis Samsung Galaxy.

Roedd aelwydydd yng Nghymru yn fwy tebygol nag yn y DU drwyddi draw o fod yn berchen ar gyfrifiadur llechen

Fel yn 2015, roedd aelwydydd yng Nghymru yn dal yn fwy tebygol nag aelwydydd ledled y DU drwyddi draw o fod yn berchen ar gyfrifiadur llechen (67% o'i gymharu â 59%). Roedd hyn yn dilyn cynnydd sylweddol bob blwyddyn ers 2011. Roedd bod yn berchen ar gyfrifiadur llechen yn uwch yn yr ardaloedd trefol nag yn yr ardaloedd gwledig (69% o'i gymharu â 59%).

Ffigur 5.3 Y nifer sydd â chyfrifiaduron llechen yng Nghymru



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, H1 2016
Sylfaen: Pob oedolyn 16+ (n = 3737 y DU, 489 Cymru, 2239 Lloegr, 502 Yr Alban, 507 Gogledd Iwerddon, 240 Cymru drefol, 249 Cymru wledig, 493 Cymru 2011, 513 Cymru 2012, 492 Cymru 2013, 491 Cymru 2014, 496 Cymru 2015, 489 Cymru 2016)
Profion Arwyddocâd: Mae'r saethau'n dangos unrhyw wahaniaethau arwyddocaol ar y lefel hyder 95% rhwng Cymru a'r DU yn 2016, rhwng Cymru drefol a Chymru wledig yn 2016 a rhwng Cymru 2015 a 2016. Mae cylchoedd o gwmpas y ffigurau +/- uwchben y siart yn dangos unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng 2015 a 2016 ar gyfer Cymru, trefol a gwledig.
QE1: Oes gan eich cartref gyfrifiadur personol, gliniadur, cyfrifiadur gwe neu gyfrifiadur llechen?

Roedd y rheini sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yng Nghymru yn fwy tebygol na'r rheini yn y DU drwyddi draw o ddweud mai cyfrifiadur llechen oedd y ddyfais bwysicaf iddynt ar gyfer mynd ar-lein

Dywedodd chwarter y rheini sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yng Nghymru mai eu cyfrifiadur llechen oedd eu dyfais bwysicaf ar gyfer mynd ar-lein. Roedd hyn yn uwch na'r un o bob pump a ddywedodd hyn yn y DU drwyddi draw. Efallai mai'r rheswm am hyn yw bod mwy yn defnyddio cyfrifiadur llechen yng Nghymru nag yn y DU drwyddi draw.

Dywedodd mwy na thraean o ddefnyddwyr y rhyngrwyd[19] yng Nghymru (36%) mai eu ffôn clyfar oedd y ddyfais bwysicaf iddynt ar gyfer mynd ar-lein, gartref neu rywle arall. Mae hyn yn cyfateb i ffigurau'r DU drwyddi draw.

Ac eithrio defnyddwyr rhyngrwyd sydd dros 55 oed, a'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, y ffôn clyfar oedd y ddyfais bwysicaf ar gyfer cael mynediad i'r rhyngrwyd ar draws pob grŵp demograffig. Er enghraifft, roedd 58% o bobl 16-34 oed yn nodi mai'r ffôn clyfar oedd y ddyfais bwysicaf, o'i gymharu â 7% o bobl dros 55 oed. Nododd traean a mwy (34%) yn y grwpiau ABC1 mai'r ffôn clyfar oedd y ddyfais bwysicaf iddynt; roedd hyn yn codi i ychydig o dan hanner (47%) defnyddwyr y rhyngrwyd mewn aelwydydd C1DE.

[19] Diffinnir defnyddwyr y rhyngrwyd fel y rheini sy'n mynd ar-lein rywdro, naill ai gartref neu mewn man arall.

Ffigur 5.4 Y ddyfais bwysicaf ar gyfer mynd ar y rhyngrwyd yng Nghymru



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, H1 2016
Sylfaen: Defnyddwyr y rhyngrwyd 16 oed a hŷn (n = 3100 y DU, 401 Cymru, 199 Cymru drefol, 202 Cymru wledig, 130 16-34, 125 35-54, 146 55+, 234 ABC1, 166 C2DE, 99 dan £17.5K, 101 £17.5K+). Profion Arwyddocâd: Mae'r saethau'n dangos unrhyw wahaniaethau arwyddocaol ar y lefel hyder 95% rhwng Cymru a'r DU yn 2016, rhwng Cymru drefol a Chymru wledig yn 2016, yn ôl oed o'i gymharu â holl ddefnyddwyr y rhyngrwyd yng Nghymru yn 2016, rhwng grwpiau economaidd-gymdeithasol yng Nghymru yn 2016 a rhwng grwpiau incwm aelwydydd yng Nghymru yn 2016.
*QE40: Pa un yw'r ddyfais bwysicaf yr ydych chi'n ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd, gartref neu yn rhywle arall? Mae'r atebion 'arall' yn cynnwys: cyfrifiadur gwe, e-ddarllenydd, set deledu, consol gemau, dyfais gludadwy/llaw arall, oriawr glyfar, dyfais arall, dim, a 'ddim yn gwybod'. *Rhybudd: sylfaen isel*

5.3 Defnyddio'r rhyngrwyd

Treuliodd defnyddwyr y rhyngrwyd yng Nghymru 17.8 awr ar-lein bob wythnos ar gyfartaledd yn 2015

Yn ôl ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer Adroddiad Ofcom, *Adult Media Literacy Report*[20], honnai defnyddwyr y rhyngrwyd yng Nghymru eu bod yn treulio 17.8 awr ar-lein bob wythnos ar gyfartaledd yn 2015. Yn ystadegol, nid oedd newid ers 2014. O'r amser hwn, roeddynt yn treulio 12.1 awr yn mynd ar-lein yn eu cartrefi. Roedd yr amser a dreuliwyd ar-lein yn eu man gwaith neu yn eu lleoliad addysg gryn dipyn yn is nag yn Lloegr a'r DU drwyddi draw. Roedd yr amser a dreuliwyd ar-lein mewn unrhyw fan arall hefyd gryn dipyn yn is o'i gymharu â'r DU a'r holl wledydd eraill.

[20] Ar gael ar-lein yn http://stakeholders.ofcom.org.uk/market-data-research/other/research-publications/adults/media-lit-10years/

Ffigur 5.5 Amser yr honnir sy'n cael ei dreulio ar y rhyngrwyd mewn wythnos arferol: 2015



Ffynhonnell: Ymchwil Ofcom, gwaith maes a gynhaliwyd gan Saville Rossiter-Base rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2015
Sylfaen: Pob oedolyn 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein yn y cartref neu yn rhywle arall (1548 y DU, 957 Lloegr, 168 yr Alban, 163 Cymru, 170 Gogledd Iwerddon).
Cwestiwn: IN6A-C – Am sawl awr yr wythnos y byddech chi'n dweud eich bod yn defnyddio'r rhyngrwyd gartref/yn eich gweithle neu eich lleoliad addysg/unrhyw le arall? (Atebion digymell, un cod)

Syrffio neu bori cyffredinol ac anfon a derbyn negeseuon e-bost oedd y gweithgareddau mwyaf poblogaidd ymysg defnyddwyr y rhyngrwyd yng Nghymru yn 2016

Y gweithgareddau mwyaf poblogaidd ar y rhyngrwyd ymysg oedolion yng Nghymru yn 2016 oedd pori/syrffio cyffredinol (87%) ac anfon/derbyn e-byst (86%). Nodwyd hefyd mai'r rhain oedd wedi'u defnyddio amlaf yn yr wythnos flaenorol.[21] Y gweithgaredd mwyaf poblogaidd nesaf oedd prynu nwyddau/gwasanaethau (67%) ac wedyn defnyddio'r rhyngrwyd i fancio (64%), er mai bancio oedd y gweithgaredd a ddefnyddiwyd amlaf yn yr wythnos flaenorol.

[21] Mae'r 'wythnos flaenorol' yn cyfeirio at yr amser y cynhaliwyd cyfweliadau'r ymatebwyr

Ffigur 5.6 Gweithgareddau y mae defnyddwyr y rhyngrwyd yng Nghymru yn eu gwneud ar-lein



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, H1 2016
Sylfaen: Oedolion 16 oed a hŷn sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn y cartref neu yn rhywle arall (n= 401 Cymru 2016)
QE5A: Pa rai, os o gwbl, o'r rhain ydych chi'n defnyddio'r rhyngrwyd ar eu cyfer?

6 Post

Nodyn am ymchwil arolwg traciwr post Ofcom

Traciwr Post Preswyl Ofcom

Mae'r arolwg traciwr post preswyl yn cael ei gynnal gydol y flwyddyn, drwy gyfrwng cyfweliadau wyneb yn wyneb â 1,946 o ymatebwyr 16 oed a hŷn yn y DU. Cafodd 151 o ymatebwyr eu cyfweld yng Nghymru. Mae data'r traciwr post yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at 2015, gyda'r gwaith maes wedi digwydd ym mis Ionawr a mis Chwefror 2015. Yn Chwarter Tri 2015, ni wnaethom gynnal cyfweliadau er mwyn gallu adolygu methodoleg yr arolwg. Oherwydd hyn, nid oes modd cymharu'r samplau a gafwyd yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon yn uniongyrchol â data'r blynyddoedd blaenorol. Mae lled gwall y sampl yng Nghymru oddeutu +/- 5-8%.

Traciwr Post Busnes Ofcom 2015

Mae'r arolwg traciwr post busnes yn cael ei gynnal gydol y flwyddyn, drwy gyfweliadau dros y ffôn ymysg sampl o 1,200 o bobl sy'n gyfrifol am y post mewn BBaCh yn y DU (busnesau â 0-249 o weithwyr) a 167 BBaCh yng Ngogledd Iwerddon. Mae data'r traciwr post yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at 2015, gyda'r gwaith maes wedi digwydd ym mis Ionawr a mis Chwefror 2015. Yn Chwarter Tri 2015, ni wnaethom gynnal cyfweliadau er mwyn gallu adolygu methodoleg yr arolwg. Oherwydd hyn, nid oes modd cymharu'r samplau a gafwyd yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon yn uniongyrchol â data'r blynyddoedd blaenorol. Mae lled gwall y sampl yng Nghymru oddeutu +/- 5-8.

6.1 Datblygiadau diweddar yng Nghymru

Codi tâl ychwanegol am barseli

Mae unigolion a sefydliadau defnyddwyr yn dal i nodi bod cwsmeriaid mewn lleoliadau gwledig, anghysbell neu bellennig yn gallu wynebu taliadau ychwanegol er mwyn cael parseli, lle mae'r parsel y tu allan i'r gwasanaeth cyffredinol sy'n pennu pris unffurf ar gyfer dosbarthu parseli. Mae Ofcom wrthi'n casglu gwybodaeth er mwyn deall pa mor gyffredin yw'r taliadau ychwanegol hyn, i ba leoliadau maent yn berthnasol, ac a ydynt yn cael eu gosod fel arfer gan fanwerthwyr neu gan y cwmnïau sy'n dosbarthu'r parseli. Mae Ofcom yn disgwyl cynnwys rhai o'r canfyddiadau hyn yn ei ddiweddariad monitro blynyddol ar y farchnad bost.

6.2 Anfon a derbyn post: cwsmeriaid preswyl

Roedd bron i naw o bob deg oedolyn yng Nghymru wedi anfon o leiaf un eitem o bost bob mis

Dywedodd llai nag un o bob pump (15%) oedolyn yng Nghymru nad oeddynt wedi anfon eitem o bost yn ystod y mis diwethaf. Mae hyn yn cymharu â 21% yn y DU drwyddi draw a 29% yn yr Alban. Roedd oedolion yng Nghymru wedi anfon 6.3 eitem ar gyfartaledd bob mis, o'i gymharu â 6.6 eitem bob mis yn y DU drwyddi draw. Roedd mwyafrif o oedolion (74%) wedi anfon rhwng un a deg eitem yn ystod y mis diwethaf.

Ffigur 6.1 Nifer yr eitemau post a anfonwyd yn ystod y mis diwethaf yn fras



Ffynhonnell: Traciwr Post Preswyl Ofcom 2015

Sylfaen: Pob ymatebydd (n = 1946 o oedolion 16 oed a hŷn, 1451 Lloegr, 214 yr Alban, 151 Cymru, 130 Gogledd Iwerddon)

QC1. Tua faint o eitemau – gan gynnwys llythyrau, cardiau a pharseli – rydych chi'n bersonol wedi'u hanfon drwy'r post yn ystod y mis diwethaf?

Anfonodd oedolion yng Nghymru 1.5 parsel y mis ar gyfartaledd

Dywedodd bron i chwech o bob deg oedolyn (58%) yng Nghymru nad oeddynt wedi anfon unrhyw barseli yn ystod y mis diwethaf; mae hyn yn debyg i wledydd eraill y DU. Anfonodd oedolion yng Nghymru 1.5 parsel y mis ar gyfartaledd, sydd unwaith eto'n debyg i weddill y DU.

Ffigur 6.2 Parseli a anfonwyd yn ystod y mis diwethaf



Ffynhonnell: Traciwr Post Preswyl Ofcom 2015

Sylfaen: Pob ymatebydd (n = 1491 o oedolion 16 oed a hŷn, 1131 Lloegr, 152 yr Alban, 127 Cymru, 81 Gogledd Iwerddon)

*QC2. A faint o'r eitemau hyn a anfonwyd yn y mis diwethaf oedd yn barseli yn hytrach na llythyrau neu gardiau? *Rhybudd: Sylfaen isel*

Mae oedolion yng Nghymru yn llai tebygol o anfon parseli llai na'r rheini yn y DU drwyddi draw

Dywedodd llai nag un o bob pump oedolyn yng Nghymru (15%) eu bod wedi anfon parsel llai yn ystod y mis diwethaf. Roedd yr holl fathau eraill o bost a anfonwyd yn ystod y mis diwethaf yn debyg i gyfartaledd y DU at ei gilydd. Fel yn y gwledydd eraill, dywedodd canran uchel o'r ymatebwyr eu bod yn anfon gwahoddiadau, cardiau cyfarch a chardiau post (51%) a pharseli mwy (42%).

Ffigur 6.3 Mathau o bost a anfonwyd yn ystod y mis diwethaf



Ffynhonnell: Traciwr Post Preswyl Ofcom 2015

Sylfaen: Pawb sydd wedi anfon unrhyw eitemau drwy'r post yn bersonol yn yr wythnos ddiwethaf (n = 1491 y DU, 1131 Lloegr, 152 yr Alban, 127 Cymru, 81 Gogledd Iwerddon)

*QC5. Pa rai o'r mathau hyn o bost fyddech chi'n dweud rydych wedi'u hanfon drwy'r post yn bersonol yn y mis diwethaf? (sawl cod) *Rhybudd: Sylfaen isel*

Mae nifer yr eitemau a dderbyniwyd bob wythnos yng Nghymru yn debyg i gyfartaledd y DU

Dywedodd bron i hanner yr oedolion yng Nghymru (46%) eu bod wedi derbyn rhwng pump a deg eitem yn ystod yr wythnos diwethaf. Mae oedolion yng Nghymru yn derbyn 8.7 eitem o bost yr wythnos ar gyfartaledd; mae hyn yn debyg i gyfartaledd y DU, yr Alban a Lloegr, ond yn uwch nag yng Ngogledd Iwerddon.

Ffigur 6.4 Nifer yr eitemau post a dderbyniwyd yn ystod yr wythnos diwethaf yn fras



Ffynhonnell: Traciwr Post Preswyl Ofcom 2015

Sylfaen: Pob ymatebydd (n = 1946 o oedolion 16 oed a hŷn, 1451 Lloegr, 214 yr Alban, 151 Cymru, 130 Gogledd Iwerddon)
QD1 Tua faint o eitemau post – gan gynnwys llythyrau, cardiau a pharseli – rydych chi'n bersonol wedi'u derbyn yn ystod yr wythnos diwethaf?

Roedd chwech o bob deg oedolyn yng Nghymru heb dderbyn unrhyw barseli yn ystod yr wythnos diwethaf

Dywedodd ychydig dros chwech o bob deg oedolyn yng Nghymru (63%) nad oeddynt wedi derbyn unrhyw barseli yn ystod yr wythnos diwethaf, yn unol â gweddill gwledydd y DU. Dywedodd ychydig dros chwarter (27%) eu bod wedi derbyn un neu ddau barsel.

Ffigur 6.5 Parseli a dderbyniwyd yn ystod yr wythnos diwethaf



Ffynhonnell: Traciwr Post Preswyl Ofcom 2015

Sylfaen: Pob ymatebydd a oedd wedi derbyn unrhyw eitemau post yn bersonol yn ystod yr wythnos diwethaf (n = 1824 oedolion 16+, 1258 Lloegr, 203 yr Alban, 147 Cymru, 116 Gogledd Iwerddon)

QD2. A faint o'r eitemau hyn a dderbyniwyd yn ystod yr wythnos diwethaf oedd yn barseli?

6.3 Agweddau tuag at y Post Brenhinol: cwsmeriaid preswyl

Dywed oedolion yng Nghymru eu bod yn fodlon iawn at ei gilydd ag agweddau penodol ar wasanaeth y Post Brenhinol

Dywed dros naw o bob deg oedolyn yng Nghymru (95%) eu bod yn fodlon â diogelwch y gwasanaeth a gynigir gan y Post Brenhinol. Mae naw o bob deg oedolyn yng Nghymru (90%) hefyd yn fodlon â'r amser mae'r post yn ei gymryd i gyrraedd. Dywed dros wyth o bob deg oedolyn (85%) eu bod yn fodlon â'r nifer o flychau post sydd ar gael. Dywed nifer tebyg o ymatebwyr (88%) eu bod yn fodlon â nifer y Swyddfeydd Post sydd ar gael; mae'r ffigur hwn yn uwch na'r ffigur ar gyfer y DU (78%).

Ffigur 6.6 Bodlonrwydd ag agweddau penodol ar wasanaeth y Post Brenhinol



Ffynhonnell: Traciwr Post Preswyl Ofcom 2015

Sylfaen: Pob ymatebydd yng Nghymru (n = 1946 y DU, 151 Cymru)

QE3A-F. Bodlonrwydd ag agweddau penodol ar wasanaethau'r Post Brenhinol - wedi'i restru'n ôl y gyfran sy'n fodlon ymysg oedolion yng Nghymru

Dywed pobl yng Nghymru iddynt gael mwy o broblemau gyda phost yn mynd ar goll na'r rheini yn y gwledydd eraill

Dywedodd dros un o bob pump oedolyn yng Nghymru (21%) eu bod wedi cael problemau gyda phost yn mynd ar goll yn ystod y 12 mis diwethaf, sy'n fwy nag yn yr holl wledydd eraill. Dywedodd ychydig dros un o bob deg oedolyn (15%) eu bod wedi profi oedi wrth dderbyn eitemau post a dywedodd cyfran debyg (13%) eu bod wedi derbyn post wedi'i ddifrodi.

Ffigur 6.7 Problemau a gafwyd â'r Post Brenhinol yn ystod y 12 mis diwethaf



Ffynhonnell: Traciwr Post Preswyl Ofcom 2015
Sylfaen: Pob ymatebydd (n = 1946 oedolyn 16+, 1451 Lloegr, 214 Yr Alban, 151 Cymru, 130 Gogledd Iwerddon)
QG1A-E. Problemau a gafwyd gyda gwasanaeth y Post Brenhinol yn ystod y 12 mis diwethaf, wedi'i restru'n ôl y gyfran ymysg holl oedolion y DU. Nodyn: Post yr ymyrrwyd arno yw post lle mae ymgais fwriadol wedi'i wneud i ganfod neu i ddwyn y cynnwys.

6.4 Anfon a derbyn post: cwsmeriaid busnes

Mae hanner y busnesau yng Nghymru yn anfon llai na 25 llythyr bob mis

Gofynnwyd i fusnesau faint o lythyrau a llythyrau mawr y mae eu sefydliadau'n eu hanfon bob mis ar gyfartaledd. Dywedodd hanner y busnesau (51%) yng Nghymru eu bod yn anfon rhwng 0 a 24 eitem bob mis; mae hyn yn cymharu â bron i chwech o bob deg (59%) yn y DU drwyddi draw. Dywed chwarter y busnesau (26%) yng Nghymru eu bod yn anfon rhwng 25 a 49 eitem bob mis ar gyfartaledd; 18% yw'r ffigur ar gyfer y DU drwyddi draw.

Ffigur 6.8 Nifer y llythyrau sy'n cael eu hanfon bob mis ar gyfartaledd



Ffynhonnell: Traciwr Post Busnes Ofcom 2015
Sylfaen: Pob ymatebydd (n = 1200 y DU, 734 Lloegr, 156 yr Alban, 167 Cymru, 143 G Iwerddon)

QV2a. Ar gyfartaledd, faint o lythyrau mae'ch sefydliad chi yn eu hanfon bob mis? Ystyriwch DIM OND yr holl lythyrau a llythyrau mawr rydych yn eu hanfon fel sefydliad.

Mae busnesau yng Nghymru yn defnyddio post Dosbarth Cyntaf yn amlach na busnesau yng ngwledydd eraill y DU

Dywedodd bron i naw o bob deg busnes yng Nghymru (88%) eu bod yn defnyddio'r gwasanaeth Dosbarth Cyntaf wrth anfon llythyrau (h.y. post nad yw'n cael ei dracio ac nad oes rhaid cael llofnod wrth ei dderbyn), cyfran uwch na holl wledydd eraill y DU. Mae busnesau yng Nghymru yn tueddu i ddefnyddio gwasanaethau eraill y Post Brenhinol mewn cyfrannau tebyg i gyfartaledd y DU.

Ffigur 6.9 Gwasanaethau'r Post Brenhinol sy'n cael eu defnyddio i anfon post safonol bob mis



Ffynhonnell: Traciwr Post Busnes Ofcom 2015

Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n defnyddio gwasanaethau dosbarthu safonol y Post Brenhinol (n = 1121 y DU, 686 Lloegr, 146 yr Alban, 155 Cymru, 134 G Iwerddon)
QV6d. Pa rai o wasanaethau canlynol y Post Brenhinol, os o gwbl, y mae eich sefydliad chi yn eu defnyddio i anfon eich post safonol?

Mae busnesau yng Nghymru ymysg y rhai lleiaf tebygol o fod wedi newid o ddefnyddio'r post i ddulliau cyfathrebu eraill yn ystod y 12 mis diwethaf

Gofynnwyd i fusnesau a oeddynt wedi newid rhai rhannau o'u post i ddulliau cyfathrebu eraill yn ystod y 12 mis diwethaf. Honnai hanner y busnesau (52%) yng Nghymru eu bod wedi symud rhywfaint o'u post i ddulliau eraill.

Pan ofynnwyd iddynt pam nad oeddynt wedi symud unrhyw bost i ddulliau cyfathrebu eraill dros y flwyddyn ddiwethaf, yr ymateb mwyaf poblogaidd ymysg busnesau yng Nghymru oedd 'yn hapus i anfon pethau drwy'r post'. Yr ymateb mwyaf poblogaidd ar gyfer y DU yn gyffredinol oedd 'rydym eisoes wedi symud popeth mae'n bosibl ei symud'.

Ffigur 6.10 Wedi newid i ddulliau cyfathrebu eraill yn ystod y 12 mis diwethaf yng nghyswllt rhywfaint o bost



Ffynhonnell: Traciwr Post Busnes Ofcom 2015

Sylfaen: Pob ymatebydd (n = 1200 y DU, 734 Lloegr, 156 yr Alban, 167 Cymru, 143 G Iwerddon)

QF4. Yn ystod y 12 mis diwethaf, ydy'ch sefydliad chi wedi newid i ddulliau cyfathrebu eraill yng nghyswllt rhywfaint o'ch post?

Y rheswm mwyaf tebygol dros newid yw'r gost

O'r busnesau hynny a oedd wedi symud rhywfaint o'u post i ddulliau cyfathrebu eraill, dywedodd bron i hanner ohonynt (47%) fod y penderfyniad wedi'i wneud er mwyn arbed costau gyda chanran debyg (46%) yn nodi cyflymder fel y rheswm dros newid.

Ffigur 6.11 Y prif resymau dros newid i ddulliau cyfathrebu eraill yn ystod y 12 mis diwethaf yng nghyswllt rhywfaint o bost



Ffynhonnell: Traciwr Post Busnes Ofcom 2015
Sylfaen: Pob un sydd wedi newid i ddulliau cyfathrebu eraill (n = 720 y DU, 452 Lloegr, 80 yr Alban, 94 Cymru, 94 G Iwerddon)
QF6: Pam rydych chi wedi newid i ddulliau cyfathrebu eraill yng nghyswllt rhywfaint o'ch post? (penagored) Dangosir y 6 rheswm pennaf

**Rhybudd: Sylfaen isel*

6.5 Agweddau tuag at y Post Brenhinol: cwsmeriaid busnes

Mae bodlonrwydd â'r Post Brenhinol yn uwch na chyfartaledd y DU ymysg busnesau yng Nghymru

Gofynnwyd i fusnesau pa mor fodlon oeddynt yn gyffredinol â gwasanaethau'r Post Brenhinol y maent yn eu defnyddio, fel rhywun sy'n anfon ac fel rhywun sy'n derbyn post. Dywedodd wyth o bob deg busnes (82%) yng Nghymru eu bod yn 'fodlon iawn' neu'n 'eithaf bodlon' â gwasanaethau'r Post Brenhinol. Mae canran y busnesau yng Nghymru a ddywedodd eu bod yn 'fodlon iawn' (47%) yn uwch nag yn y DU drwyddi draw (39%).

Ffigur 6.12 Bodlonrwydd cyffredinol ag ansawdd y gwasanaeth gan y Post Brenhinol



Ffynhonnell: Traciwr Post Busnes Ofcom 2015
Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n defnyddio'r Post Brenhinol (n = 1185 y DU, 727 Lloegr, 155 yr Alban, 164 Cymru, 139 Gogledd Iwerddon)
QRM2. Gan feddwl yn gyffredinol am y gwasanaeth y mae'ch sefydliad yn ei dderbyn, ar raddfa o 1 i 5 lle mae 1 yn golygu anfodlon iawn a 5 yn golygu bodlon iawn, pa mor fodlon ydych chi ag ansawdd cyffredinol y gwasanaethau yr ydych yn eu derbyn gan y Post Brenhinol fel rhywun sy'n anfon post ac yn ei dderbyn?

Mae mwy o fusnesau yng Nghymru nag yn y DU drwyddi draw yn fodlon â dibynadwyedd y casgliadau

Mae mwy o fusnesau yng Nghymru nag yn y DU drwyddi draw yn fodlon â dibynadwyedd y casgliadau (76% o'i gymharu â 66%). Dywedodd pedwar o bob deg busnes yng Nghymru (40%) eu bod yn fodlon â phris postio, sy'n debyg i ffigur y DU drwyddi draw (38%). Dywedodd dros dri chwarter y busnesau eu bod yn fodlon â dibynadwyedd/cysondeb y dosbarthu (83%), dibynadwyedd y casgliadau (76%), amser dosbarthu (76%) a faint o bost a gollir (75%).

Ymysg busnesau yng Nghymru sy'n defnyddio'r Post Brenhinol, dywedodd dros wyth o bob deg (82%) nad oeddynt wedi cael unrhyw broblemau gyda'u gwasanaeth wrth anfon neu dderbyn post yn ystod y chwe mis diwethaf.

Ffigur 6.13 Bodlonrwydd ag agweddau penodol ar wasanaeth y Post Brenhinol



Ffynhonnell: Traciwr Post Busnes Ofcom 2015

Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n defnyddio'r Post Brenhinol (n = 1185 y DU, 164 Cymru)
QMR3: Beth yw eich barn am berfformiad y Post Brenhinol, fel rhywun sy'n anfon ac yn derbyn post, yn y meysydd canlynol gan ddefnyddio graddfa 5 pwynt gydag 1 yn golygu anfodlon iawn a 5 yn golygu bodlon iawn?